University of South Wales
Prifysgol De Cymru

RHEOLIADAU AR GYFER CYRSIAU A ADDYSGIR

2023/2024

Cofrestrfa Academaidd

Teitl: Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir					
Fersiwn	**Dyddiad Cyhoeddi**	**Disgrifiad Diwygiedig**	**Awdur**	**Cymeradwywyd Gan a Dyddiad**	**Dyddiad Adolygu Nesaf**
1.0	Awst 2019	Cyhoeddiad Cyntaf	Hayley Burns	Bwrdd Academaidd a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd Awst 2019	Mai 2020
1.1	Awst 2020	Diweddariadau yn dilyn yr is-bwyllgor Rheoliadau a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf.	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd Gorffennaf 2020	Mai 2021
1.2	Gorffennaf 2020	Diweddariadau yn dilyn yr Is-bwyllgor Rheoliadau a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf.	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd Gorffennaf 2020	Mai 2021
1.3	Chwefror 2021	Diweddariadau yn dilyn yr Is-bwyllgor Rheoliadau a gynhaliwyd ym mis Chwefror	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd	Mai 2021
1.4	Ebrill 2021	Diweddariadau yn dilyn yr Is-bwyllgor Rheoliadau a gynhaliwyd ym mis Chwefror	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd	Mai 2021
1.5	Mai 2021	Cynnwys Cyrsiau a Achredwyd gan y Sefydliad Peirianwyr Mecanydd (IMechE) a Doethur Mewn Gweinyddu Busnes	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd	Mai 2021

1.6	Gorffennaf 2021	Cynnwys: BA Addysg Gychwynnol i Athrawon Cynradd gyda SAC Diweddariad V100 BSc Astudiaethau Iechyd Cymunedol (Nyrsio Dosbarth Ymarferydd Arbenigol) FD Nyrsio Milfeddygol Diploma i Raddedigion mewn Ymarfer Plismona Proffesiynol BSc Ymarfer Plismona Proffesiynol BSc Gwaith Cymdeithasol BSc Nyrsio BSc Therapi Chwaraeon ac Ymarfer Corff Diweddariad i 'Cyflwyno Gwaith Cwrs yn Hwyr' Rheoliadau MA Addysg (Cymru) Rheoliadau Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL) Cynllun Myfyrwyr Cyswllt Diweddariad i derminoleg Plismona Gweithredol 'Portffolio Cymhwysedd Gweithredol' Diweddariadau cadw tŷ	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd	Mai 2022
1.7	Medi 2021	Cydnabod Dysgu Blaenorol Baglor mewn Bydwreigiaeth a Graddfeydd Marcio	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd	Mai 2022
1.8	Tachwedd 2021	Cynhwysiad: Dosbarthiad ImechE	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd	Mai 2022
1.9	Ionawr 2022	Cynhwysiad: Tystysgrif Addysg Uwch (CertHE) mewn Arfer Plismona Cymunedol MSc Seicoleg (Trosi) BSc/BEng/MSc/MEng Peirianneg Sifil Cyrsiau a Achredir gan Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol (IMecheE)	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd	Mai 2022

		Diweddariadau gwaith cymhenu.			
1.10	Mawrth 2022	Diweddariadau i'r canlynol: Diweddariad i 'Gyflwyno Gwaith Cwrs yn Hwyr' Diweddariad i DCynnydd ac Ailasesu - PGCert Independent Prescribing Practice Seicoleg Cwnsela Doethuriaeth Broffesiynol BSc Ymarfer Plismona Proffesiynol (fersiynau Cymraeg a Saesneg) BSc Ymarfer Plismona Proffesiynol (fersiwn Saesneg yn unig)	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd	Gorffennaf 2022
1.11	Gorffennaf 2022	Cynnwys: LLM Proffesiynol	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd	Gorffennaf 2022
1.12	Gorffennaf 2022	Cynnwys: BSc/BEng Peirianneg Sifil BSc Therapi Galwedigaethol BSc Arferion Adran Weithredu BSc Ffisiotherapi Cynnwys: BSc Sports and Exercise Therapy BSc Biomedical Science Dileu: Civil and Structural Engineering Programmes Accredited by the Joint Board of Moderators (JBM) (A3 34-36) BA Primary Studies with QTS BSc Technoleg Dylunio Uwchradd gyda SAC Sgiliau Cwnsela CertHE Coleg Pen-y-bont ar Ogwr Modiwlau Ymarfer Addysgu Addysgol	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd	Mai 2023

		Goruchwyliaeth Ymgynghorol PGDip Cwnsela PGDip Plant a Phobl Ifanc			
1.13	Medi 2022	Diweddariadau i gyrsiau sy'n rhan o'r prosiect Adfer yn Ystod y Flwyddyn. Dileu Tystysgrif a Diploma Profiad Cyflogadwyedd	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd	Mai 2023
1.14	Rhagfyr 2022	Cynnwys: BEng/MEng Astudiaethau Awyrofod BSc Gwyddor Biofeddygol MSc Gwella Ymarfer Clinigol BEng/MEng Peirianneg Drydanol ac Electronig BEng/MEng Peirianneg Modurol BCc/PGDip Nyrsio Diweddariadau i gyrsiau sy'n rhan o'r prosiect Adfer yn Ystod y Flwyddyn.	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd	Mai 2023
1.15	Mawrth 2023	Cynnwys: MSc Astudiaethau Iechyd Cymunedol (Ymarferydd Arbenigol Nyrsio Ardal) V100.	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd	Mai 2023
1.16	Ebrill 2023	Diwygiadau i'r Rheoliadau Trefniadau Eithriadol	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd	Mai 2023
1.17	Gorffennaf 2023	Cynnwys: Diweddariadau Cadw Tŷ FdSc Nyrsio Milfeddygol Tystysgrif Addysg Uwch mewn Addysg Gweithiwr Cymorth Nyrsio Gofal Iechyd Cyrsiau wedi'u hachredu gan IET BSc Ymarfer Plismona Proffesiynol (Saesneg) BSc Ymarfer Plismona Proffesiynol (Cymraeg a Saesneg) Canllaw Adfer yn Ystod y Flwyddyn	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd	Mai 2024

1.18	Medi 2023	Gwelliant i: DipHE/BSc Cyfrifeg Broffesiynol Achrededig gan ACCA Cynnwys: MSc Ymarferydd Clinigol Uwch/PGCert Ymarfer Presgripsiynu Annibynol	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd	Mai 2024
1.19	Rhagfyr 2023	Cynnwys: Cyfnod cofrestru are gyfer Myfyrwyr Learna Ltd BSc Peirianneg Rheilffyrdd (Sifil) a BSc Peirianneg Reilffyrdd Peirianneg Systemau Electro-fecanyddol	Nicola Poole	Is-bwyllgor Rheoliadau a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd	Mai 2024

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

DipHE/BSc Cyfrifeg Broffesiynol Achrededig gan ACCA 5
A1: Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Cyrsiau a Addysgir 11
Cyflwyniad ac Ystyr 11
Dyfarniadau, Cyrsiau a Modiwlau 12
Derbyniadau 12
Derbyniad Grŵp PDC 13
Cydnabod Dysgu Blaenorol 13
Ymrestru ac Ailgofrestru 13
Cynllun Myfyrwyr Cysylltiol 14
Prentisiaethau 14
Isafswm ac Uchafswm Cyfnodau Cofrestru 14
Dewis modiwlau 14
Ffioedd Dysgu 15
Absenoldeb dros dro 15
Tynnu'n ôl, trosglwyddo a thorri ar draws astudiaethau 15
Torri ar draws astudiaethau 15
Tynnu'n ôl o astudiaethau 16
Trosglwyddo cwrs/sefydliad 16
Cefnogi eich dysgu 16
Asesu 17
Amgylchiadau Esgusodol 17
Cyflwyno gwaith cwrs yn hwyr 17
Addasrwydd i Astudio 18
Uniondeb Academaidd 18
Rheolau Arholiadau 19
Goruchwylwyr Arholiadau 19
Presenoldeb yn y lleoliad arholi 19
Mynd i mewn i leoliad yr arholiad 19
Eitemau a deunyddiau a ganiateir 19
Papur cwestiynau arholiad 20
Llyfryn ateb arholiad 20
Hunaniaeth ymgeisydd yn y lleoliad arholi 21
Ymddygiad ymgeisydd yn y lleoliad arholi 21
Absenoldeb dan oruchwyliaeth o'r lleoliad arholi 21
Gadael lleoliad yr arholiad 22
Camymddwyn academaidd 22
Larymau tân a gwacáu mewn argyfwng 22

Sefyll arholiad mewn lleoliad gwahanol i'r man astudio 22
Asesu drwy gyfrwng y Gymraeg 23
Marcio a Graddio 23
Cynnydd, Adfer Methiant a Digolledu 24
Cynnydd 24
Adfer methiant – cyffredinol 24
Adfer methiant - ailsefyll 24
Adfer methiant – ailadrodd modiwlau 25
Digolledu mewn achosion o fethu rhannol 26
Dyfarnu cymwysterau 28
Rhoi dyfarniadau 28
Dyfarniadau Aegrotat ac ar ôl Marwolaeth 28
Cwynion ac Apeliadau 28
Darpariaeth Gydweithredol 29
A2: Rheoliadau Cwrs Myfyrwyr Israddedig 30
Cyflwyniad 30
Derbyniadau 30
Cyrsiau y mae angen Atgyfeiriad at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) 30
Cydnabod dysgu blaenorol (RPL) 30
Isafswm ac Uchafswm Cyfnodau Cofrestru 33
Dewisiadau pwnc - prif/atodol, ar y cyd a chyfunol 34
Graddfeydd marcio 34
Cynnydd ac Ailasesu 35
Cymhwystra ar gyfer dyfarniadau 36
Dyfarniadau Edexcel 36
Graddau Sylfaen 36
Rheoliadau Penodol i Gwrs 38
Cyrsiau wedi'u hachredu gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (IET) 38
Cyrsiau a Achredwyd gan y Sefydliad Peirianwyr Mecanyddol (IMechE) 40
DipHE/BSc Cyfrifeg Broffesiynol Achrededig gan ACCA 40
BA Cwnsela ac Ymarfer Therapiwtig 41
BA Addysg ac Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar (gyda statws Ymarferwr) 42
BA (Anrh) Rheoli Gwesty a Lletygarwch 42
BA Addysg Gychwynnol Athrawon Cynradd gyda SAC (fersiynau Cymraeg a Saesneg) 43
BA Gwaith Ieuenctid a Chymuned a BA Gwaith Ieuenctid a Chymuned (Cyfiawnder Ieuenctid) 43

84. Yn unol â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), mae pob modiwl yn graidd a rhaid i chi basio pob elfen o asesiad gydag o leiaf 40% (ac eithrio'r arholiad cyfrifo dos meddyginiaeth ar-lein, sy'n gofyn am 100%). 44
Baglor mewn Nyrsio 44
BEng/MEng 44
BSc (Anrh) Peirianneg Cynnal a Chadw Awyrennau 46
BSc Therapi Galwedigaethol 48
BSc Ymarfer Adran Llawdriniaethau 49
BSc Ffisiotherapi 49
BSc Ymarfer Plismona Proffesiynol (fersiyn Saesneg) 50
BSc Therapi Chwaraeon ac Ymarfer Corff 51
BSc Cwnsela Systemig 52
CertHE Ymarfer Plismona Cymunedol 52
Modiwlau Annibynnol mewn Addysg 53
Peirianneg Sylfaenol 53
Gradd Sylfaen mewn Nyrsio Milfeddygol 53
Diploma Graddedigion mewn Ymarfer Plismona Proffesiynol 54
Cymhwyster ACA Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) 54
Rheoliadau ICAEW CFAB (Tystysgrif mewn Cyllid, Cyfrifeg a Busnes) 55
LLB Ymarfer Cyfreithiol (Eithrio) 55
Gradd Meistr mewn Cyfrifiadureg (MComp) 56
Meistr mewn Mathemateg (MMath) 57
Graddau Meistr mewn Gwyddoniaeth (MSci) mewn Cemeg a Gwyddor Fferyllol 57
Gradd Meistr yn y Gyfraith (MLaw) 58
Gradd Meistr mewn Ceiropracteg (MChiro) 58
Modiwlau Ymarfer Clinigol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwaith Cymdeithasol 59
A3: Rheoliadau Cwrs ÔI-raddedig a Addysgir 59
Cyflwyniad 59
Derbyniadau 60
Cyrsiau y mae angen eu Hatgyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) 60
Cydnabod dysgu blaenorol (RPL) 60
Isafswm ac uchafswm cyfnodau cofrestru 61
Graddfeydd marcio 62
Cynnydd ac Ailasesu 62
Dosbarthiad Dyfarniadau ÔI-raddedig 63
Graddau Meistr 63
Diplomâu ÔI-raddedig 64
Tystysgrifau ÔI-raddedig a Thystysgrifau ÔI-raddedig mewn Addysg 64

Doethuriaethau Proffesiynol 64
Eithriadau Cwrs 64
CA4D011 Modiwl Rhagnodi Annibynnol 64
Cyrsiau achrededig gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (IET) 64
Doethur mewn Gweinyddu Busnes 65
Rhaglenni Addysg 65
Cwrs Ymarfer Cyfreithiol 65
LLM mewn Ymarfer Cyfreithiol 66
Ymarfer Proffesiynol LLM (51) 66
MA Seicotherapi Celf 66
MA mewn Therapi Cerdd 67
55. Rhaid i chi ennill isafswm marc o 40% ym mhob elfen o bob asesiad i lwyddo mewn unrhyw fodiwl. 67
MA Gweithio dros Blant a Phobl Ifanc (Cymhwyso Dechreuol Gwaith Ieuenctid) 67
MSc Therapi Chwarae 69
PGCert Ymarfer Rhagnodi Annibynnol 69
PGCert Gofal Lliniarol 70
TAR PcET 71
Tystysgrif Ôl-raddedig Sgiliau Cwnsela, Tystysgrif Ôl-raddedig Sgiliau Cwnsela Integreiddiol, Diploma Ôl-raddedig Cwnsela Integreiddiol a Diploma Ôl-raddedig Seicotherapi Ymddygiad Gwybyddol, MA Cwnsela Integreiddiol, MSc Seicotherapi Ymddygiad Gwybyddol 71
Tystysgrif Ôl-raddedig AAA/ADY (Awtistiaeth), Tystysgrif Ôl-raddedig Arweinyddiaeth a Rheolaeth (Addysg), Tystysgrif Ôl-raddedig AAA/ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol), Tystysgrif Ôl-raddedig CAMH 72
Diploma Ôl-raddedig Seicotherapi Gwybyddol ac Ymddygiadol 72
Doethuriaeth Broffesiynol mewn Seicoleg Cwnsela 72
A4: Rheoliadau Cwrs – Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru 74
Cyflwyniad 74
Graddfeydd marcio 77
Cynnydd ac Ailasesu 77
Cymhwystra ar gyfer dyfarniadau 78
Cyrsiau tair blynedd 78
Cyrsiau pedair blynedd 78
Dyfarniadau ôl-raddedig 79
Graddfeydd marcio 79
Asesu ar Lefel Ôl-raddedig 80
Cynnydd, Adfer Methiant a Aigolledu 80
Dosbarthiad graddau anrhydedd 80

BA Rheoli Llwyfan a Theatr Dechnegol, BA Cynllunio ar gyfer Perfformio a BA Actio 80
BMus Cerddoriaeth a BMus Jazz 80
A5: Rheoliadau Trefniadau Eithriadol 84
Cyflwyniad 84
Egwyddorion Allweddol 84
Defnyddio Rheoliadau Trefniadau Eithriadol 84
Force Majeure sy'n effeithio ar addysgu ac asesu 85
Force Majeure sy'n arwain at golli marciau neu gymedroli 85
Gwneud penderfyniadau mewn cyfarfodydd Bwrdd 85
Bwrdd Asesu Pwnc 86
Bwrdd Dilyniant a Dyfarnu 86
Diwygiadau i'r weithdrefn amgylchiadau esgusodol yn achos force majeure 87
Diwygiadau i'r weithdrefn camymddwyn academaidd yn achos *force majeure* 87
Diwygiadau i weithdrefnau disgyblu anacademaidd 88
A6: Rheoliadau Cwrs – Dyfarniadau Eraill 89
Cyflwyniad 89
Derbyniadau 89
Cyrsiau sy'n gofyn am gliriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) 89
Cydnabod dysgu blaenorol 90
Isafswm ac uchafswm cyfnodau cofrestru 90
Graddfeydd marcio 91
Cymhwystra ar gyfer dyfarniadau 91
Dosbarthiad Dyfarniadau 91
A7: Prifysgol De Cymru – Fframwaith Dyfarniadau 92
Rhesymeg 92

A1: Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Cyrsiau a Addysgir

Cyflwyniad ac Ystyr

1. Yn y rheoliadau hyn, fel y mae cyd-destun yn mynnu, mae "chi" ac "eich" yn golygu'r myfyriwr, prentis neu'r ymgeisydd; mae "ni", "ein" a "ni'n hunain" yn golygu Prifysgol De Cymru neu Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) fel sy'n briodol.

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn dweud wrthych beth y byddwn yn ei wneud i ddarparu cyrsiau astudio, a beth y mae'n rhaid i chi ei wneud fel myfyriwr, prentis neu'r ymgeisydd. Maent yn rhan bwysig o'r contract rhyngom ni, ac ni fyddant yn newid heb eich cyfraniad chi (a all fod gan Undeb y Myfyrwyr sy'n gweithredu ar eich rhan). Rydym yn adolygu'r Rheoliadau hyn ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd. Byddwn yn rhoi gwybod i chi adeg ailgofrestru os bydd unrhyw newidiadau.

3. Weithiau bydd y Rheoliadau'n cyfeirio at bolisïau neu weithdrefnau penodol. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn nodi manylion am sut y byddwn yn cyflawni'r rhwymedigaethau a nodir yn y Rheoliadau hyn, a gallant newid drwy eich astudiaethau gyda ni. Byddwn bob amser yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cyflawni'r ymrwymiadau yr ydym wedi'u gwneud i chi.

4. The Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i chi ac i bob cwrs a addysgir a gynigir gennym ni.

5. Ceir rheoliadau hefyd ar gyfer cyrsiau penodol, neu fathau o gwrs, sy'n ategu'r Rheoliadau hyn: Dylech ddarllen y Rheoliadau cwrs perthnasol yn ogystal. Mae'r *Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Cyrsiau a Addysgir* a'r *Rheoliadau Cwrs* penodol yn gweithio gyda'i gilydd i nodi'r fframwaith o ran sut y byddwn yn cynnig cyfleoedd addysgol, a'r disgwyliadau sydd gennym ni ohonoch chi.

6. Weithiau bydd *Rheoliadau Cyrsiau* yn nodi eithriadau i'r *Rheoliadau Cyffredinol* – mae hyn yn ein galluogi i ystyried anghenion y diwydiant neu anghenion cyrff proffesiynol, rheoliadol neu statudol. Mewn achosion o'r fath, bydd *Rheoliadau'r Cwrs* yn cael blaenoriaeth dros y *Rheoliadau Cyffredinol.*

7. Rydym yn defnyddio'r rheoliadau i sicrhau ein bod yn gyson o ran ein barn academaidd a'n bod yn eich trin yn deg ac yn gyfartal.

8. Mae i rai o'r geiriau yn y Rheoliadau hyn ystyr penodol. Lle bo hyn yn benodol i adran, diffinnir y gair yn y lle hwnnw.

9. Defnyddir rhai geiriau'n fwy cyffredinol, ac mae eu hystyr penodol wedi'u nodi yma:

    a. ystyr "diwrnod" yw diwrnod calendr: hynny yw, yn cynnwys penwythnosau, gwyliau banc a diwrnodau cau Prifysgol.

    b. mae "diwrnod gwaith" yn eithrio penwythnosau, gwyliau banc a diwrnodau cau Prifysgol.

    c. ystyr "cyfnod astudio" yw'r cylch academaidd ar gyfer eich cwrs astudio. Ar gyfer y rhan fwyaf o'n cyrsiau, hon fydd y flwyddyn academaidd safonol mis Medi i fis Mehefin ond mae yna ddyddiadau cychwyn cyrsiau ansafonol.

Dyfarniadau, Cyrsiau a Modiwlau

10. Mae'r Fframwaith Dyfarniadau yn dangos y cymwysterau yr ydym yn eu dyfarnu, eu lefel academaidd a'r credydau a ddyfarnwyd mewn perthynas â fframweithiau cymwysterau a systemau credydau Cymru a'r DU.

11. Rhaglen Astudio yw'r cwricwlwm cymeradwy a ddilynir gan fyfyriwr unigol; gall fod yn union yr un fath â chwrs, neu fod yn un o nifer o lwybrau safonol sydd ar gael o fewn cwrs mawr, neu gall fod yn unigryw i'r myfyriwr.

12. Mae cwrs yn rhaglen astudio penodedig, ac mae ei gwblhau'n llwyddiannus yn arwain at ddyfarnu gradd, diploma, tystysgrif neu gymhwyster arall penodedig.

13. Ar gyfer pob cwrs, neu fath o gwrs, mae set o Reoliadau Cwrs sy'n nodi'r rheolau neu'r amodau penodol ar gyfer cwblhau'r cwrs a dyfarnu'r radd gysylltiedig neu gymhwyster arall. Mae'r Rheoliadau Cwrs yn ategu'r Rheoliadau Cyffredinol hyn.

14. Caiff y cyrsiau eu trefnu'n flociau astudio llai, a elwir yn fodiwlau. Mae modiwl yn floc astudio gyda chanlyniadau dysgu cysylltiedig, wedi'i raddio ar lefel academaidd benodol. Caiff modiwlau eu disgrifio hefyd o ran credydau a lefelau.

15. Mae manylebau cyrsiau yn nodi'r cwrs a'r modiwlau y mae'n rhaid i chi eu hastudio, a'r deilliannau dysgu y mae'n rhaid i chi eu dangos, ar y lefel academaidd sy'n angenrheidiol i ennill y radd neu gymhwyster arall.

16. Neilltuir credydau a lefelau astudio yn unol â normau sector addysg uwch y DU, fel y'u mynegir gan yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn ei Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch a'r Fframwaith Cymwysterau a Chredyd ar gyfer Cymru.

17. Mae prentisiaethau gradd yn cyfuno gweithio gydag astudio'n rhan-amser mewn Prifysgol. Cyflogir prentisiaid drwy gydol y cwrs, a threuliant ran o'u hamser yn y Brifysgol a'r gweddill gyda'u cyflogwr. Gall hyn fod o ddydd i ddydd neu mewn blociau o amser, yn dibynnu ar gwrs a gofynion y cyflogwr.

Derbyniadau

18. Rhaid i chi wneud cais i gael eich derbyn i astudio cwrs neu gyrsiau penodol gan ddefnyddio'r ffurflen gais neu'r system a nodir ar gyfer y cwrs hwnnw. Byddwn ni yn ystyried eich cais yn ôl ei deilyngdod unigol.

19. Efallai y byddwn yn gofyn i chi ymgymryd â chyfweliadau, profion neu fathau eraill o asesiadau wrth ystyried ceisiadau; byddwn yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o'r cymwysterau a'r profiad yr ydych yn eu hawlio ar eich cais.

20. Efallai y byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddangos hyfedredd yn yr iaith Saesneg.

21. Ar gyfer rhai cyrsiau efallai y bydd angen i ni gael tystiolaeth o rinweddau eraill, fel cliriad meddygol neu gliriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

22. Os byddwn yn cynnig lle i chi, efallai y byddwn yn cynnig y lle hwnnw i chi yn amodol ar fodloni meini prawf penodol.

23. Efallai y byddwn yn cynnig lle i chi ar gwrs gwahanol i'r un y gwnaethoch gais iddo.

Derbyniad Grŵp PDC

24. Fel rheol, ni chaniateir derbyn aelodau staff Grŵp Prifysgol De Cymru (Prifysgol De Cymru, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Coleg Addysg Bellach Merthyr Tudful), na sefydliadau sy'n bartneriaid, i unrhyw fodiwl neu gwrs y maent yn ymwneud ag ef o ran asesu, neu a asesir gan unrhyw fwrdd y maent yn aelod ohono.

Cydnabod Dysgu Blaenorol

25. Lle gallwch ddangos bod eich profiad blaenorol neu astudiaeth ffurfiol yn bodloni rhai o'r deilliannau dysgu a nodir ar gyfer rhaglen astudio, efallai y byddwn ar y cyfrif hwn yn eich esgusodi o rai elfennau o'r cwrs hwnnw.

26. Gall esgusodi amrywio hyd at uchafswm o ddwy ran o dair o'r cwrs ar gyfer y dyfarniad perthnasol. Mae Rheoliadau cyrsiau unigol yn rhoi'r manylion perthnasol ar gyfer y cwrs hwnnw.

27. Ystyrir ceisiadau am gydnabyddiaeth o'r fath ar gyfer dysgu blaenorol fesul achos unigol.

28. Efallai y byddwn ni'n cytuno bod darpariaeth sefydliad arall – modiwlau unigol neu gyfuniadau o fodiwlau – yn mapio i gwrs y Brifysgol.

29. Os ydym yn cydnabod eich dysgu blaenorol, ac yn eich eithrio o rai elfennau o'r cwrs, cyfrifir eich dyfarniad ac unrhyw ddosbarthiad gan ddefnyddio marciau yn unig o'ch astudiaeth gyda ni.

30. Gellir trosglwyddo credyd ond nid dosbarthiad.

Ymrestru ac Ailgofrestru

31. Rhaid i chi gofrestru gyda ni cyn i chi ddechrau ar eich astudiaethau ac ail-gofrestru yn unol â gofynion eich cwrs neu fodiwl(au). Gall hyn gynnwys gwneud dewisiadau ynghylch modiwlau a chadarnhau cyfeiriad a manylion cyswllt.

    d. Ystyr *ymrestru* yw cadarnhau'r cytundeb rhyngom ni y byddwch yn fyfyriwr neu brentis ar gyfer dyfarniad penodol. Byddwch yn cofrestru ar ddechrau eich astudiaethau gyda ni.

    e. Ystyr *ailgofrestru* yw'r cadarnhad, gennych chi, eich bod yn bwriadu astudio'n weithredol mewn cyfnod astudio penodol, gyda phresenoldeb a chyflwyniad i'w asesu fel y nodwyd ar gyfer eich cwrs. Ni allwch gofrestru nes eich bod wedi cofrestru fel myfyriwr.

32. Cyn ymrestru neu ail-gofrestru, mae'n rhaid eich bod naill ai wedi talu eich ffioedd, neu wedi gwneud trefniadau i'n bodlonrwydd am dalu ffioedd, am hyd y cwrs.

33. Byddwch yn ddarostyngedig i Bolisi Rheolaeth Dyledion a Ffioedd y Brifysgol a dylech sicrhau eich bod yn gyfarwydd â'r ddogfen hon.

Cynllun Myfyrwyr Cysylltiol

34. Mae'r Cynllun Myfyriwr Cyswllt yn bodoli i annog a chaniatáu i fyfyrwyr astudio modiwlau ar sail dysgu byr neu annibynnol a hefyd i fyfyrwyr presennol (amser llawn a rhan-amser) ymgymryd â modiwlau yn ychwanegol at y rhai sy'n orfodol gan ofynion eu cyrsiau.

35. Gall Myfyrwyr Cyswllt gymryd hyd at 40 credyd ar lefel israddedig neu ôl-raddedig yn ystod eu hamser yn PDC.

36. Gellir wedyn gyfrifo credydau a enillir o dan y Cynllun Myfyriwr Cyswllt tuag at ddyfarniad Prifysgol De Cymru fel Cydnabod Dysgu Ardystiedig Blaenorol os yw'n briodol, yn gyfredol ac yn gyson â gofynion y cwrs a/neu'r corff proffesiynol. Byddai terfynau RPL safonol yn cael eu defnyddio a gellir trosglwyddo marciau.

37. Gall Myfyrwyr Cyswllt gofrestru ar fodiwlau sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol neu'n cyfrannu ato.

38. Os ydych chi eisoes yn astudio ar gwrs yn y Brifysgol, bydd angen i ni gytuno y gallwch chi astudio fel Myfyriwr Cyswllt hefyd.

39. Ni chaiff myfyrwyr cyswllt ddefnyddio'r Cynllun fel ffordd o ail-gymryd credydau a gyfeiriwyd o gwrs Prifysgol arall.

Prentisiaethau

40. Os ydych wedi cofrestru ar gwrs prentisiaeth, bydd angen cynnal cefnogaeth eich cyflogwr er mwyn parhau â'ch cofrestriad gyda'r Brifysgol. Os byddwch, yn ystod eich cwrs, yn peidio â chael eich cyflogi gan eich darparwr prentisiaeth, efallai y byddwn yn terfynu eich cofrestriad gyda'r Brifysgol ond byddwn yn eich helpu i ddod o hyd i gwrs amgen, lle bo hynny'n bosibl.

41. Mae manylebau cyrsiau ar gyfer prentisiaethau yn nodi strwythur y brentisiaeth a pha ofynion academaidd a gofynion gwaith sy'n cael eu rhoi i chi drwy'r cwrs.

42. Efallai y bydd angen i chi barhau i gael eich cofrestru o fewn y Brifysgol ar ôl i chi gwblhau eich gwaith academaidd, ond cyn i chi gwblhau'r asesiad diwedd cwrs.

Isafswm ac Uchafswm Cyfnodau Cofrestru

43. Rydym yn rhagnodi'r isafswm a'r uchafswm ar gyfer cyfnod cofrestru arferol. Mae'r cyfnod isafswm yn adlewyrchu faint o ddysgu sydd ei angen; Mae'r cyfnod uchafswm yn adlewyrchu'r angen i sicrhau bod eich gwybodaeth yn gyfredol wrth raddio.

44. Nodir isafswm ac uchafswm hyd yr astudiaeth mewn rheoliadau cwrs.

Dewis modiwlau

45. Os ydych am newid dewis eich modiwl rhaid i chi wneud hynny o fewn pedair wythnos i'r dyddiad cofrestru neu ailgofrestru cwrs arferol, oni bai y cytunir fel eithriad gennym ni.

Ffioedd Dysgu

46. Rhaid i chi sicrhau bod eich ffioedd dysgu yn cael eu talu mewn perthynas â'ch astudiaeth gyda ni.

47. Os oes ffioedd dysgu yn ddyledus i ni gennych chi, byddwn bob amser yn ceisio'ch galluogi i barhau i astudio tra gwneir trefniadau ar gyfer taliadau, yn unol â'r Polisi Ffioedd a Rheolaeth Dyledion.

48. Rydych yn dal yn atebol am ffioedd dysgu gyda ni hyd nes y byddwch wedi cwblhau'r broses tynnu'n ôl a rhoi'r gorau i astudio gyda ni yn ffurfiol.

Presenoldeb, Ymgysylltu ac Absenoldeb dros dro

49. Mae'n bosibl y caiff eich presenoldeb ac ymgysylltiad ei fonitro a'i gofnodi. Mewn rhai achosion, gallai presenoldeb mewn rhai neu bob un o elfennau cwrs fod yn orfodol. Os felly, byddwn yn dweud wrthych. Gall methu mynychu wedyn arwain at fethiant yn y modiwl neu'r cwrs.

50. Lle bo gennym bryderon nad ydych yn ymgysylltu â'ch astudiaeth, neu lle nad yw eich presenoldeb yn foddhaol, byddwn yn dilyn proses osodedig i ymchwilio a phenderfynu pa gamau i'w cymryd, os o gwbl. Bydd y broses yn ceisio gweithio gyda chi i'ch helpu i ailymgysylltu a mynd i'r Brifysgol eto.

51. Gall ein camau gweithredu o ganlyniad i bryderon am ymgysylltu neu bresenoldeb gynnwys atal eich ymrestriad gyda'r Brifysgol neu gallech gael eich tynnu'n ôl.

Absenoldeb dros dro

52. Mae ein Gweithdrefn Absenoldeb Dros Dro yn nodi'r hyn y dylech ei wneud os ydych yn mynd i fod, neu wedi bod, yn absennol o fod yn bresennol yn y brifysgol am fwy na thri diwrnod gwaith. Mae'r weithdrefn yn nodi'r dystiolaeth y bydd angen i chi ei dangos i gefnogi'ch cais, a sut y byddwn yn penderfynu a ddylid cymeradwyo'ch cais.

53. Isafswm y cyfnod y gallwch gyflwyno cais i gael caniatâd i fod yn absennol yw tri diwrnod gwaith a'r uchafswm yw 20 diwrnod gwaith ym mhob blwyddyn academaidd.

54. Os yw eich absenoldeb dros 20 diwrnod gwaith mewn blwyddyn academaidd rhaid i chi dorri ar draws eich astudiaethau neu dynnu'n ôl o'r cwrs.Withdrawal, transfer and interruption of studies

Tynnu'n ôl, trosglwyddo a thorri ar draws astudiaethau

Torri ar draws astudiaethau

55. Os hoffech gael toriad o'ch astudiaethau, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni yn unol â'n *Rheoliadau a'n Gweithdrefnau ar gyfer Amgylchiadau Esgusodol*[1]. Byddwn yn gwneud ein gorau i hwyluso eich toriad a'ch dychweliad i astudio, ond bydd angen i

[1] Dylid defnyddio'r ffurflen hon hefyd os ydych yn brentis.

ni ystyried strwythur eich cwrs a phryd yn y cyfnod astudio yr ydych yn dymuno toriad, er mwyn penderfynu ar y dull gorau o ymdrin â hyn.

Tynnu'n ôl o astudiaethau

56. Os ydych am dynnu'n ôl o'r brifysgol, dylech roi gwybod i ni yn unol â'n Gweithdrefn Tynnu Myfyrwyr yn ôl. Byddwn yn eich cefnogi a'ch cynghori drwy'r broses, os dymunwch, drwy'ch Ardal Gynghori ar y campws a all drafod gyda chi y goblygiadau academaidd o dynnu'n ôl.

57. Yn unol â pharagraff 48 uchod, byddwch yn parhau i fod yn atebol am ffioedd dysgu hyd nes y byddwch wedi cwblhau'r broses o dynnu'n ôl.

58. Os byddwch yn astudio mewn sefydliad partner ac yn dymuno tynnu'n ôl, dylech ddweud wrthynt. Y sefydliad partner sy'n gyfrifol am ein hysbysu.

59. Mae'n bosibl na fydd y dyddiad y byddwch yn tynnu'n ôl yn weithredol yn gynharach na'r dyddiad y byddwch yn rhoi gwybod i ni am eich bwriad i dynnu'n ôl.

60. Os ydym o'r farn y gallech fod wedi tynnu'n ôl heb rybudd, byddwn yn gwneud ein gorau i gysylltu â chi i weld a yw hyn yn wir ac i gytuno ar y dyddiad dod i rym ar gyfer tynnu'n ôl.

61. Os byddwch yn tynnu'n ôl, byddwn yn ystyried eich cyflawniadau drwy fyrddau asesu yn y ffordd arferol, fel y gallwn wneud unrhyw ddyfarniad ymadael y gallech fod wedi'i ennill a rhoi trawsgrifiad i chi.

62. Os ydych chi'n astudio ar fisa Haen 4, ac yn tynnu'n ôl o'r brifysgol, bydd ein nawdd haen 4 yn dod i ben. Yna, bydd y Llywodraeth yn gofyn i chi adael y DU, yn unol â thelerau eich fisa.

Trosglwyddo cwrs/sefydliad

63. Os ydych am drosglwyddo i gwrs arall o fewn y brifysgol neu i gwrs mewn sefydliad arall, dylech roi gwybod i ni gan ddefnyddio'r weithdrefn Brifysgol briodol.

64. Mae myfyrwyr sy'n astudio ar fisa Haen 4 yn ddarostyngedig i Reoliadau Trosglwyddo UKVI a dylent ofyn am gyngor gan y tîm Mewnfudo a Chyngor Myfyrwyr Rhyngwladol (ISSA) cyn cyflwyno eu cais i drosglwyddo cwrs.

65. Os ydych chi'n astudio mewn sefydliad partner ac yn dymuno trosglwyddo, dylech ddweud wrthyn nhw. Y sefydliad partner sy'n gyfrifol am ein hysbysu.

Cefnogi eich dysgu

66. Dywedwch wrthym a oes rhywbeth y gallem ei wneud i gefnogi'ch dysgu. Os nad ydych yn dweud wrthym, ni allwn eich helpu. Bydd eich hyfforddwr academaidd personol (PAC) (neu debyg) yn gallu eich helpu i gael gafael ar y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch.

67. Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ni fod gennych anabledd neu gyflwr sy'n cael ei gydnabod gan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) byddwn yn gwneud addasiadau

rhesymol i'ch galluogi i gwblhau eich cwrs yn llwyddiannus. Gall amgylchiadau eraill gael eu cydnabod hefyd drwy addasiadau yn y modd hwn.

68. Gall ein haddasiadau ymwneud ag asesiad neu elfen benodol o gwrs neu gallant fod yn berthnasol drwy gydol eich ymrestriad. Bydd hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol. Wrth gynllunio addasiadau rhesymol byddwn yn sicrhau y gallwn asesu'r deilliannau dysgu ar gyfer y modiwl(au) dan sylw, ac y byddwch yn cael eich asesu ar delerau cyfatebol â myfyrwyr eraill ar y modiwl(au).

69. Os bydd eich anabledd neu eich cyflwr yn newid yn ystod eich astudiaeth, a'ch bod yn rhoi gwybod i ni, byddwn yn adolygu'r addasiadau rydym wedi'u rhoi ar waith ac yn eu newid os yw'n briodol.

Asesu

70. I asesu eich cynnydd a'ch cyflawniad o ran deilliannau dysgu, mae'r cyrsiau'n cynnwys asesiadau - arholiadau, gwaith cwrs, cyflwyniadau ac yn y blaen. Mae manylebau'r modiwl yn nodi'r trefniadau penodol ar gyfer pob cwrs.

71. Mae Polisi Asesu ar gyfer Dysgu y Brifysgol yn rhoi mwy o fanylion am ddull asesu'r brifysgol.

72. Gall yr asesiad ar gyfer modiwl gynnwys nifer o gydrannau unigol. Oni bai bod manyleb y cwrs neu'r modiwl yn nodi'n benodol bod rhaid i chi basio un neu fwy o'r cydrannau hyn yn unigol, byddwn yn asesu eich perfformiad cyffredinol yn y modiwl gan eich perfformiad cyfanredol ar draws yr holl gydrannau o fewn y modiwl hwnnw.

73. Chi sy'n gyfrifol am sicrhau eich bod yn deall y rheoliadau asesu fel y'u cyhoeddwyd, am gyflwyno gwaith i'w asesu yn ôl y gofyn ac ar amser, ac am fynychu arholiadau a digwyddiadau asesu ffurfiol eraill.

Amgylchiadau Esgusodol

74. Os teimlwch fod gennych achos da dros gyflwyno'n hwyr, neu os byddwch yn methu â chyflwyno, mae ein Rheoliadau a Gweithdrefnau ar gyfer Amgylchiadau Esgusodol yn nodi'r hyn y dylech ei wneud a sut y byddwn yn ystyried eich achos.

75. Os ydych o'r farn y gallai eich amgylchiadau personol fod wedi effeithio ar eich perfformiad mewn unrhyw asesiadau a'ch bod am i ni roi ystyriaeth i'r rhain dylech roi gwybod i ni yn gyflym. Mae'r Rheoliadau a Gweithdrefnau ar gyfer Amgylchiadau Esgusodol yn nodi'r hyn y dylech ei wneud a sut y byddwn yn ystyried eich achos.

Cyflwyno gwaith cwrs yn hwyr

76. Os na fyddwch yn cyflwyno asesiad mewn pryd, heb amgylchiadau esgusodol, byddwn yn caniatáu pum diwrnod gwaith arall ichi gyflwyno'r gwaith, ond dyfernir marc uchaf o 40% i'r gwaith hwn. Os methwch â chyflwyno gwaith o fewn y cyfnod pum niwrnod hwn, heb amgylchiadau esgusodol, byddwch yn methu'r asesiad dan sylw ac yn derbyn 0%. Yr unig eithriad i hyn os oes gennych Gynllun Cymorth Unigol ar waith, ac os felly ni fydd y gwaith a gyflwynir o fewn y cyfnod hwn o bum niwrnod yn cael ei gapio.

77. Mae'r cyfnod rhoi pardwn o bum diwrnod a nodir ym mharagraff 76 uchod ond yn berthnasol i waith cwrs, gan gynnwys prosiectau. Nid yw'n berthnasol i

    a. arholiadau, profion mewn dosbarth, cyflwyniadau, arfarniadau ymarfer clinigol a pherfformiadau.

    b. gwaith wedi'i gyfeirio neu i waith a gyflwynwyd fel ymgais gyntaf yn ystod cyfnod ailsefyll (ac eithrio myfyrwyr sydd a Chynllun Cymorth Unigol, lle na fydd Gwaith a gyflwynir o fewn y cyfnod o bum niwrnod yn cael ei gapio).

    c. gwaith lle mae estyniad eisoes wedi'i roi ar gyfer amgylchiadau esgusodol.

    d. gwaith grŵp lle nad yw'n bosibl echdynnu neu ddiwygio ymdrech unigol ar gyfer ailgyflwyno heb effeithio ar y canlyniad neu'r cynnyrch cyffredinol ar gyfer eraill nad ydynt yn derbyn Cynllun Cymorth Unigol (e.e. Drama, Cerddoriaeth neu'r Cyfryngau/Gwneud Ffilmiau, nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol).

78. Byddwn yn eich cynghori, pan fydd y gwaith yn cael ei osod, a yw'r polisi cyflwyno'n hwyr pum diwrnod gwaith yn berthnasol i'r gwaith.

Addasrwydd i Astudio

79. Rydym yn cydnabod yr angen i ymateb yn briodol i sefyllfaoedd lle y gall arwyddion gweladwy o salwch, anawsterau iechyd meddwl, cyflwr seicolegol, personoliaeth neu emosiynol effeithio'n ddirfawr ar eich gallu i weithredu ac ar lesiant eraill o'ch cwmpas.

80. Pan fydd gennym bryderon nad ydych yn addas i astudio, byddwn yn dilyn gweithdrefn osodedig i ymchwilio ac i benderfynu pa gamau i'w cymryd, os o gwbl. Bydd y broses yn canolbwyntio ar gefnogi eich dysgu, eich iechyd a'ch llesiant. Gallwch weld y broses y byddwn yn ei dilyn yn ein *Rheoliadau a'n Gweithdrefn Addasrwydd i Astudio*[2].

81. Byddwn bob amser yn ceisio gwneud penderfyniadau o dan y weithdrefn hon drwy drafod gyda chi. Gall camau a gymerir gennym o dan y weithdrefn hon gynnwys eich ymrestriad gyda'r Brifysgol yn cael ei hatal neu eich tynnu'n ôl.

Uniondeb Academaidd

82. Rydych chi'n gyfrifol am gwblhau eich asesiadau'n onest ac yn unol â'r rheoliadau.

83. Os gwelwn eich bod wedi cyflawni unrhyw drosedd academaidd, er enghraifft twyllo neu lên-ladrad, mewn ymgais i ennill mantais annheg drosoch chi eich hun, byddwn yn eich cosbi o dan y Rheoliadau a Gweithdrefn Camymddwyn Academaidd.

[2] Nid yw asesiad yn yr achos hwn yn fath o arholiad nac yn fath o asesiad sydd â chyfyngiad amser.

Rheolau Arholiadau

84. Mae'r wybodaeth ganlynol yn darparu canllawiau i ymgeiswyr ar gyfer arholiadau Prifysgol De Cymru a'r rheolau y mae'n rhaid i ymgeisydd lynu wrthynt.

Goruchwylwyr Arholiadau

85. Bydd un neu fwy o oruchwylwyr yn bresennol ym mhob lleoliad arholi; mae'r rhain yn aelodau o staff y Brifysgol sy'n gyfrifol am sicrhau bod lleoliad arholi yn rhedeg yn ddidrafferth. Maent yn sicrhau drwy gydol yr arholiad bod pob ymgeisydd yn cydymffurfio â'r rheoliadau arholiadau a bod safonau academaidd y Brifysgol yn cael eu cynnal.

Presenoldeb yn y lleoliad arholi

86. Bydd ymgeiswyr sy'n methu â mynychu arholiad heb achos rhesymol yn arwain at ddyfarnu dim marciau ar gyfer yr arholiad hwnnw. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw bod yn ymwybodol o fanylion amserlen yr arholiadau. Os bydd ymgeisydd yn methu â bod yn bresennol o ganlyniad i salwch, dylai gysylltu â'i Ardal Gynghori ar y campws am arweiniad.

Mynd i mewn i leoliad yr arholiad

87. Rhaid i'r ymgeiswyr gyrraedd lleoliad yr arholiad o leiaf pymtheg munud cyn dechrau'r arholiad. Bydd y goruchwyliwr arholiadau yn hysbysu'r ymgeiswyr pan fyddant yn gallu mynd i mewn i'r lleoliad arholi.

88. Os yw'n anochel y bydd ymgeisydd yn hwyr, caniateir i ymgeiswyr fynd i mewn i'r lleoliad arholi hyd at awr ar ôl i'r arholiad ddechrau. Os bydd ymgeisydd yn cyrraedd mwy nag awr ar ôl yr amser dechrau, ni chaniateir iddo fynd i mewn i'r lleoliad arholi. Dylai ymgeiswyr sy'n mynychu ar yr adeg hon adrodd yn uniongyrchol i'w Hardal Gynghori ar y campws.

Eitemau a deunyddiau a ganiateir

89. Bydd y Gyfeireb ar flaen y papur arholiad yn nodi'r union eitemau a ganiateir i'w defnyddio yn ystod yr arholiad.

90. Dim ond yr eitemau a'r deunyddiau hynny sy'n cael eu caniatáu'n benodol ar gyfer yr arholiad y maen nhw'n ei sefyll y gall ymgeisydd eu cymryd i'w desg. Cyfrifoldeb y darlithydd modiwlau yw rhoi arweiniad i ymgeiswyr am eitemau a deunyddiau y caniateir eu cymryd i mewn i'r arholiad, er enghraifft cyfrifianellau, neu lyfrau testun penodol. Os caniateir cyfrifianellau, rhaid i'r rhain fod yn rhai tawel a pheidio â chynnwys cyfleuster cronfa ddata; cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw eu bod yn gweithredu'n gywir. Os caniateir llyfrau wedi'u hargraffu, rhaid i'r rhain fod yn gopïau glân heb unrhyw anodiadau oni nodir yn wahanol.

91. Os caniateir deunyddiau ychwanegol (gwerslyfrau, cyfrifianellau ac yn y blaen), dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y bydd y rhain yn cael eu harchwilio gan y Goruchwyliwr yn ystod yr arholiad.

92. Ni chaniateir geiriaduron oni nodir ar y papur arholiad.

93. Ni ddylid mynd ag unrhyw fag, cot, ffôn symudol, nodiadau adolygu nac unrhyw ddyfeisiau electronig eraill (gan gynnwys ffonau clyfar) i'r ddesg arholiad; rhaid iddynt gael eu hadneuo yn y lle dynodedig ar gyfer eiddo a gynghorir gan y Goruchwyliwr. Dylai fod gan ymgeiswyr offer ysgrifennu hanfodol yn unig ac ni chaniateir eu cerdyn adnabod myfyriwr/prentis ar y ddesg, cynwysyddion offerynnau a chesys pensiliau wrth y ddesg arholi.

94. Caniateir i ymgeiswyr ddod â diodydd mewn poteli tryloyw i'r desgiau arholiad yn unig, ni chaniateir bwydydd.

95. Os bydd ymgeisydd yn dewis gwisgo oriawr yn y lleoliad arholi, rhaid gosod y rhain ar y ddesg wrth ochr y cerdyn adnabod myfyriwr/prentis. Bydd cloc yn cael ei arddangos ar gyfer pob lleoliad arholi.

Papur cwestiynau arholiad

96. Ar ôl i'r Goruchwyliwr eu cynghori i wneud hynny, dylai ymgeiswyr edrych ar ddalen flaen y papur cwestiynau arholiad er mwyn sicrhau mai dyma'r papur y maent yn disgwyl ei sefyll. Bydd y ddalen flaen yn darparu:

- gwybodaeth am y modiwl, cod a theitl
- hyd yr arholiad
- manylion unrhyw ddeunydd ychwanegol a ganiateir
- canllawiau ar faint o gwestiynau sydd i'w hateb (os yn berthnasol)
- cyfarwyddyd ynghylch a ellir dileu'r papur arholiad o'r lleoliad.

97. Os oes gan ymgeiswyr unrhyw ymholiadau am y wybodaeth ar flaen y papur cwestiynau dylent godi eu llaw a thynnu sylw'r Goruchwyliwr.

Llyfryn ateb arholiad

98. Clawr blaen y llyfryn ateb yw'r cadarnhad presenoldeb ac addasrwydd i sefyll arholiad. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau'r holl wybodaeth ar y ffurflen hon a'i datgysylltu i'r Goruchwyliwr ei chasglu.

99. Hefyd, mae angen i'r manylion ar dudalen 2 o'r llyfryn ateb gael eu cwblhau'n llawn gan yr ymgeisydd. Mae pob arholiad yn cael ei farcio'n ddienw, rhaid i ymgeiswyr roi eu henw llawn yng nghornel uchaf ochr dde'r llyfryn ateb, a selio'r fflap i guddio'r enw a sicrhau anhysbysrwydd. Bydd y sêl yn cael ei thorri dim ond os oes amheuaeth ynghylch perchnogaeth/anghyfreithioldeb y llyfryn ateb a bydd yn cael ei wneud ym mhresenoldeb Deon y Gyfadran neu'r enwebai.

100. Rhaid ysgrifennu pob ateb yn glir mewn inc du neu las.

101. Mae gan arholwyr yr hawl i anwybyddu sgript sy'n cael ei ystyried yn sgript ddarllenadwy neu sydd wedi'i deipio gyda chost hyn yn cael ei godi ar yr ymgeisydd.

102. Dylid defnyddio'r ddwy ochr i'r papur, ac ni ddylid rhwygo unrhyw ran o'r llyfryn ateb (ac eithrio'r clawr blaen). Dylai unrhyw ymgeisydd sydd angen papur i barhau i ysgrifennu ofyn am hyn gan Oruchwylwyr.

103. Mae'n rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr holl waith papur a gyflwynir yn cael ei farcio'n briodol gyda Rhif Adnabod Myfyriwr/prentis.

104. Dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn dechrau cwestiwn newydd ar dudalen newydd.

105. Rhaid nodi unrhyw weithiadau bras yn y llyfrau ateb a ddarperir a'u croesi i ddangos yn glir nad yw wedi'i fwriadu fel ateb a gyflwynir.

106. Rhaid i bob llyfryn ateb ac unrhyw bapur parhad swyddogol gael ei roi i mewn, yr hyn sydd wedi'i ddefnyddio a heb ei ddefnyddio. Ni ddylid dileu gwaith papur o'r fath o'r lleoliad arholi o dan unrhyw amgylchiadau.

Hunaniaeth ymgeisydd yn y lleoliad arholi

107. Rhaid i ymgeiswyr ddod â'u Cerdyn Adnabod Myfyriwr/prentis i'r lleoliad arholi. Dylid gosod y cerdyn ar gornel dde uchaf y ddesg, wyneb i fyny, lle mae'r goruchwylwyr yn gallu gweld y ffotograff yn glir.

108. Os bydd ymgeisydd yn mynychu heb ei gerdyn adnabod myfyriwr/prentis, dylai dynnu sylw'r Goruchwyliwr at hyn, a pheidio â selio'r fflap nes y caiff ei gynghori i wneud hynny. Mewn sefyllfa o'r fath, ni fydd yr ymgeisydd yn gallu gadael y lleoliad arholi tan ddiwedd yr arholiad, a bydd yn cael ei hebrwng i Swyddfa'r Tîm Asesu i gadarnhau pwy ydyw.

Ymddygiad ymgeisydd yn y lleoliad arholi

109. Yn ystod yr arholiad rhaid i ymgeiswyr weithredu'n unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a ddarperir gan y Goruchwyliwr. Rhaid i ymgeiswyr beidio â:

- Cyfathrebu ag unrhyw un ac eithrio'r Goruchwyliwr yn ystod yr arholiad.
- Agor papur cwestiwn yr arholiad tan i'r Goruchwyliwr ddweud wrthynt am wneud hynny.
- Rhannu unrhyw wybodaeth gydag unrhyw ymgeisydd arall yn ystod yr arholiad.
- Defnyddio nodiadau oni fynegir bod hyn yn bosibl.
- Parhau i ysgrifennu pan fydd y Goruchwyliwr yn dweud wrth yr ymgeiswyr i beidio â gwneud.
- Ymddwyn mewn ffordd sy'n tynnu sylw ymgeiswyr eraill.
- Anwybyddu cais oddi wrth Oruchwyliwr i beidio ag ymddwyn yn aflonyddol.

110. Os methwch â dilyn y canllawiau hyn byddwch yn torri'r Rheoliadau Arholiadau a bydd y Goruchwyliwr yn gofyn i chi adael y lleoliad. Caiff y wybodaeth hon ei hadrodd i'r Panel Camymddwyn Academaidd.

Absenoldeb dan oruchwyliaeth o'r lleoliad arholi

111. Os oes angen sylw ar ymgeisydd mae'n rhaid codi llaw ac aros nes i'r Goruchwyliwr ddod atynt. Gall ymgeisydd adael y lleoliad arholi yn unig yn ystod arholiad os yw'n cael ei hebrwng gan oruchwyliwr; mae hyn yn cynnwys ymweliadau â'r toiled.

Gadael lleoliad yr arholiad

112. Ni all ymgeiswyr adael y lleoliad arholi yn ystod yr awr gyntaf neu'r pymtheg munud olaf o'r arholiad. Nid oes unrhyw ail-fynediad i'r lleoliad arholi, gall ymgeiswyr adael a chael ail-fynediad ar yr amod y cytunir arnynt a'u bod yn cael eu hebrwng gan oruchwyliwr.

113. Os bydd ymgeisydd yn gadael arholiad oherwydd salwch, dylai gysylltu â'i Ardal Gynghori cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar gyfer y canllawiau priodol.

114. Os bydd ymgeisydd yn dymuno gadael yr arholiad yn gynnar, rhaid iddo godi ei law i rybuddio'r Goruchwyliwr a pharhau i eistedd hyd nes y bydd y Goruchwyliwr wedi casglu'r llyfryn ateb. Dylai ymgeiswyr adael mor dawel â phosibl, yn enwedig lle mae ymgeiswyr eraill yn dal i weithio.

115. Ar ddiwedd yr arholiad gofynnir i ymgeiswyr barhau i eistedd a bod yn dawel am gyhoeddiadau pellach a hyd nes y cesglir yr holl lyfrynnau ateb. Rhaid i chi beidio â thynnu unrhyw lyfrynnau ateb o'r lleoliad arholi.

Camymddwyn academaidd

116. Bydd gan ymgeiswyr yr amheuir eu bod yn camymddwyn yn academaidd eu llyfrynnau ateb wedi'u hanodi'n briodol gan y Goruchwyliwr a thynnir unrhyw ddeunyddiau o'u meddiant (os yw'n briodol). Bydd y Goruchwyliwr yn rhoi manylion y camymddwyn academaidd a amheuir, a ystyrir wedyn o dan y Rheoliadau a Gweithdrefnau Camymddwyn Academaidd.

Larymau tân a gwacáu mewn argyfwng

117. Os yw'r larwm tân yn seinio yn ystod arholiad, dilynwch gyfarwyddiadau'r goruchwylwyr. Bydd ymgeiswyr dan amodau arholiad, felly rhaid peidio â chyfathrebu ag ymgeiswyr eraill, defnyddio ffonau symudol nac unrhyw ddyfeisiau electronig eraill. Mae'n debygol y bydd yr arholiad yn parhau ar ôl i'r ymgeiswyr ddychwelyd i'r adeilad.

Sefyll arholiad mewn lleoliad gwahanol i'r man astudio

118. Fel arfer, byddwch yn sefyll eich arholiad yn y sefydliad lle rydych wedi astudio.

119. Efallai y byddwn yn caniatáu i chi, mewn sefyllfa eithriadol, sefyll arholiad mewn canolfan arholi amgen, ar yr amod ein bod yn hyderus bod amodau priodol yn bodoli yn y ganolfan honno.

120. Nid oes gennych hawl i sefyll arholiad mewn canolfan arholi amgen, a byddwn yn ystyried pob achos yn unigol.

121. Os ydych yn dymuno sefyll eich arholiad mewn canolfan arholi amgen, rhaid i chi wneud cais i ni a rhaid i chi ddarparu rhesymau gyda thystiolaeth dderbyniol ar gyfer eich cais.

122. Yr unig leoliadau arholiad eraill y byddwn yn eu hystyried yw:

a. sefydliad partner cydweithredol o'r Brifysgol sy'n bodoli eisoes lle mae amodau priodol ar gyfer arholiadau wedi'u sefydlu; neu

b. Swyddfa'r Cyngor Prydeinig a gymeradwywyd fel canolfan arholi gan y Gofrestrfa Academaidd.

123. Mae'n rhaid i'r gofrestrfa academaidd, mewn ymgynghoriad â chyfadrannau lle bo'n briodol, gadarnhau bod fformat yr arholiad yn addas i'w asesu yn y ganolfan arholi cymeradwy.

Asesu drwy gyfrwng y Gymraeg

124. Os hoffech gael eich asesu drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn modiwl sy'n cael ei addysgu a'i asesu yn Saesneg, byddwn yn eich galluogi i wneud hynny, ar yr amod y gellir sefydlu'r trefniadau a nodir yn ein Gweithdrefn ar gyfer Asesu drwy Gyfrwng y Gymraeg.

125. Rydym yn argymell eich bod yn dweud wrthym ar ddechrau modiwl, a dim hwyrach na thair wythnos cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno, os ydych yn dymuno gwneud hyn, er mwyn gwneud y trefniadau angenrheidiol.

126. Efallai na fyddwn yn gallu'ch asesu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer rhai mathau o asesiadau – er enghraifft asesiadau grŵp, cyflwyniadau, perfformiadau neu arholiadau ymarferol.

Marcio a Graddio

127. Methu ffiniol yw marc o rhwng 30% a 39.9%. Os oes gennych y lefel hon o gyflawniad, bydd gennych radd F1.

128. Diffinnir gwendid/methiant sylweddol fel marc o lai na 30%. Os oes gennych y lefel hon o gyflawniad byddwch yn cael gradd F2.

129. Os ydych chi'n bodloni deilliannau dysgu'r modiwl cyffredinol heb unrhyw wendidau/methiannau sylweddol, byddwn yn dyfarnu gradd pasio i chi.

130. Byddwn yn nodi yn y fanyleb modiwl unrhyw ganlyniad dysgu penodol y mae'n rhaid ei basio er mwyn i'r modiwl gael ei basio.

131. Caiff pob modiwl ei raddio yn unol â'r raddfa ganrannol.

132. Byddwn ond yn dyfarnu clod i chi ar ôl cwblhau modiwl llawn yn llwyddiannus. Ni fyddwn yn dyfarnu clod i chi am gwblhau rhan o fodiwl yn unig.

Adfer yn Ystod y Flwyddyn (IYR)

133. Mae IYR ar gael i holl fyfyrwyr cyrsiau a addysgir o Lefel 3-7 cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf gofynnol (e.e. yn unol â'r rhestr o fathau cymeradwy o asesiadau). Nid yw hwn ar gael i'r rhai nad ydynt wedi cyflwyno ond ar gyfer pob marc methu 1-39. Gall myfyriwr gael uchafswm o ddau gyfle ar bob lefel ac unwaith ar yr un darn o waith. Dewis y myfyrwyr yw a ydynt yn cymryd cyfle IYR.

Cynnydd, Adfer Methiant a Digolledu

Cynnydd

134. Mae’r rheoliadau cwrs yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud i symud ymlaen o un lefel o'ch cwrs i'r nesaf.

135. Gall gofynion cynnydd gynnwys elfennau nad ydynt yn rhai academaidd, megis cymwyseddau proffesiynol. Gallai'r rhain gael eu barnu gan sefydliad allanol, fel corff rheoleiddio neu gyflogwr.

Adfer methiant – cyffredinol

136. Oni bai ein bod wedi cytuno bod gennych amgylchiadau arbennig, ac oni bai bod Rheoliadau'r Cwrs yn nodi fel arall, mae gennych uchafswm o bedair ymgais ar fodiwl:

    a. eich ymgais gyntaf,

    b. ailsefyll eich ymgais gyntaf, os caniateir

    c. ailadrodd y modiwl

    ch. ailsefyll eich modiwl ailadrodd, os caniateir hynny.

Adfer methiant - ailsefyll

137. Diffinnir ailsefyll fel cyfle i basio modiwl heb fewnbwn addysgu pellach.

138. Nid oes gennych hawl awtomatig i ailsefyll modiwl wedi methu: Byddwn yn llunio barn am eich cynnydd academaidd cyffredinol, yn unol â pharagraffau 142 a 144 isod.

139. Os ydym yn ei gwneud yn ofynnol i chi ailsefyll modiwl, bydd rhaid i chi ail-gymryd elfennau'r asesiad y gwnaethoch chi fethu yn unig. Os nad ydych yn ailsefyll elfen sydd wedi methu, byddwn yn rhoi marc o 0% i chi am yr elfen honno.

140. Rhaid i chi gymryd yr ailsefyll cyn gynted â phosibl. Cynhelir y mwyafrif o ailsefyll yn ystod y cyfnod ailsefyll, ac eithrio'r rhai a ddewiswyd fel rhai adfer yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, lle mae bwrdd asesu pwnc yn penderfynu nad yw hyn yn bosibl, er enghraifft oherwydd bod yr asesiad yn gofyn am gyfleusterau stiwdio neu'n cynnwys gwaith grŵp, fe'i cynhelir yn y sesiwn academaidd ganlynol. Dylai union hyd y cyfnod ailsefyll fod yn ôl disgresiwn y Bwrdd.

141. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ailsefyll modiwl yn unig lle’r ydych wedi ei fethu. Ni fyddwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ailsefyll unrhyw fodiwlau a basiwyd. Ni allwch ailsefyll modiwl rydych wedi'i basio, er mwyn gwella'ch gradd.

142. Bydd y rheoliadau ar gyfer pasio modiwl ailsefyll yr un fath ag ar yr ymgais gyntaf. Ni fyddwn yn capio marciau ar gyfer elfennau unigol, ond bydd y marc modiwl cyffredinol ar gyfer unrhyw fodiwl ailsefyll yn cael ei gapio ar y marc pasio ar gyfer y modiwl.

143. Os nad ydych wedi cyflwyno unrhyw asesiad ar gyfer modiwl, ac felly'n derbyn marc modiwl o 0%, ni chaniateir i chi ailsefyll oni bai eich bod wedi cymryd rhan mewn bŵtcamp asesu. Gellir gwneud eithriad hefyd lle mai dim ond un elfen asesu sydd gan y modiwl, ac yn yr achos hwn gallwn arfer disgresiwn i ganiatáu i chi ailsefyll, yn amodol ar baragraffau 142 a 144.

144. Os ydych chi wedi pasio o leiaf 50% o'r credydau rydych chi wedi'u cymryd yn y flwyddyn academaidd, byddwn yn caniatáu i chi ailsefyll y modiwlau sydd wedi methu, yn amodol ar baragraff 141 uchod.

145. Os ydych wedi methu mwy na 50% o'r credydau a gymerwyd mewn unrhyw un flwyddyn academaidd bydd gofyn i chi ailadrodd y cyfnod astudio. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn fel eithriad yn caniatáu i chi ailsefyll os ydych wedi cymryd rhan mewn bŵtcamps asesu, neu lle byddai hyn yn caniatáu gwell rheolaeth ar eich rhaglen astudio – er enghraifft os nad oes modiwl ar gael yn y flwyddyn ganlynol.

146. Os ydych chi'n astudio un modiwl yn unig mewn blwyddyn academaidd, mae gennych yr hawl i ailsefyll yn y modiwl hwnnw yn ddarostyngedig i baragraff 141 uchod.

147. Pan fo amgylchiadau esgusodol cymeradwy, mae gan fyfyrwyr yr hawl i gael eu hasesu fel pe bai am y tro cyntaf, hyd yn oed os ydynt wedi pasio yn yr elfen asesu a/neu'r modiwl. Pan fydd myfyriwr yn dewis arfer yr hawl hon, os yw'r marc newydd yn waeth nag un asesiad a basiwyd o'r blaen, bydd y marc blaenorol yn sefyll oni bai bod y myfyriwr wedi cwblhau modiwl amnewid, neu os yw'r Bwrdd o'r farn bod y Deilliannau Dysgu wedi newid i'r fath raddau fel nad yw'r asesiad blaenorol yn ddilys mwyach.

Adfer methiant – ailadrodd modiwlau

148. Nid oes gennych yr hawl awtomatig i ailadrodd unrhyw fodiwl a fethwyd. Fodd bynnag, lle byddwch yn methu neu'n methu â cheisio ailsefyll, gall y Bwrdd Asesu ganiatáu i chi ailadrodd y modiwl neu fodiwlau sydd wedi methu.

149. Yn ystod ailadrodd y modiwl, y rheoliadau sy'n berthnasol fydd y rhai cyfredol, nid y rhai sydd mewn grym pan geisioch y modiwl am y tro cyntaf.

150. Ac eithrio'r marc modiwl cyffredinol sy'n cael ei gapio ar y marc pasio, caiff modiwlau ailadrodd eu trin fel pe baech yn eu cymryd am y tro cyntaf. Felly:

    a. Os ydych yn ailadrodd modiwl rydym yn disgwyl i chi gymryd pob elfen o asesiadau ar gyfer y modiwl hwnnw: Ni chewch gario elfennau o'r asesiad a basiwyd gennych ar yr ymgais gyntaf;

    b. Os byddwch chi'n methu modiwl ailadroddus, rydych chi'n ddarostyngedig i'r rheoliadau ailsefyll, gan gynnwys yr hawl i ailsefyll.

151. Os nad yw'r modiwl ar gael yn y flwyddyn y byddwch yn ei ailadrodd, efallai y byddwn yn cynnig modiwl arall ar yr amod bod deilliannau dysgu'r cwrs yn dal i gael eu cyflawni. Gelwir hyn yn amnewid. Nid oes gennych hawl i ailadrodd yr un modiwl.

152. Gallwch hefyd wneud cais i amnewid modiwl, ar yr amod nad yw'n fodiwl **y mae'n rhaid ei basio** er mwyn bodloni deilliannau dysgu'r cwrs ac mae darparu'r dewis modiwlau newydd yn cyd-fynd â chanlyniadau dysgu'r cwrs.

153. Gallwch ailadrodd modiwl unwaith yn unig. Mae amnewid yn cael ei gyfrif fel ail ymgais.

154. Os methwch â symud ymlaen i lefel neu gam nesaf y cwrs, ni fyddwn yn gofyn i chi ailadrodd modiwl yr ydych wedi ennill credyd ar ei gyfer.

155. Ni allwch ailadrodd modiwl yr ydych eisoes wedi ennill credyd ar ei gyfer, er mwyn gwella gradd.

156. O ran yr hyn a ystyrir yn angenrheidiol i ofyn am welliannau mawr fel diwygiad pwnc ac y mae mân ddiwygiadau iddo, yr awgrym yw bod traethodau estynedig yn dilyn y rheol ailadrodd, os rhoddwyd cynnig arno ond nid ar farc pasio, caniatewch fân welliannau ar y pwnc gwreiddiol. I'r rhai sy'n ailadrodd nad ydynt yn ailsefyll mae'n ofynnol bod ganddynt bwnc newydd. Byddai'r ddau opsiwn yn gofyn am gefnogaeth goruchwylydd, a lle bo modd, y goruchwylydd gwreiddiol ar gyfer parhad.

157. Os byddwch yn methu â chael canolrif o 20 neu uwch, ni fyddwch yn gallu ailadrodd modiwlau a fethwyd a chewch eich terfynu o'ch cwrs. Gellir gwneud eithriad yn ôl disgresiwn y Bwrdd Asesu Dilyniant a Dyfarnu.

Digolledu mewn achosion o fethu rhannol

158. Efallai y byddwn, yn ôl ein disgresiwn, yn penderfynu bod eich perfformiad cyffredinol yn gwneud iawn am unrhyw fethu rhannol, yn unol â'r rheoliadau digolledu a nodir isod. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud gan y Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant perthnasol.

159. Os byddwch chi'n methu modiwl craidd (hynny yw, modiwl a gafodd ei gymeradwyo fel dilysiad fel un hanfodol i'w basio er mwyn ennill y dyfarniad) ni fyddwn yn gwneud iawn am eich methiant yn y modiwl hwnnw. Rhaid i chi adfer unrhyw fethiant mewn modiwl craidd ar y cyfle cyntaf.

160. Ni chaniateir digolledu pan fo modiwl wedi bod yn destun camymddwyn academaidd a chosb o dan 6.1. b) i ch) y Tariff Cosbau a gymhwysir fel yr amlinellir yn y Rheoliadau a'r Gweithdrefnau Camymddwyn Academaidd, ac eithrio, digolledu a ganiateir ar yr adeg yr ystyrir yr asesiad(au) a ailgyflwynwyd, o ganlyniad i gosb camymddwyn academaidd.

161. Fel arfer, cyfyngir digolledu fel a ganlyn:

    a. 20 credyd ar gyfer pob lefel o gwrs israddedig (HNC/HND/gradd neu radd anrhydedd);

    b. 20 credyd yn ystod cwrs ôl-radd (Nid oes digolledia am draethawd estynedig gradd Meistr).

162. Pan fyddwn yn penderfynu rhoi digolledi wedi i chi fethu mewn modiwl neu fodiwlau, byddwn yn cofnodi gradd eich modiwl fel PC (PASIO drwy Ddigolledu) ond ni newidir marc eich modiwl.

163. Pan fyddwn yn ystyried digolledu wedi i chi fethu mewn modiwl neu fodiwlau, byddwn yn cynnig y dewis i chi dderbyn digolledi neu arfer unrhyw hawl i ailsefyll a allai fod gennych. Byddwn yn esbonio canlyniadau'r naill ddewis neu'r llall. Y rheswm am hyn yw y gallai modiwl â digolledu, mewn rhai amgylchiadau, gael effaith andwyol ar ganlyniad eich dyfarniad cyffredinol.

Rheolau digolledu ar gyfer myfyrwyr israddedig amser llawn

164. I gydadfer 20 o gredydau F1, fel arfer rhaid i chi fod wedi pasio'r 100 credyd sy'n weddill ar y lefel honno (gweler paragraff 159 uchod).

165. Ar lefelau 3 a 4 yn unig, i chi gael digolledi am 20 o gredydau F2 sydd wedi'u graddio 20% neu fwy (yn yr achos hwn mae gwendid sylweddol islaw 20% os yw'n berthnasol), rhaid eich bod wedi pasio'r 100 credyd sy'n weddill ar y lefel honno ac wedi cyflawni marc cyfartalog o 50% neu fwy yn y 100 credyd hyn (e.e. paragraff 158 uchod).

Rheolau digolledu ar gyfer myfyrwyr israddedig rhan-amser

166. I gydadfer 20 o gredydau F1, mae'n rhaid eich bod wedi pasio 40 o gredydau o fewn lefel a; ni chaniateir rhagor o ddigolledu o fewn y lefel honno (gweler paragraff 159 uchod).

167. Ar lefelau 3 a 4 yn unig, i gydadfer 20 o gredydau F2 sydd wedi'u graddio 20% neu fwy (yn yr achos hwn mae gwendid sylweddol islaw 20% os yw'n berthnasol), mae'n rhaid eich bod wedi pasio 40 o gredydau ar y lefel honno ac wedi cyflawni marc cyfartalog o 50% neu fwy yn y 40 o gredydau hyn. Ni chaniateir digolledu pellach o fewn y lefel honno (gweler paragraff 159 uchod).

Rheolau digolledu ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig amser llawn

168. Os ydych chi'n astudio ar gyfer gradd Meistr neu PgDip, i gydadfer 20 o gredydau F1, rhaid i chi fel arfer fod wedi pasio 100 o gredydau ar y cwrs ôl-raddedig a rhaid i o leiaf 40 o'r 100 credyd hyn fod yn 50% neu'n uwch (gweler paragraff 15 uchod).

169. Os ydych yn astudio ar gyfer PGCert, i ddigolledu 20 o gredydau F1, mae'n rhaid i fyfyriwr amser llawn fel arfer fod wedi pasio 40 o gredydau ar y cwrs ôl-radd ar 50% neu uwch (gweler paragraff 159 uchod).

Rheolau digolledu ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser

170. I gydadfer 20 o gredydau F1, mae'n rhaid i chi fel arfer fod wedi pasio o leiaf 40 o gredydau ar y cwrs ôl-radd ar 50% neu'n uwch; Ni chaniateir rhagor o ddigolledu o fewn y lefel honno (gweler paragraff 159 uchod).

171. Yn achos cyrsiau ôl-raddedig sy'n cynnwys rhai credydau lefel 6, mae 'lefel' ym mharagraff 168 uchod yn cynnwys y credydau lefel 6 a 7 sy'n ffurfio'r cwrs.

Dyfarnu cymwysterau

Rhoi dyfarniadau

172. Dim ond y dyfarniadau hynny a gymeradwyir gan y Bwrdd Academaidd ac a enwir yn ei *Fframwaith ar gyfer Dyfarniadau Academaidd* y byddwn yn eu rhoi.

173. Caiff pob cwrs cymeradwy ei ddisgrifio drwy fframwaith credydau'r brifysgol o ran graddau a lefel y credydau sydd eu hangen i'w gwblhau.

174. Byddwn yn dyfarnu'r cymhwyster yr ydych wedi bod yn astudio ar ei gyfer os:

    a. eich bod wedi cronni'r nifer gofynnol o gredydau ar y lefelau penodedig; ac

    b. eich bod wedi ymrestru'n briodol ar y cwrs, gan gynnwys ar ôl talu'r holl ffioedd dysgu ar gyfer y cwrs; ac

    c. rydych wedi dilyn y rhaglen astudio osodedig sy'n cynnwys y cwrs hwnnw; ac

    ch. os ydych wedi cael eich asesu yn unol â Rheoliadau'r Brifysgol.

175. Wrth gytuno ar y dyfarniad priodol i chi, byddwn yn cymryd i ystyriaeth y rheoliadau cwblhau a dosbarthiad perthnasol, dosbarthiad y graddau, eich datblygiad academaidd yn ystod y cwrs, ac unrhyw argymhellion a wneir gan y paneli amgylchiadau esgusodol.

176. Os caiff eich dyfarniad ei ddosbarthu, byddwn yn gwneud hynny ar ddiwedd y cyfnod pan fyddwch yn ennill y credyd gofynnol sydd ei angen ar gyfer y dyfarniad, fel y nodir yn y *Fframwaith Dyfarniadau*.

177. Ar gyfer prentisiaethau, efallai y bydd ein dyfarniad gradd yn rhagflaenu cwblhau'r brentisiaeth, gan gynnwys yr asesiad diwedd pwynt.

Dyfarniadau Aegrotat ac ar ôl Marwolaeth

178. Os na allwch gwblhau'r asesiad terfynol oherwydd salwch, gallwn, os cytunwch, eich ystyried ar gyfer dyfarnu gradd aegrotat (gradd diddosbarth).

179. Gall Bwrdd Asesu argymell, drwy'r Cofrestrydd Academaidd, bod dyfarniad ar ôl marwolaeth yn cael ei wneud pan fo myfyriwr sy'n dilyn dyfarniad a addysgir wedi marw a lle mae'r Bwrdd Asesu Dilyniant a Dyfarnu wedi'i fodloni ar gydbwysedd tebygolrwydd yn dilyn adolygiad o'r cofnod academaidd a datganiadau gan dîm y cwrs bod perfformiad y myfyriwr ar y cwrs yn dangos y byddent wedi llwyddo. Os nad yw'r Bwrdd Asesu'n fodlon ar y pryd, dylai'r dyfarniad a roddir fod y dyfarniad ymadael nesaf y byddai'r myfyriwr wedi bod yn gymwys i'w gael.

Cwynion ac Apeliadau

180. Os ydych yn dymuno cwyno am unrhyw agwedd ar ein darpariaeth, mae ein Rheoliadau Gwaith Achos Myfyrwyr yn dweud wrthych sut i wneud hyn.

181. Os ydych yn dymuno apelio yn erbyn dyfarniad a wnaed am eich cynnydd academaidd, mae ein *Rheoliadau Gwaith Achos Myfyrwyr* yn dweud wrthych sut i wneud hyn.

Darpariaeth Gydweithredol

182. Efallai y byddwn yn cynnig graddau, prentisiaethau gradd, diplomâu a thystysgrifau mewn partneriaeth ag un neu fwy o sefydliadau eraill.

183. Bydd y cytundeb cydweithredol ar gyfer unrhyw drefniant o'r fath yn nodi ein cyfrifoldebau ni a rhai'r partner/partneriaid eraill. Pan fydd gennym gyfrifoldeb o dan unrhyw gytundeb o'r fath ar gyfer y safonau academaidd neu ansawdd y dysgu a'r addysgu, bydd y Rheoliadau hyn, neu amrywiadau y cytunwyd arnynt sy'n cydymffurfio ag egwyddorion y Rheoliadau hyn, yn gymwys.

A2: Rheoliadau Cwrs Myfyrwyr Israddedig

Cyflwyniad

1. Yn y rheoliadau hyn, fel y mae cyd-destun yn mynnu, mae "chi" ac "eich" yn golygu'r myfyriwr, prentis neu'r ymgeisydd; mae "ni", "ein" a "ni'n hunain" yn golygu Prifysgol De Cymru neu Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) fel sy'n briodol.

2. Dyma'r Rheoliadau Cwrs ar gyfer pob gradd israddedig (gan gynnwys graddau Meistr Integredig) Prifysgol De Cymru:

    a. Tystysgrifau a Diplomâu Addysg Uwch

    b. Graddau Sylfaen

    c. Dyfarniadau Edexcel – HND a HNC

    ch. Graddau Baglor (gan gynnwys prentisiaethau gradd)

    d. Tystysgrifau a Diplomâu Graddedig

    dd. Graddau Meistr Integredig

3. Dylid eu darllen ar y cyd â'r Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Cyrsiau a Addysgir, sydd hefyd yn berthnasol i chi.

4. Mae'r Rheoliadau hyn yn dweud wrthych beth y byddwn yn ei wneud i ddarparu rhaglenni astudio, a beth y mae'n rhaid i chi ei wneud fel myfyriwr. Maent yn rhan bwysig o'r contract rhyngom, ac ni fyddant yn newid heb eich cynnwys chi (a all fod gan Undeb y Myfyrwyr sy'n gweithredu ar eich rhan). Rydym yn adolygu'r rheoliadau hyn ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd. Byddwn yn rhoi gwybod i chi adeg ailgofrestru os bydd unrhyw newidiadau.

Derbyniadau

5. Nodir isafswm ein meini prawf sylfaenol, a'n gofynion mynediad disgwyliedig ar gyfer cyrsiau unigol, ar ein tudalennau gwe a'n prosbectws, a thrwy wefan UCAS.

Cyrsiau y mae angen Atgyfeiriad at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)

6. Ar gyfer cyrsiau y mae angen cliriad gwiriad GDG arnynt, mae'n rhaid i chi gyflwyno eich cais GDG o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad dechrau, neu eich dyddiad trosglwyddo i'r cwrs. Mae angen cliriad digonol er mwyn i chi barhau yn gofrestredig ar eich cwrs. Os na ddechreuwch eich cais GDG o fewn y 14 diwrnod, neu os na fyddwch wedyn yn datgelu gwybodaeth newydd a allai effeithio ar y cliriad sy'n ofynnol i ymgymryd â'ch cwrs, rydym yn cadw'r hawl i gymryd unrhyw gamau priodol a allai gynnwys canslo eich Cofrestriad. Mae'n bosibl y byddwch yn parhau i fod yn atebol am ffioedd dysgu tan y dyddiad y cewch eich tynnu'n ôl, yn unol â Pholisi Ffioedd a Dyledion y Brifysgol.

Cydnabod dysgu blaenorol (RPL)

7. Mae Cydnabod Dysgu Ardystiedig Blaenorol (RPCL) yn cyfeirio at gydnabyddiaeth ffurfiol o gredyd a enillwyd naill ai'n fewnol trwy astudiaeth flaenorol ym Mhrifysgol De

Cymru neu gredyd a ddyfernir gan sefydliad neu gorff heblaw ni ein hunain. Dim ond ar gyfer dyfarniadau a restrir yn y tabl isod y gellir defnyddio RPCL a rhaid iddo fod ar y lefel briodol. Ni ddyrennir marciau am ddysgu ardystiedig blaenorol lle caiff y credyd ei drosglwyddo o sefydliad arall, ond gellir trosglwyddo marciau ar gyfer credyd mewnol.

8. Mae Cydnabod Dysgu Ardystiedig Blaenorol (RPEL) yn cyfeirio at gredyd a ddyfarnwyd gan Brifysgol De Cymru mewn cydnabyddiaeth ffurfiol o ddysgu blaenorol, er enghraifft, yn y gweithle. Dim ond tuag at ddyfarniadau a restrir yn y tabl isod y gellir defnyddio RPEL a rhaid barnu ei fod ar y lefel briodol. Ni ddyrennir marciau ar gyfer dysgu drwy brofiad blaenorol. Dylai cyflwyniadau portffolio ar gyfer RPEL gael eu cymedroli'n fewnol a'u samplu gan yr Arholwr Allanol yn yr un modd ag asesiadau arferol myfyrwyr Prifysgol De Cymru.

9. Credyd a addysgir gan Brifysgol De Cymru yw credyd a gyflawnir o fodiwlau a addysgir gan Brifysgol De Cymru sy'n cynnwys modiwlau dysgu o bell a dysgu seiliedig ar waith.

10. Mae ceisiadau ar gyfer pob RPCL a RPEL yn gofyn am fapio dysgu blaenorol yn glir i ddeilliannau dysgu modiwl, a gymeradwywyd gan yr Arweinydd Cwrs, cyn cofrestru.

11. Os dyfernir i chi drosglwyddo credyd am fodiwl a restrir fel rhagofyniad ar gyfer modiwl arall o fewn manyleb cwrs, fe'ch cydnabyddir fel un sydd wedi cyflawni'r rhagofyniad.

12. Seilir graddio neu ddosbarthiad dyfarniadau Prifysgol De Cymru ar farciau a gyflawnwyd o gredyd a addysgir gan Brifysgol De Cymru yn unig ac yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau ychwanegol yn y tabl isod. Ni fydd RPL yn cyfrif tuag at ddosbarthiadau dyfarniadau.

13. Mewn rhai achosion, efallai y bydd gan Fyrddau Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol (PSRBs) ofynion ychwanegol y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn cyflawni cymhwyster achrededig.

Dyfarniad	**Lefel**	**Credyd wedi' i Drosglwyddo neu Gredyd drwy Brofiad (uchafswm)**	**Credyd a addysgir gan Brifysgol De Cymru (isafswm)**	**Cyfanswm y credydau sydd eu hangen ar gyfer dyfarniad**	**Cyfyngiadau Ychwanegol**
CertHE CertHE	4	60	60 ar L4	120	Heb eu graddio pan gânt eu defnyddio fel dyfarniad ymadael.

Dyfarniad	Lefel	Credyd wedi' i Drosglwyddo neu Gredyd drwy Brofiad (uchafswm)	Credyd a addysgir gan Brifysgol De Cymru (isafswm)	Cyfanswm y credydau sydd eu hangen ar gyfer dyfarniad	Cyfyngiadau Ychwanegol
DipHE	5	120	120 gydag isafswm o 100 ar L5	240	Ni chaiff DipHE ei raddio pan y'i rhoddir fel dyfarniad ymadael.
Gradd Baglor Gradd Baglor	6	240	60 ar L6	300	Fe'i defnyddir fel dyfarniad ymadael ar gyfer gradd Baglor gydag anrhydedd yn unig, heb ei raddio.
Gradd Baglor gydag anrhydedd *yn cynnwys atodol	6	240	120 gydag isafswm o 100 ar L6	360	Bydd myfyrwyr sydd ag o leiaf 60 credyd Prifysgol De Cymru ar Lefel 5 a 120 ar Lefel 6 a gafwyd ar y radd anrhydedd yn cael eu dosbarthu yn ôl y rheoliadau safonol. Fel arall, seilir y dosbarthiad ar y 120 o gredydau Prifysgol De Cymru.
BMus (CBCDC yn unig)	6	300	180 ar L6	480	Bydd myfyrwyr sydd ag o leiaf 90 credyd Prifysgol De Cymru ar Lefel 5 a 180 ar Lefel 6 a gafwyd ar y radd anrhydedd yn cael eu dosbarthu yn ôl y rheoliadau BMus safonol. Fel arall, seilir y dosbarthiad ar y 180 o gredydau Prifysgol De Cymru
HNC	4	60	60 ar L4	120	
HND	5	120	120 gydag isafswm o 100 ar L5	240	
Gradd Sylfaen	5	120	120 gydag isafswm o 100 ar L5	240	
ProfCE	5	60	60 ar L5	120	
Meistr Integredig	7	240	240 gydag isafswm o 100 ar L6 a 120 ar L7	480	

* Ni chaniateir i unrhyw Gydnabod Dysgu Blaenorol ar lefel 6 gyfrif tuag at Radd Baglor ni waeth a yw wedi'i ddilysu fel cwrs 3 blynedd neu gwrs atodol.

Isafswm ac Uchafswm Cyfnodau Cofrestru

14. Mae'r isafswm ac uchafswm cyfnodau cofrestru ar gyfer cyrsiau o dan y rheoliadau hyn fel a ganlyn:

Cyfnod cofrestru	**Isafswm**		**Uchafswm**	
Dyfarniad	**Amser llawn**	**Rhan-amser**	**Amser llawn**	**Rhan-amser**
Cyrsiau israddedig				
Tystysgrif Addysg Uwch	Blwyddyn	3 bl	3bl	6bl
Diploma Addysg Uwch	2fl	4bl	4bl	8ml
Gradd Sylfaen	2fl	3bl	4bl	10ml
Gradd Anrhydedd (rhaglen blwyddyn ad-ychwanegu)	1fl	2fl	2fl	3fl
Gradd Anrhydedd (rhaglen 3 blynedd)	3bl	4bl	5ml	10ml
Gradd Anrhydedd (rhaglen 4 blynedd)	4bl	4bl	6bl	10ml
Gradd Anrhydedd llwybr cyflym	2fl	-	5ml	-
Tystysgrif a Diploma i Raddedigion				
Tystysgrif i Raddedigion	Blwyddyn	2fl	*	*
Diploma i Raddedigion	Blwyddyn	2fl	*	*
Gradd Meistr Integredig				
Gradd Meistr Integredig	4bl	8ml	6bl	10ml
Cymwysterau addysg				
Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg	Blwyddyn	2fl	*	*
Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion	Blwyddyn	2fl	*	*
Tystysgrif Uwch addysg Uwch	Blwyddyn	2fl	*	*
Cyrsiau Edexcel a CBAC				
Tystysgrif Cenedlaethol Uwch	Blwyddyn	2fl	*	*
Diploma Cenedlaethol Uwch	2fl	4bl	*	*

* Fel arfer yr un hyd â'r isafswm cyfnod

Dewisiadau pwnc - prif/atodol, ar y cyd a chyfunol

15. Yn ogystal â'r cyrsiau israddedig pwnc sengl, efallai y byddwn yn datblygu cyrsiau annibynnol sy'n arwain at brif raddau anrhydedd, rhai atodol ac ar y cyd.

16. Mae'r cyrsiau'n cynnwys y canlynol:

a. cwrs prif bwnc yn cynnwys 80 o gredydau ar bob un o lefelau 5 a 6;

b. cwrs pwnc atodol yn cynnwys 40 o gredydau ar bob un o lefelau 5 a 6;

c. cwrs pwnc ar y cyd yn cynnwys 60 o gredydau ar bob un o lefelau 5 a 6;

ch. cwrs pwnc cyfunol yn cynnwys tri phwnc, pob un yn cynnwys 40 credyd ar bob un o lefelau 5 a 6.

Graddfeydd marcio

17. Mae'r raddfa farcio israddedig yn alinio'r graddau gyda dosbarthiadau gradd cydnabyddedig a graddau Edexcel fel yn y tabl isod.

Cod	**Gradd (%)**	**Disgrifiad**	**Cyfwerth â Gradd Anrhydedd**	**Edexcel cyfatebol**
	70-100	Pasio	Cyntaf	Rhagoriaeth
	60-69.9	Pasio	Ail Uchaf	Teilyngdod
	50-59.9	Pasio	Ail Isaf	Pasio
	40-49.9	Pasio	Trydydd	Pasio
F1	30-39.9	Methu: methu ffiniol (gellir rhoi digolledia d)	Methu	Methu
F2	0-29.9	Methu: methu clir (ni ellir rhoi digolledia d heblaw am fyfyrwyr Lefel 4)	Methu	Methu

18. Mae'r raddfa Edexcel yn disgrifio'r trosiad rhwng graddfa israddedig y Brifysgol a graddau Edexcel.

Gradd Prifysgol	**Gradd HND/C**	**Meini Prawf**	**Canlyniad**
70-100	D	Rhagoriaeth	Pasio
60-69.9	M	Teilyngdod	Pasio
40-59.9	P	Pasio	Pasio
30-39.9	F1	Methu ffiniol	
0-29.9	F2	Methu clir	

Cynnydd ac Ailasesu

19. Fel arfer, rhaid i chi gronni 120 o gredydau er mwyn symud ymlaen o un lefel israddedig i'r nesaf.

20. Cewch barhau ar yr un lefel o'ch cwrs, os byddwch yn pasio o leiaf 50% o'r credydau a gymerir yn y sesiwn academaidd.

21. Bydd pob cwrs Meistr Integredig yn diffinio'r lefel benodol o gyflawniad sy'n ofynnol ar gyfer dilyniant yn y cwrs penodol.

22. Os methwch â phasio 120 o gredydau ar y lefel astudio berthnasol, byddwn yn penderfynu a allwch barhau â'ch astudiaethau a sut y gallwch wneud hynny, yn unol â'r pedwar dewis canlynol:

    a. Gall y Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant ganiatáu i chi symud ymlaen i lefel nesaf y cwrs ac ailadrodd y modiwlau sydd wedi methu (hyd at uchafswm o 20 credyd) yn ogystal â'ch rhaglen astudio arferol.

    b. Gall y Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant ganiatáu i chi aros ar yr un lefel (blwyddyn ailadrodd) a naill ai:

        i. ailadrodd y modiwlau sydd wedi methu a chymryd modiwlau ychwanegol.

        (Dim ond os bydd unrhyw fodiwlau angenrheidiol wedi'u cwblhau'n foddhaol y gellir cymryd unrhyw fodiwlau lefel uwch); neu

        ii. ailadrodd y modiwlau a fethwyd yn unig.

    c. gyda chytundeb y Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant, cewch amnewid modiwl arall yn lle un sydd wedi methu, ar yr amod bod gofynion eich cyrsiau yn cael eu cynnal. Bydd y Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant yn cadarnhau modiwlau amnewid priodol. Cyfyngir ar amnewid fel a ganlyn:

        i. 20 credyd ar gyfer pob lefel o gwrs israddedig (HNC/HND/FD/Gradd Anrhydedd);

        ii .20 credyd am bob lefel o gwrs Meistr Integredig.

    ch. Os yw'r Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant yn fodlon eich bod wedi methu mewn ffordd sy'n awgrymu nad oes unrhyw bosibilrwydd o gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddwch wedi methu'r cwrs a byddwn yn diweddu eich cofrestriad fel myfyriwr. Efallai na chewch eich ail-dderbyn i'r un cwrs neu gwrs tebyg. Dim ond mewn amgylchiadau gwirioneddol eithriadol y bydd aildderbyn i'r un cwrs neu'r un maes pwnc (e.e. materion iechyd meddwl nad oedd wedi'u deall yn flaenorol). Y tîm Derbyniadau a'r cwrs Academaidd fydd yn dyfarnu p'un a yw cwrs yn 'debyg' neu beidio, gan ystyried y posibilrwydd o orgyffwrdd cynnwys a'r maes pwnc. Bydd y penderfyniad yn ystyried tystiolaeth ychwanegol nad oedd modd ei hystyried pan wnaeth y Bwrdd asesu y penderfyniad gwreiddiol i'ch terfynu o'ch cwrs.

23. Os oes gennych hawl i ail-ymuno â'r un cwrs, byddwch yn cael eich trin fel myfyriwr sy'n ailadrodd. Os byddwch yn dechrau cwrs newydd mewn maes pwnc newydd, byddwch yn cael eich trin fel myfyriwr newydd.

24. Os ydych yn ailadrodd astudiaeth, byddwch yn cael eich rheoli gan reoliadau cyfredol ac nid y rhai sydd mewn grym pan geisioch y modiwl neu'r flwyddyn astudio am y tro cyntaf.

25. Dim ond y nifer o gredydau sydd eu hangen i ennill y dyfarniad y cewch eu cymryd. Ni allwch gymryd credydau ychwanegol er mwyn gwella dosbarthiad.

Cymhwystra ar gyfer dyfarniadau

Dyfarniadau Edexcel

26. Dim ond os nad oes gennych fwy na 40 neu 20 credyd graddedig fel PC dros gyfanswm eich cwrs y gellir rhoi dyfarniadau HNC a HND.

Graddau Sylfaen

27. Er mwyn bod yn gymwys i gael gradd Sylfaen, mae'n rhaid eich bod wedi cyflawni 240 o gredydau, y mae'n rhaid i o leiaf 100 ohonynt fod ar Lefel 5 (canolradd) neu uwch a'r credydau sy'n weddill ar Lefel 4 neu'n uwch. O'r 240 credyd, rhaid i 60 o gredydau ddeillio o Lefel 5 dysgu seiliedig ar waith.

Dosbarthiad graddau anrhydedd

28. I ddosbarthu'ch dyfarniad byddwn yn cyfrifo marc cyfartalog gan ddefnyddio'r ddau ddull canlynol:

    a. Dull 1: Cyfrifo cyfartaledd y marciau o'r 180 credyd a gafwyd o'r 60 credyd gorau ar Lefel 5 a'r 120 credyd ar Lefel 6.

    b. Dull 2: Cyfrifo cyfartaledd y marciau o'r 120 credyd ar Lefel 6.

    c. Dull 3: Cyfrifo cyfartaledd y marciau o'r 100 credyd gorau ar Lefel 6 ar gyfer myfyrwyr mynediad uniongyrchol.*

    **Nodwch: Ni ellir eithrio modiwlau craidd o ddosbarthiad dyfarniad.*

29. Yna byddwn yn dosbarthu eich gradd gan ddefnyddio'r ddau gyfartaleddau a gyfrifir gan y dulliau a ddisgrifir ym mharagraff 34 uchod ac yn dyfarnu dosbarthiad yn seiliedig ar y tabl canlynol:

Cymedr %	**Dosbarthiad**
O leiaf 69.5% hyd at 100%	Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf
O leiaf 59.5% a llai na 69.5%	Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth Uwch
O leiaf 49.5% a llai na 59.5%	Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth Isaf
O leiaf 39.5% a llai na 49.5%	Gradd Anrhydedd Trydydd Dosbarth

30. Os ydych chi wedi pasio 360 o gredydau gyda dim ond 100 ar Lefel 6, byddwn yn cyfrifo cyfartaledd pob modiwl Lefel 5 (p'un ai 100, 120 neu 140 credyd) ac yn cyfrif

hyn fel 20 credyd ar Lefel 6. Yna byddwn yn defnyddio Dull 2 ym mharagraff 28 uchod i gyfrifo marc cyfartalog a dyfarnu dosbarthiad yn unol â hynny.

31. Os ydych chi wedi pasio 360 o gredydau gyda 140 ar Lefel 6, byddwn yn cyfrifo'r cyfartaledd dros bob un o'r 140 credyd Lefel 6 a phwysolir y cyfartaledd hwn fel 120 credyd. Yna byddwn yn defnyddio Dull 1 ym mharagraff 28 uchod i gyfrifo marc cyfartalog a dyfarnu dosbarthiad yn unol â hynny.

32. Os gwnaethoch gofrestru fel myfyriwr ar y cam gradd olaf neu ymuno â'r cam gradd olaf trwy 'ychwanegu' o HND neu radd Sylfaen a ddyfarnwyd gan Brifysgol De Cymru, byddwn yn dosbarthu'ch dyfarniad gan ddefnyddio Dull 2 ym mharagraff 28 uchod yn unig.

Dosbarthiad HNC, HND a Graddau Sylfaen

HNC

33. Byddwn yn cyfrifo cyfartaledd yr holl gredydau sy'n cynnwys y dyfarniad.

34. Byddwn yn dyfarnu:

    a. Rhagoriaeth os yw eich cyfartaledd yn 69.5% neu'n fwy.

    b. Teilyngdod os yw eich cyfartaledd yn 59.5% neu'n fwy ac yn llai na 69.5%.

    c. Pasio os yw eich cyfartaledd yn 39.5% neu'n fwy ac yn llai na 59.5%.

HND a Graddau Sylfaen

35. Byddwn yn cyfrifo cyfartaledd pob credyd Lefel 5 sy'n cynnwys y dyfarniad.

36. Byddwn yn dyfarnu:

    a. Rhagoriaeth os yw eich cyfartaledd yn 69.5% neu'n fwy.

    b. Teilyngdod os yw eich cyfartaledd yn 59.5% neu'n fwy ac yn llai na 69.5%.

    c. Pasio os yw eich cyfartaledd yn 39.5% neu'n fwy ac yn llai na 59.5%.

Dosbarthiad Dyfarniadau Meistr Integredig

37. I ddosbarthu'ch dyfarniad byddwn yn cyfrifo marc cyfartalog gan ddefnyddio'r ddau ddull canlynol:

    a. Dull 1: Cyfrifo cyfartaledd y marciau o'r 180 credyd a gafwyd o'r 60 credyd gorau ar Lefel 6 a'r 120 credyd ar Lefel 7.

    b. Dull 2: Cyfrifo cyfartaledd y marciau o'r 120 credyd ar Lefel 7.

38. Yna byddwn yn dosbarthu eich gradd gan ddefnyddio'r ddau gyfartaleddau a gyfrifir gan y dulliau a ddisgrifir ym mharagraff 43 uchod ac yn dyfarnu dosbarthiad fel a ganlyn:

a. Rhagoriaeth os yw eich cyfartaledd yn 69.5% neu'n fwy.

b. Teilyngdod os yw eich cyfartaledd yn 59.5% neu'n fwy ac yn llai na 69.5%.

c. Pasio os yw eich cyfartaledd yn 39.5% neu'n fwy ac yn llai na 59.5%.

Os yw'r pwynt ymadael ar lefel 6, yna dyfernir y cymhwyster lefel 6 priodol a defnyddir dosbarthiadau ymadael safonol ar gyfer graddau israddedig.

Dosbarthiad dyfarniadau eraill

39. Ni ddosberthir CertHE, DipHE a graddau nad ydynt yn rhai anrhydedd pan gânt eu defnyddio fel dyfarniadau ymadael.

40. Pan fydd CertHE/DipHE wedi'u dilysu fel dyfarniad ar ei ben ei hun, er enghraifft lle nad oes dyfarniad lefel uwch yn bodoli yn yr ardal honno, byddwn yn graddio'r dyfarniadau fel a ganlyn:

CertHE

41. Byddwn yn cyfrifo cyfartaledd yr holl gredydau sy'n cynnwys y dyfarniad.

42. Byddwn yn dyfarnu:

a. Rhagoriaeth os yw eich cyfartaledd yn 69.5% neu'n fwy.

b. Teilyngdod os yw eich cyfartaledd yn 59.5% neu'n fwy ac yn llai na 69.5%.

c. Pasio os yw eich cyfartaledd yn 39.5% neu'n fwy ac yn llai na 59.5%.

DipHE

43. Byddwn yn cyfrifo cyfartaledd yr holl gredydau sy'n cynnwys y dyfarniad.

44. Byddwn yn dyfarnu:

a. Rhagoriaeth os yw eich cyfartaledd yn 69.5% neu'n fwy.

b. Teilyngdod os yw eich cyfartaledd yn 59.5% neu'n fwy ac yn llai na 69.5%.

c. Pasio os yw eich cyfartaledd yn 39.5% neu'n fwy ac yn llai na 59.5%.

Rheoliadau Penodol i Gwrs

<u>Cyrsiau wedi'u hachredu gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (IET)</u>

45. Ni chaniateir cymeradwyo modiwlau sy'n cyflwyno deilliannau dysgu AHEP.

46. (*Yn gymwys i fyfyrwyr sy'n ymuno o fis Medi 2022. Nid oes unrhyw ofyniad neu ddisgwyliad y bydd y rheoliad hwn yn cael ei newid ar gyfer myfyrwyr a gofrestrodd ar raglen radd achrededig cyn y dyddiad hwn. Caniateir gweithredu fesul cam pan fydd myfyrwyr yn ymuno â'r cwrs cyn mis Medi 2022 yn cael parhau o dan y rheoliad digolledu safonol o 20 credyd fesul lefel*).

Yn unol â gofynion PSRB, gellir digolledu uchafswm o 30 credyd mewn rhaglen gradd Baglor neu Feistr integredig am y rhaglen astudio. Ar gyfer astudiaeth gradd Meistr (ac eithrio Gradd Meistr Integredig), caniateir 20 credyd o ddigolledu ar gyfer y rhaglen astudio, tra caniateir digolledu o 10 credyd ar Lefel 6 ar gyfer y cwrs Gradd Atodol. Ni fydd unrhyw digolledu credyd academaidd a ddyfernir gan ddarparwr gwahanol ond a ddefnyddir i gael mynediad i'r rhaglen gyda statws uwch - er enghraifft mynediad uniongyrchol i'r ail flwyddyn - yn cyfrif tuag at y terfyn. Ar gyfer myfyrwyr mynediad uniongyrchol, sy'n dechrau blwyddyn ddiweddarach ar raglen gradd Baglor neu Feistr integredig, caniateir 30 credyd o digolledu.

47. Ni ddylid rhoi digolledia am fodiwlau prosiect unigol a grŵp mawr.

48. Nid yw isafswm marc y modiwl y caniateir digolledia amdano yn fwy na 10% yn is na marc pasio enwol y modiwl (neu'n gyfwerth os defnyddir cynllun marcio ar sail gradd).

Graddfeydd Marcio

49. Y marc pasio ar gyfer asesu ar Lefel 7 fydd 50%.

50. Lle mae modiwl yn cynnwys dwy elfen asesu neu fwy (e.e. arholiad a gwaith cwrs), a lle mae'r elfennau hyn yn asesu deilliannau dysgu gwahanol (heb fod yn bondio), bydd cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus yn gofyn am farc o fwy na 10% islaw'r marc pasio modiwl ym mhob elfen, yn ogystal â marc modiwl cyffredinol uwchben y marc pasio arferol. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol yn unig i elfennau asesu sy'n cyfrannu mwy na 30% tuag at farc terfynol y modiwl.

Cynnydd ac Ailasesu

51. Gallwch symud ymlaen i'r lefel nesaf yn unig os ydych wedi pasio (gan gynnwys ar ôl ailsefyll/atgyfeirio) pob modiwl ar y lefel is.

Cyrsiau Achrededig MEng gan IET

52. I symud ymlaen o Lefel 6 MEng i Lefel 7 y cwrs Peirianneg MEng achrededig cysylltiedig gan IET, mae'n ofynnol i chi gyflawni proffil cyffredinol o 50% o leiaf ar Lefel 6 ar y MEng.

53. Os cyflawnir pasio ar Lefel 6 ond nid yn ôl y proffil a nodir ym mharagraff 54 uchod, cewch eich ystyried ar gyfer dyfarniad gradd BEng.

Dosbarthiad

54. Yn achos dyfarniadau achrededig israddedig IEng a CEng Rhannol, bydd pob modiwl yn y 2 flynedd olaf o astudio academaidd yn cyfrannu tuag at gyfrifo'r dyfarniad terfynol ar sail cyfraniad o 30% o'r flwyddyn olaf ond un a 70% o'r flwyddyn astudio olaf. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ddyfarniadau ychwanegol BSc (Anrh) lle mae'r cyfraniad yn deillio o'r modiwlau Lefel 6 yn unig.

55. Ar gyfer cyrsiau MEng, bydd pob modiwl yn y 3 blynedd olaf o astudio academaidd yn cyfrannu tuag at gyfrifo'r dyfarniad terfynol ar sail cyfraniad o 10% o flwyddyn 2, 40% o flwyddyn 3 a 50% o'r flwyddyn olaf.

Cyrsiau a Achredwyd gan y Sefydliad Peirianwyr Mecanyddol (IMechE)

Asesu

56. Ni chaniateir cymeradwyo modiwlau sy'n cyflwyno deilliannau dysgu AHEP (Achredu Rhaglenni Addysg Uwch).

Cynnydd ac Ailasesu

57. Mae myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar gwrs gradd Baglor neu Radd Meistr Integredig achrededig IMechE wedi'u cyfyngu i uchafswm o 30 credyd o gredyd modiwl a ddigolledwyd (yn unol â Rheoliad A1, Rhif 159) ar draws y cwrs cyfan.

58. Ni all myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gwrs achrededig IMechE, yn unol â Rheoliad A1, Rhif 160 gael eu digolledu yn F2. Mae hyn yn berthnasol i lefel 3 a 4.

Dosbarthiad

59. Bydd myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar gwrs gradd Baglor achrededig IMechE sy'n ennill mwy na 300 o gredydau ond nad ydynt yn cyflawni 360 o gredydau yn cael eu graddio â dyfarniad enwebedig anachrededig, yn hytrach na gradd pasio yn enw'r dyfarniad achrededig o dan Reoliad A2, Rhif. 12. Mae enwau'r dyfarniadau hyn fel a ganlyn:

- BEng Peirianneg Systemau Mecanyddol
- BEng Peirianneg Systemau Awyrennol
- BSc Peirianneg Systemau Mecanyddol

Myfyrwyr Peirianneg Fecanyddol:

60. Bydd angen i fyfyrwyr gyflawni cyfartaledd o 50% i ennill yr MSc mewn Peirianneg Fecanyddol. Bydd myfyrwyr sy'n ennill marc rhwng 40 a 49% yn cael gradd MSc Peirianneg Systemau Mecanyddol.

61. Nid yw isafswm marc y modiwl y caniateir digolledu amdano yn fwy na 10% yn is na marc pasio enwol y modiwl o 50% ar gyfer gradd achrededig.

Myfyrwyr Peirianneg Awyrofod:

62. Bydd angen i fyfyrwyr gyflawni cyfartaledd o 50% i gael yr MSc (Anrh) mewn Peirianneg Awyrofod. Bydd myfyrwyr sy'n ennill marc rhwng 40 a 49% yn cael gradd MSc Peirianneg Systemau Awyrennol.

63. Nid yw isafswm marc y modiwl y caniateir digolledu amdano yn fwy na 10% yn is na marc pasio enwol y modiwl o 50% ar gyfer gradd achrededig.

DipHE/BSc Cyfrifeg Broffesiynol Achrededig gan ACCA

Graddfeydd Marcio

64. Nodir mai 50% yw'r marc pasio cyffredinol ar gyfer y modiwl Lefel Hanfodion PDC ACCA a asesir yn fewnol, yn hytrach na'r marc pasio Safon PDC o 40%. Pennir marc

isafswm fesul elfen o'r asesiad (aseiniad neu arholiad) ar 40%, ond rhaid i chi gyflawni cyfartaledd pwysol o 50% yn gyffredinol. (Mae gan yr aseiniad bwysoliad o 30% o'r radd gyffredinol a phwysoliad o 70% ar gyfer yr arholiad).

Isafswm ac Uchafswm Cyfnodau Cofrestru

65. Er mwyn cysondeb â gofynion ACCA, nid oes uchafswm hyd astudio ar gyfer y rhaglen hon.

Cynnydd ac Ailasesu

66. Efallai y byddwch yn gymwys i ailsefyll modiwlau a fethwyd os byddwch yn methu mwy na 50% o gredydau mewn unrhyw un flwyddyn academaidd, fel y manylir yn Rheoliad 145, oherwydd natur fodiwlaidd y cwrs (cyrsiau). Bydd rheoliad 145 ond yn gymwys yn awtomatig i fyfyrwyr sy'n astudio uchafswm nifer y modiwlau a ganiateir ar sail amser llawn.

AU3D031 Modiwl Dychwelyd i Ymarfer

Graddfeydd Marcio

67. Rhaid i chi gyflawni isafswm marc o 40% ym mhob elfen o'r asesiad i basio'r modiwl, ac eithrio'r Prawf yn y Dosbarth (prawf cyfrifo dos meddyginiaethau), y mae'n rhaid i chi ei basio gyda 100%.

BA Cwnsela ac Ymarfer Therapiwtig

Cynnydd ac Ailasesu

68. Rhaid i chi gyflawni isafswm marc o 40% ym mhob elfen o bob asesiad i basio unrhyw fodiwl.

69. Os byddwch yn methu asesiadau ar sail sgiliau sy'n asesu cymhwysedd ymarfer cwnsela a sgil yn uniongyrchol yn y modiwlau a ganlyn, gallwch ailsefyll yr asesiad cyn cyfarfod y Bwrdd Asesu perthnasol:

a. TS1S002 Cyflwyniad i Gwnsela Plant a Phobl Ifanc

b. TS1T001 Cyflwyniad i Gwnsela

c. TS2T001 Ymarfer Integreiddiol 1

ch.TS2S002 Cwnsela Plant a Phobl Ifanc 2

d. TS3S001 Cwnsela Plant a Phobl Ifanc 3

70. Os ydych wedi methu mwy na 50% o'r credydau a gymerwyd mewn unrhyw flwyddyn academaidd oherwydd natur cydran 60 credyd modiwlau TS1T001, TS2T001 a TS3T001, cewch gyfle i ailsefyll i'ch galluogi i reoli'ch rhaglen astudio benodol yn well.

71. Cynigir y cyfleoedd hyn yn unig os a) ceisiwyd rhoi cynnig ar bob asesiad o'r modiwl 60 credyd perthnasol a (b) dim ond pan fo gan fodiwlau y tu allan i'r modiwl 60 credyd perthnasol farc methu o drwch blewyn ar gyfer F1 yn unig.

    Dim ond hyd at uchafswm o 100 credyd y bydd y rhanddirymiad hwn yn berthnasol.

BA Addysg ac Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar (gyda statws Ymarferwr)

Cynnydd ac Ailasesu

72. Er mwyn pasio'r modiwlau canlynol, mae'n rhaid i chi ennill marc isafswm o 40% yn y modiwl a'r elfen portffolio:

    a. EA1D003 Dysgu ac Ymarfer Proffesiynol 1

    b. EA2D002 Dysgu ac Ymarfer Proffesiynol 2

    c. EA3D002 Dysgu ac Ymarfer Proffesiynol 3

BA (Anrh) Rheoli Gwesty a Lletygarwch

Graddfeydd Marcio

73. Byddwch yn derbyn marc pasio neu farc methu ar gyfer pob elfen asesu sy'n ymwneud â'r Asesiad Ymarferol, Cymhwysedd Proffesiynol a Gweithredol. Rhoddir marc pasio o 100% a marc methu o 0%. Ni ellir digolledu yr asesiadau hyn.

Ail-sefyll

74. Ni allwch ail-sefyll yr asesiadau cymhwysedd proffesiynol a gweithredol. Bydd yr holl asesiadau eraill a fethwyd, os ydych yn gymwys i'w hail-sefyll, yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod ail-sefyll arferol ar gyfer y cwrs.

Cynnydd ac Ailasesu

75. Bydd unrhyw flwyddyn ailadrodd a ddyfernir gan y Bwrdd Asesu Dilyniant a Dyfarnu ar y BA (Anrh) Busnes a Rheolaeth (Rheoli Lletygarwch). Bydd marc modiwlau a fethwyd sy'n cael eu hailadrodd wedi ei gyfyngu i 40%.

Ailadrodd Modiwlau

76. Oni bai bod amgylchiadau esgusodol cymeradwy, ni allwch ailadrodd unrhyw fodiwlau dysgu yn y gweithle (ar unrhyw lefel) sy'n rhan o'r cwrs BA Gwesty a Lletygarwch os ydych wedi methu'r asesiadau cymhwysedd proffesiynol a gweithredol craidd. Bydd modiwlau a fethwyd sy'n cael eu hailardrodd ar y cwrs BA (Anrh) Busnes a Rheolaeth (Rheoli Gwesty).

BA Addysg Gychwynnol Athrawon Cynradd gyda SAC (fersiynau Cymraeg a Saesneg)

Graddfeydd Marcio

77. Rhaid i chi gyflawni isafswm marc o 40% ym mhob elfen o'r asesiad i basio unrhyw fodiwl. Ni chaniateir digolledu ar gyfer asesiad.

Cynnydd ac Ailasesu

78. Rhaid i chi gwblhau'r holl ofynion lleoliad yn llwyddiannus, fel y manylir yn y Llawlyfr Cwrs, cyn symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf. Rhaid i chi hefyd ddarparu tystiolaeth o fodloni gofynion mynediad arferol cyn symud ymlaen i Lefel 5. Er mwyn cael eich dyfarnu, bydd gofyn i chi fodloni'r holl ofynion lleoliad, fel y nodir yn llawlyfr y cwrs ac a nodir gan Gyngor y Gweithlu Addysg.

Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL)

79. Ni chaniateir i chi fynd ar y cwrs y tu hwnt i Lefel 5. Ni all yr oriau y gellir eu derbyn drwy RPL fod yn fwy na 150 awr neu draean o'r rhaglen, p'un bynnag yw'r nifer fwyaf o oriau.

BA Gwaith Ieuenctid a Chymuned a BA Gwaith Ieuenctid a Chymuned (Cyfiawnder Ieuenctid)

Graddfeydd marcio

80. Defnyddir y raddfa farcio canlynol ar gyfer myfyrwyr israddedig:

Cod	Gradd (%)	Disgrifiad	Cyfwerth â Gradd Anrhydedd	Cyfwerth ag Edexcel
	70-100	Pasio	Cyntaf	Rhagoriaeth
	60-69.9	Pasio	Ail Ddosbarth Uchaf	Teilyngdod
	50-59.9	Pasio	Ail Ddosbarth Isaf	Pasio
	40-49.9	Pasio	Trydydd	Pasio
F2	0-39.9	Methu: methu clir (ni ellir rhoi digolledia ac eithrio ar gyfer myfyrwyr Lefel 4).	Methu	Methu

Cynnydd ac Ailasesu (gan gynnwys cyrsiau Gwaith Cymdeithasol eraill)

81. Rhaid i chi fodloni'r deilliannau dysgu cyffredinol ar gyfer y modiwl heb unrhyw wendidau er mwyn ennill gradd pasio. Diffinnir gwendid fel llai na 40% ac fe neilltuir

Gradd F2 i'r modiwl. Nodir unrhyw ganlyniad dysgu penodol y mae'n rhaid ei basio er mwyn i'r modiwl gael ei basio yn niffiniad y modiwl.

Baglor mewn Bydwreigiaeth

Cynnydd ac Ailasesu

82. Os ydych wedi cael eich cyfeirio ar eich ail gynnig, ni chewch ailadrodd modiwlau a fethwyd, ond cewch drydedd ymgais ailsefyll.

Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL)

83. Yn unol â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), ni chaniateir Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL) ar gyfer y cwrs hwn.

Graddfeydd Marcio

84. Yn unol â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), mae pob modiwl yn graidd a rhaid i chi basio pob elfen o asesiad gydag o leiaf 40% (ac eithrio'r arholiad cyfrifo dos meddyginiaeth ar-lein, sy'n gofyn am 100%).

Baglor mewn Nyrsio

Cynnydd ac Ailasesu

85. Er mwyn caniatáu ichi gario ymlaen naill ai elfennau modiwl damcaniaethol neu ymarferol a fethwyd yn y rhaglen hon, caniateir i chi gario ymlaen werth ugain credyd o elfennau a fethwyd sy'n cwmpasu dau fodiwl.

RPL

86. Pennir faint o RPL y caniateir i chi ei gael fesul achos, trwy gais ffurfiol i'r Brifysgol. Yn unol â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), y lwfans uchaf ar gyfer ystyried RPL y gellir ei fapio i'r Safonau Hyfedredd ar gyfer Nyrsys Cofrestredig yw 50% o'r cwrs ar gyfer nyrsys anghofrestredig a gall fod yn fwy na 50% ar gyfer Nyrsys Cofrestredig yr NMC.

Graddfeydd Marcio

87. Rhaid i chi basio'r arholiad cyfrifo dos cyffuriau gyda marc o 100%.

BEng/MEng

Cynnydd ac Ailasesu

88. I drosglwyddo o BEng ar Lefel 5 i MEng ar Lefel 6, rhaid i chi fodloni'r meini prawf canlynol:

a. ar gyfer cyrsiau sydd wedi'u hachredu gan IET, cyflawni isafswm gradd gyfartalog o 50% ar draws 120 o gredydau;

b. ar gyfer cyrsiau Peirianneg Awyrenegol, isafswm gradd gyfartalog o 60% ar draws 120 o gredydau;

c. ar gyfer cyrsiau Peirianneg Fecanyddol a Pheirianneg Fodurol, isafswm gradd gyfartalog o 60% ar draws 120 o gredydau:

ch. ar gyfer cyrsiau Peirianneg Sifil:

i. gradd gyfartalog ofynnol o 60% ar draws 120 o gredydau; A

ii. isafswm o 60% mewn modiwlau geo-technegau, Mathemateg, Mecaneg a Hydroleg; A

iii. isafswm o 55% ym mhob modiwl.

Astudiaethau Awyrofod BEng/MEng (wedi'u hachredu gan IMechE ac RAeS)

Cynnydd ac Asesu

89. Ni chaniateir cymeradwyo modiwlau sy'n cyflwyno deilliannau dysgu AHEP.

90. Mae myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar radd Baglor achrededig neu gwrs gradd Meistr Integredig wedi'u cyfyngu i uchafswm o 30 credyd o gredyd modiwl a ddigolledwyd (yn unol â Rheoliad A1, Rhif 159) ar draws y cwrs cyfan.

91. Bydd myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar gwrs gradd Baglor achrededig, sy'n ennill mwy na 300 o gredydau, ond nad ydynt yn cyflawni 360 o gredydau, yn cael eu graddio â dyfarniad enwebedig anachrededig, yn hytrach na gradd llwyddo yn enw'r dyfarniad achrededig o dan Reoliad A2, Rhif 12. Mae enwau'r dyfarniadau hyn fel a ganlyn: BEng Peirianneg Systemau Awyrofod.

92. Myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar radd Meistr Integredig achrededig sy'n dymuno gadael ar ddiwedd L6, ac nad ydynt yn cwblhau traethawd estynedig unigol ar gyfer graddedigion gyda dyfarniad enwebedig anachrededig, yn hytrach na gradd llwyddo yn enw'r dyfarniad achrededig o dan Reoliad A2, Rhif 12. Mae enwau'r dyfarniadau hyn fel a ganlyn: BEng Peirianneg Systemau Awyrofod.

BEng/MEng Moduro (wedi'i achredu gan IET)

Cynnydd ac Asesu

93. Ni chaniateir cymeradwyo modiwlau sy'n cyflwyno deilliannau dysgu AHEP.

94. Gellir digolledu uchafswm o 30 credyd mewn rhaglen Baglor neu radd Meistr integredig, ac uchafswm o 20 credyd mewn gradd Meistr heblaw'r radd Meistr integredig.

95. Rhaid peidio digolledu modiwlau prosiect unigol a grŵp mawr.

96. Nid yw isafswm marc y modiwl y caniateir digolledi ad amdano yn fwy na 10% isalw marc pasio enwol y modiwl (neu gyfwerth os defnyddir cynllun marcio ar sail gradd).

BEng/MEng Peirianneg Drydanol ac Electronig (wedi'i achredu gan IET)

Cynnydd ac Asesu

97. Ni chaniateir cymeradwyo modiwlau sy'n cyflwyno deilliannau AHEP.

98. Gellir digolledu uchafswm o 30 credyd mewn rhaglen Baglor neu radd Meistr integredig, ac uchafswm o 20 credyd mewn gradd Meistr heblaw'r radd Meistr integredig.

99. Rhaid peidio â digolledu modiwlau prosiect unigol a grŵp mawr.

100. Nid yw isafswm marc y modiwl y caniateir digolledi ad amdano yn fwy na 10% islaw marc pasio enwol y modiwl (neu gyfwerth os defnyddir cynllun marcio ar sail gradd).

BSc (Anrh) Peirianneg Cynnal a Chadw Awyrennau

Cynnydd ac Ailasesu

101. Os ydych eisoes wedi cymryd a phasio arholiadau CAA sy'n ffurfio rhan o'n rhaglen mewn sefydliad arall, byddwn yn cydnabod y marciau ar gyfer yr elfen honno o'n harholiadau a pheidio â'i gwneud yn ofynnol i chi gymryd yr elfen honno eto.

    Mae hyn i fodloni gofynion yr Awdurdod Hedfan Sifil.

BSc Gwyddor Biofeddygol

Cynnydd ac Asesu

102. Fel rhan o'r cytundeb cynnydd gyda Phrifysgol Caerdydd, os ydych wedi cwblhau Blwyddyn Sylfaen BSc Gwyddorau Biofeddygol yn llwyddiannus, gallwch drosglwyddo i'n BSc Gwyddorau Meddygol a bod yn gymwys i gael eich ystyried ar gyfer mynediad i feddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Fodd bynnag, rhaid i chi ennill cyfartaledd o 70% neu fwy yn y flwyddyn sylfaen o astudio, a chyfartaledd o 60% neu uwch ym mhob modiwl.

BCs/MSci Cemeg

Asesu

103. Mae'r dyfarniadau BSc (Anrh) Cemeg, BSc (Anrh) Cemeg gyda blwyddyn sylfaen, ac MSci (Anrh) Cemeg wedi'u hachredu gan y Gymdeithas Frenhinol Cemeg. Yn ogystal â bodloni gofynion cynnydd y Brifysgol, i ennill y radd achrededig, rhaid i chi hefyd fod wedi mynychu pob un o'ch sesiynau ymarferol yn ôl y cyfarwyddyd a phasio elfen ymarferol eich modiwlau. Os nad ydych yn bodloni gofynion y radd achrededig, gallwch barhau i adael gyda dyfarniad a enwir yn: BSc (Anrh) Astudiaethau Cemeg.

BSc/BEng Peirianneg Sifil

Asesu

104. Rhaid darparu tystiolaeth bod holl ddeilliannau dysgu Rhaglenni Achredu Addysg Uwch (AHEP) yn cael eu bodloni gan bob amrywiad o bob rhaglen cyn y gellir caniatáu achrediad.

105. Ni chaniateir cymeradwyo modiwlau sy'n cyflwyno deilliannau dysgu AHEP.

106. Gellir digolledu uchafswm o 30 credyd mewn rhaglen Baglor neu radd Meistr integredig, ac uchafswm o 20 credyd mewn gradd Meistr heblaw'r radd Meistr integredig.

Graddfeydd Marcio

107. Nid yw isafswm marc y modiwl y caniateir ei ddigolledu yn fwy na 10% islaw marc pasio enwol y modiwl (neu gyfwerth os defnyddir cynllun marcio ar sail gradd).

BSc Astudiaethau Iechyd Cymunedol (Ymarferydd Arbenigol Nyrsio Ardal)

Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL)

108. Os ydych wedi ennill cymhwyster rhagnodi V150/V100 o sefydliad arall a bod gennych gofrestriad cyfredol gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fel Ymarferydd Nyrsio Cymunedol sy'n rhagnodi, efallai y caniateir i chi ddefnyddio RPL i'ch eithrio o'r elfen V100 (asesiad ysgrifenedig llyfr agored) asesiad o fewn CA3069 Y Gyfraith, Moeseg a Nyrs sy'n Rhagnodi. Rhoddir marc pasio o 40% i chi ar gais llwyddiannus RPL.

BSc Datrysiadau Digidol a Thechnoleg (Prentisiaethau Gradd Cymraeg)

Cynnydd ac Ailasesu

109. Cynhelir eisteddiad cyntaf y Bwrdd Asesu ym mis Awst. Os bydd angen i chi ailsefyll, bydd hyn yn cael ei gwblhau o fewn 2 wythnos i'r Bwrdd Asesu. Os nad oes gennych unrhyw ailsefyll, byddwch yn symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf yn unol â'r broses safonol.

110. Cynhelir ail eisteddiad y byrddau ym mis Hydref ac os byddwch yn methu, mae'n ofynnol ichi ailadrodd blwyddyn yn unol â'r broses safonol. Gallwch barhau i gario 20 credyd i'r flwyddyn nesaf.

BSc (Anrh) Peirianneg Systemau Electronig

Asesu

111. Os ydych yn gwasanaethu yn y fyddin, efallai y byddwn yn caniatáu i chi sefyll arholiadau mewn cyfleuster hyfforddi milwrol enwebedig er mwyn cwblhau eich astudiaethau.

BSc Bydwreigiaeth

Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL)

112. Yn unol â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), ni chaniateir Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL) ar gyfer y cwrs hwn.

Graddfeydd Marcio

113. Yn unol â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), mae pob modiwl yn fodiwl craidd a rhaid i chi basio pob elfen o asesiad gydag o leiaf 40% (ac eithrio'r arholiad cyfrifo dos meddyginiaeth ar-lein, sy'n gofyn am 100%).

BSc Nyrsio

Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL)

114. Yn unol â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (PSRB), uchafswm y lwfans ar gyfer ystyried RPL/RPEL ar gyfer nyrsys nad ydynt wedi'u cofrestru yw 50% o'r cwrs. Bydd angen cwblhau'r gwaith mapio a'i asesu cyn cofrestru i sicrhau bod holl safonau a gofynion yr NMC yn cael eu bodloni. Ar gyfer nyrsys sydd wedi'u cofrestru â'r NMC, gall RPL y gellir ei fapio i'r Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig a deilliannau cwrs fod yn fwy na 50% o'r cwrs.

Graddfeydd Marcio

115. Yn unol â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (PSRB), mae'r holl fodiwlau yn rhai craidd a rhaid eu pasio gydag isafswm o 40% (ac eithrio'r arholiad cyfrifo dos meddyginiaeth ar-lein sy'n gofyn am 100%).

Cynnydd ac Asesu

116. Nid oes rhaid i fyfyrwyr sydd â statws ailadrodd ail-wneud yr elfennau ymarfer clinigol ar gyfer y modiwl, fodd bynnag mae cyfyngiad amser o 12 mis ar gyfer ail-wneud yr elfennau eraill er mwyn i hyn barhau'n ddilys.

BSc Therapi Galwedigaethol

Cynnydd ac Asesu

117. Mae'r holl fodiwlau yn rhai craidd ac nid oes lwfans ar gyfer digolledu nac esgusodi modiwlau. Yn unol â gofynion PSRB, mae'n rhaid i chi ennill isafswm marc o 40% ym mhob elfen o'r asesiad i basio'r modiwl.

Cydnabod Dysgu Blaenorol

118. Yn unol â gofynion PSRB, mae uchafswm y rhaglen cyn-gofrestru y gellir ei hystyried trwy Gydnabod Dysgu Blaenorol yn llai na neu'n hafal i draean o gyfanswm y cwrs cyn-gofrestru a gall gynnwys dysgu seiliedig ar ymarfer.

119. Rhaid i'r oriau dysgu seiliedig ar ymarfer y gellir eu hystyried ar gyfer Cydnabod Dysgu Blaenorol beidio â bod yn fwy na'r oriau dysgu seiliedig ar ymarfer a drefnwyd ar gyfer blwyddyn gyntaf y cwrs a rhaid eu bod wedi'u hasesu fel rhai sydd wedi'u cwblhau'n llwyddiannus.

120. Os yw myfyriwr wedi dechrau cwrs cyn-gofrestru gyda darparwr addysg arall ac yn dymuno trosglwyddo i PDC, yna, yn unol â Choleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT), gellir ystyried mwy na thraean o'r cwrs ar gyfer RPL.

Adfer a Chynnydd Modiwlau Dysgu Ymarfer

121. Yn unol â gofynion PSRB, dim ond unwaith y cewch ailsefyll unrhyw leoliad ymarfer. Os byddwch yn methu wrth ailsefyll, bydd gofyn i chi roi'r gorau i'r cwrs.

122. Yn unol â gofynion PSRB, os byddwch yn methu'r ymgais gyntaf ar ddau leoliad yn olynol, bydd gofyn i chi roi'r gorau i'r cwrs. Ni chaniateir i chi ailsefyll ar gyfer yr ail leoliad.

BSc Ymarfer Adran Llawdriniaethau

Graddfeydd Marcio

123. Mae'r holl fodiwlau yn rhai craidd ac nid oes lwfans ar gyfer digolledu nac esgusodi modiwlau. Yn unol â gofynion PSRB, mae'n rhaid i chi gyflawni isafswm marc o 40% ym mhob elfen o asesu i lwyddo yn y modiwl, ac eithrio arholiad cyfrifo meddyginiaeth, y mae'n rhaid i chi ei basio gyda 100%.

BSc Ffisiotherapi

Cynnydd ac Asesu

124. Mae'r holl fodiwlau yn rhai craidd ac nid oes lwfans ar gyfer digolledu nac esgusodi modiwlau. Yn unol â gofynion PSRB, mae'n rhaid i chi ennill isafswm marc o 40% ym mhob elfen o'r asesiad i basio'r modiwl.

125. Fel arfer dim ond unwaith y cewch ailsefyll unrhyw fodiwl a fethwyd. Os byddwch yn methu wrth ailsefyll, bydd gofyn i chi roi'r gorau i'r cwrs.

Gofynion Lleoliad Ymarfer

126. Fel arfer dim ond un lleoliad ymarfer a fethwyd ar unrhyw un Lefel astudio y cewch ailsefyll.

Uchafswm y Cyfnod Cofrestru

127. Yn unol â gofynion PSRB, y cyfnod hwyaf ar gyfer cwblhau'r cwrs fel arfer yw wyth mlynedd.

BSc Ymarfer Plismona Proffesiynol (fersiynau Cymraeg a Saesneg)

Graddfeydd Marcio

128. Ar gyfer pob elfen asesu sy'n ymwneud â'ch Portffolio Cymhwysedd Gweithredol Blwyddyn 2, byddwch yn derbyn marc llwyddo neu farc methu. Rhoddir marc llwyddo o 100% a marc methu o 0%.

Cynnydd ac Ailasesu

129. Efallai y bydd cyfle (os yw'r heddlu sy'n cyflogi'n cytuno) i gael modiwl ailadrodd pan fydd OCP yn methu.

130. Mewn amgylchiadau eithriadol pan nad ydych wedi cwblhau pob elfen o'ch Portffolio Cymhwysedd Gweithredol erbyn diwedd Blwyddyn 2 ond bod gennych amgylchiadau unigryw a gymeradwywyd gan y cyflogwr (a chefnogaeth gan eich gweithlu), efallai y cewch ganiatâd i symud ymlaen i'r lefel nesaf o astudio, gan gymryd cyfnod o ddim mwy nag 8 wythnos i basio eich Portffolio Cymhwysedd Gweithredol. Os byddwch yn methu â chwblhau'r holl ofynion o fewn 8 wythnos, byddwch yn dychwelyd i Flwyddyn 2 lle byddwch yn methu'r modiwl perthnasol.

131. Os byddwch yn methu â chwblhau eich Portffolio Cymhwysedd Gweithredol erbyn diwedd Blwyddyn 2 ar ôl peidio â chwblhau pob elfen mewn modd amserol byddwch yn methu'r modiwl. Fodd bynnag, gallwch ailadrodd y modiwl hwn os yw'ch cyflogwr yn cytuno. Mae'r opsiwn hwn unwaith yn unig ac ni fydd angen i chi gwblhau elfennau a gwblhawyd yn llwyddiannus fel arall. Bydd y modiwl hwn yn cael ei gapio ar 40%. Er mwyn i hyn gael ei sbarduno, dylid cynnal cyfarfod rhyngoch chi, y myfyriwr, ac Arweinydd y Modiwl i gytuno ar yr amodau i'w bodloni cyn cael eich cyflwyno i'r Bwrdd nesaf sydd ar gael.

Ailadrodd Modiwlau

132. Bydd gofyn i chi ailadrodd modiwlau sydd â statws 'Ailadrodd' yn ystod y sesiwn academaidd nesaf.
Ni fyddwch yn gallu ennill gradd yn uwch na Llwyddo neu 40% mewn unrhyw fodiwl a ailadroddir neu a amnewidir (cofnodir eich marc asesu gwirioneddol, a bydd y modiwl cyffredinol yn cael ei gapio).

BSc Ymarfer Plismona Proffesiynol (fersiyn Saesneg)

Graddfeydd Marcio

133. Mae'n rhaid i chi gyflawni o leiaf 40% ym mhob elfen asesu o fewn y modiwlau canlynol sy'n rhan o'ch Asesiad Terfynol: PC3D018 Prosiect Ymchwil Seiliedig ar Dystiolaeth (Asesiad Pwynt Terfyn) PC3S042 Adolygiad Portffolio Cymhwysedd Gweithredol (Asesiad Pwynt Terfyn).

Cynnydd ac Ailasesu

134. Caniateir uchafswm o dri chyfle i ailsefyll neu ailadrodd (ailgymryd) ar gyfer y modiwlau canlynol, sy'n ffurfio eich Asesiad Pwynt Terfyn:

PC3D018 Prosiect Ymchwil Seiliedig ar Dystiolaeth (Asesiad Pwynt Terfyn)

PC3S042 Adolygiad Portffolio Cymhwysedd Gweithredol (Asesiad Pwynt Terfyn)

Dosbarthiad

135. Bydd canlyniad yr Asesiad Pwynt Terfyn (EPA) yn cael ei agregu â'r radd i alluogi'r radd integredig i gael ei dyfarnu. Bydd pob EPA yn cael ei graddio yn unol â graddfa ganrannol PDC. Bydd y radd integredig yn cael ei dosbarthu yn unol â rheoliadau dosbarthu PDC. Ar gyfer dyfarnu'r Brentisiaeth, trosir graddfa ganrannol PDC i raddfa farcio'r Cynllun Asesu h.y. methu/llwyddo/rhagoriaeth.

BSc Peirianneg Rheilffydd (Sifil) a BSc Peirianneg Rheilffyrdd Peirianneg Systemau Electro-fecanyddol

Dilyniant ac Ailasesu

136. Cynhelir y Bwrdd Asesu cynnig cyntaf ym mis Awst. Os oes angen i chi ailsefyll, bydd hyn yn cael ei gwblhau o fewn pythefnos i'r Bwrdd Asesu. Os nad oes angen i chi ailsefyll, byddwch yn symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf yn unol â'r broses safonol.

137. Cynhelir byrddau'r ail gynnig ym mis Hydref ac os byddwch yn methu, mae'n ofynnol i chi ail-wneud y flwyddyn yn unol â'r broses safonol. Byddwch yn dal i allu cario 20 credyd i'r flwyddyn nesaf.

138. Mae'n rhaid i chi gael marc lleiafswm o 85% i basio'r modiwl Sgiliau a Gwybodaeth Technoleg.

139. Mae'n rhaid i chi gael marc lleiafswm o 50% i basio elfen asesu hunan-fyfyriol y modiwl Dysgu Seiliedig ar Waith ac Iechyd a Diogelwch, ac o leiaf.

BSc Gwaith Cymdeithasol

Graddfeydd Marcio

140. Rhaid i chi gyflawni isafswm marc o 40% ym mhob elfen o'r asesiad i basio unrhyw fodiwl.

Cynnydd ac Ailasesu

141. Rhaid i chi gwblhau pob lefel astudio academaidd yn llwyddiannus cyn symud ymlaen i'r nesaf. Rhaid i chi gwblhau pob elfen dysgu ymarfer o'r cwrs yn llwyddiannus cyn symud ymlaen i'r nesaf.

Cydnabod Dysgu Blaenorol

142. Ar gyfer mynediad i'r cwrs BSc Gwaith Cymdeithasol, mae unrhyw drefniadau ar gyfer achredu dysgu a phrofiad blaenorol yn caniatáu cydnabod hyd at uchafswm o 50 y cant o'r rhaglen, ar yr amod bod yr holl ofynion yn cael eu bodloni'n llawn.

BSc Therapi Chwaraeon ac Ymarfer Corff

Cynnydd ac Ailasesu

143. Ni ellir rhoi digolledia am unrhyw fodiwl ar y cwrs Therapi Chwaraeon ac Ymarfer Corff. Unwaith y dewisir modiwlau dewisol, cânt eu dosbarthu fel rhai craidd ac ni ellir rhoi digolledia.

144. Rhaid i chi gyflawni isafswm marc o 40% ym mhob elfen o'r asesiad er mwyn pasio unrhyw fodiwl clinigol.

Presenoldeb ac Asesu

145. Mae gofyniad presenoldeb o 80% o leiaf ar gyfer pob modiwl clinigol. Rhaid i chi fynychu o leiaf 80% o bob modiwl clinigol er mwyn cwblhau'r asesiad ymarferol sy'n gysylltiedig â'r modiwl hwnnw.

BSc Cwnsela Systemig

Cynnydd ac Ailasesu

146. Os byddwch yn methu asesiadau sy'n asesu'n uniongyrchol cymhwysedd ymarfer cwnsela a sgiliau o fewn y modiwlau canlynol, gallwch ailsefyll yr asesiad cyn cyfarfod Bwrdd perthnasol yr arholwyr:

a. FI2D002 Sgiliau Cyfathrebu a'r Broses Cwnsela;

b. FI3D002 Cyfathrebu ac Ymarfer Therapiwtig; a

c. FI3D001 Ymchwiliad Person Cyntaf ac Ymarfer Therapiwtig.

147. Rhaid i chi ennill marc isafswm o 40% ym mhob elfen o bob asesiad i basio unrhyw fodiwl.

CertHE Ymarfer Plismona Cymunedol

Dosbarthiad

148. Ni fydd eich dosbarthiad dyfarniad yn cynnwys marciau o fodiwlau ymarfer. Fe'i cyfrifir ar sail y marc cyfartalog ar draws y 70 credyd o fodiwlau academaidd a bydd yn cael ei ddosbarthu fel a ganlyn:

Cymedr %	**Dosbarthiad**
O leiaf 69.5% a hyd at 100%	Rhagoriaeth
O leiaf 59.5% a llai na 69.5%	Teilyngdod
O leiaf 39.5% a llai na 59.5%	Llwyddo

Cynnydd ac Ailasesu

149. Ni fydd gennych yr hawl i ailadrodd modiwlau, fodd bynnag gellir cynnig trydydd ymgais eithriadol, os yw'r heddlu sy'n eich cyflogi yn cefnogi hynny.

CertHE Addysg Gweithiwr Cymorth Nyrsio Gofal Iechyd

Graddfa Farcio

150. Mae'r holl fodiwlau yn rhai craidd ac nid oes lwfans ar gyfer digolledu na chydoddef modiwlau. Yn unol â gofynion PSRB, mae'n rhaid i chi ennill isafswm marc o 40% ym mhob elfen asesu i lwyddo yn y modiwl, ac eithrio arholiad cyfrifo meddyginiaeth, y mae'n rhaid i chi ei basio gyda 100%. Efallai y bydd gennych hawl i gael yr opsiwn o ailsefyll yn lle ailadrodd o dan amgylchiadau penodol i'w cytuno gan y Bwrdd.

Modiwlau Annibynnol mewn Addysg

Cynnydd ac Ailasesu

151. Rhaid i chi ennill marc isafswm o 40% ym mhob elfen o bob asesiad er mwyn pasio'r modiwlau canlynol:

    a. ED1S029 Saesneg Hanfodol ar gyfer Addysgu

    b. ED1S030 Mathemateg Hanfodol ar gyfer Addysgu

Peirianneg Sylfaenol

Trosglwyddo rhwng dyfarniadau

152. Symud ymlaen i'r BSc (Anrh) Peirianneg Sifil, y BSc (Anrh) Dylunio Goleuadau a Sain a Thechnoleg Digwyddiadau Byw a'r BSc (Anrh) Peirianneg Fecanyddol.

153. Mae'n ofynnol i chi gael isafswm o 100 credyd ac fel arfer isafswm o 40 credyd o'r modiwlau Mathemateg, a phwnc penodol a restrir yng nghwricwlwm y cwrs blwyddyn pwnc sylfaen rhagnodedig.

154. Symud ymlaen i'r BEng (Anrh) Peirianneg Awyrenegol, BEng (Anrh) Peirianneg Fodurol (Anrh.) Peirianneg Sifil, a Peirianneg Fecanyddol (Anrh) mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig (BEng).

155. Mae'n ofynnol i chi gael isafswm o 100 credyd ac fel arfer isafswm Lefel 3 ar gyfartaledd o 60% ac o leiaf 60% yn y modiwlau Mathemateg.

156. Os nad ydych yn bodloni'r gofynion hyn, cynigir mynediad i chi i flwyddyn gyntaf gradd BSc (Anrh) briodol mewn Peirianneg, yn amodol ar fodloni'r gofynion o ran cynnydd ar gyfer cwrs gradd BSc (Anrh) mewn Peirianneg.

Gradd Sylfaen mewn Nyrsio Milfeddygol

Cynnydd ac Ailasesu

157. O fewn y modiwl BI2S127 Sgiliau Clinigol ar gyfer Milfeddygon, mae'n ofynnol i fyfyrwyr gynnal 10 arholiad OSCE (chwe munud yr un) i gael marc gofynnol o 55% yn gyffredinol er mwyn pasio'r modiwl. Mae hwn yn ofyniad gan y corff achredu - RCVS.

158. Ym mhob modiwl ar y cwrs, mae'n ofynnol i fyfyrwyr basio pob elfen o'r asesiad h.y., isafswm marc o 40% ar gyfer pob elfen er mwyn bodloni gofynion y corff proffesiynol i gael teitl dyfarniad FdSc Nyrsio Milfeddygol. Os yw myfyrwyr yn llwyddo i gyflawni'r gofyniad hwn, byddant yn gymwys yn unig ar gyfer FdSc Astudiaethau Iechyd Anifeiliaid anachrededig. Wrth sgwrsio â'r corff proffesiynol (RCVS), mae wedi dod yn ofyniad na chaniateir digolledu o fewn neu ar draws modiwlau ar y cwrs.

159. Mae'r marc pasio yn cael ei osod gan ddefnyddio proses gosod safonol Angoff wedi'i haddasu. Yn ystod y broses hon, arbenigwyr pwnc sy'n pennu lefel anhawster pob cwestiwn a'r arholiad yn ei gyfanrwydd, felly, bydd y marc llwyddo yn amrywio.

Diploma Graddedigion mewn Ymarfer Plismona Proffesiynol

Graddfeydd Marcio

160. Ar gyfer pob elfen asesu sy'n ymwneud â'ch Portffolio Cymhwysedd Gweithredol, byddwch yn derbyn marc llwyddo neu farc methu. Rhoddir marc llwyddo o 100% a marc methu o 0%.

Dilyniant ac Ailasesu

161. Ni fydd gennych hawl i ail-wneud modiwlau, fodd bynnag efallai y cynigir trydydd ymgais eithriadol. Mae'n bosibl y bydd achosion eithriadol pan fydd y gweithlu sy'n eich cyflogi yn gofyn i chi gario ailsefyll i flwyddyn newydd o astudio, fodd bynnag ni chewch symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf nes bod pob modiwl wedi'i basio.

Cymhwyster ACA Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW)

162. Os ydych yn astudio'r cymhwyster ACA bydd y Rheoliadau canlynol yn berthnasol:

a. Rheoliadau Myfyrwyr

i. Gofynion mynediad
ii. Hyfforddiant cymeradwy
iii. Cofrestru myfyrwyr
iv. Credyd am brofiad gwaith blaenorol
v. Credyd ar gyfer dysgu blaenorol
vi. Asesiad proffesiynol
vii. Ail-fynediad
viii. Derbyn i aelodaeth
ix. Pwerau amrywiad

b. Rheoliadau Asesu

i. Cyflwyniad
ii. Y Strwythur asesu
iii. Cymhwystra
iv. Nifer yr ymgeisiau yn yr asesiadau
v. Trefniadau trosiannol
vi. Consesiynau
vii. Credyd ar gyfer dysgu blaenorol
viii. Cofnod asesu
ix. Ffioedd asesu
x. Lleoliadau asesu
xi. Ymddygiad
xii. Adnabod
xiii. Deunyddiau gwaharddedig
xiv. Deunyddiau a ganiateir
xv. Atebolrwydd
xvi. Testunau a ganiateir
xvii. Trefniadau asesu amgen
xviii. Camymddwyn
xix. Canlyniadau
xx. Pwerau amrywiad

c. Llwybrau Mynediad ACA

Isafswm gofynion addysgol os ydych am hyfforddi ar gyfer yr ACA

Rheoliadau ICAEW CFAB (Tystysgrif mewn Cyllid, Cyfrifeg a Busnes)

163. Os ydych yn astudio Tystysgrif mewn Cyllid, Cyfrifeg a Busnes, bydd y gofynion mynediad, opsiynau credyd a rheoliadau asesu canlynol yn gymwys.

i. Mynediad
ii. Credyd ar gyfer dysgu blaenorol
iii. Ymgais Asesu
iv. Canolfannau asesu a gymeradwyir gan ICAEW
v. Ymddygiad asesu
vi. Adnabod asesu
vii. Deunyddiau a ganiateir mewn canolfan asesu
viii. Dim testunau yn y ganolfan asesu
ix. Trefniadau asesu amgen
x. Atebolrwydd
xi. Camymddwyn
xii. Consesiynau
xiii. Dyfarniad Tystysgrif ICAEW mewn Cyllid, Cyfrifeg a Busnes (ICAEW CFAB)
xiv. Disgrifiad cyhoeddus o ddaliadaeth CFAB ICAEW
xv. Profiad gwaith tuag at yr ACA
xvi. Dehongli
xvii. Modiwlau arholiad

LLB Y Gyfraith, LLB Y Gyfraith (Llwybr Carlam), LLB Ymarfer Cyfreithiol (SQE) ac LLB Cyfiawnder Troseddol

Cynnydd ac Ailasesu

164. Mewn achosion o fethiant rhannol, ni ellir digolledu'r modiwlau canlynol drwy eu pasio oherwydd gofynion y PSRB, oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn unol â chyfarwyddyd tîm y cwrs:

LC1S157 Cyfraith Trosedd
LC2S207 Cyfraith Trosedd
LC1S158 Y Gyfraith a'r Wladwriaeth
LC2S214 Y Gyfraith a'r Wladwriaeth
LC1S160 Cyfraith Contract
LC2S219 Cyfraith Contract
LC1S161 Y Gyfraith Gamweddau
LC2S220 Y Gyfraith Gamweddau
LC2S212 Cyfraith Tir
LC3S231 Cyfraith Tir
LC3S317 Ecwiti a Chyfraith Ymddiriedolaethau

LLB Ymarfer Cyfreithiol (Eithrio)

Cynnydd ac Ailasesu

165. Ar gyfer y modiwlau sgiliau byddwch yn cael ail-asesiad mewn cwrs cyn atgyfeiriad ffurfiol gan fwrdd arholi ac wedyn un atgyfeiriad pellach yn unig, gydag uchafswm o dri ymgais.

166. Ar gyfer unrhyw fodiwl Cam 1 ac eithrio'r modiwl Sgiliau, byddwch yn cael tair ymgais i basio'r modiwl hwnnw.

167. Os byddwch yn methu trydydd ymgais mewn asesiad Cam 1, byddwch yn methu Cam 1 yn ei gyfanrwydd a bydd gofyn i chi ail-gofrestru gyda phresenoldeb ar y modiwlau Cam 1.

168. Os byddwch yn methu trydydd ymgais mewn asesiad Cam 2, gallwch naill ai ail-gofrestru ar y modiwl neu ddewis modiwl Cam 2 arall i'w astudio.

169. Os na fyddwch yn pasio pob modiwl Cam 2 o fewn pum mlynedd o sefyll eich asesiad Cam 1 cyntaf, rhaid i chi gwblhau Cam 1 a 2 unwaith eto, gan gynnwys yr holl asesiadau.

170. Ni chaniateir unrhyw digolledu nac esgusodiad mewn achosion o fethu rhannol ar fodiwl Cam 1 neu Cam 2.

171. Bydd eich trawsgrifiad yn dangos yn glir nifer yr ymgeisiau a wnaethoch chi i lwyddo ym mhob modiwl Cam 1 a Cam 2.

172. Cewch ganiatâd i symud ymlaen i flwyddyn 3 y cwrs gan gario 40 o gredydau o Fodiwlau Proffesiynol.

173. Y marc pasio ar gyfer Cam 1 a Cham 2 modiwlau yw 50%.

Gradd Meistr mewn Cyfrifiadureg (MComp)

Trosglwyddo rhwng Dyfarniadau

174. Rydych wedi cofrestru ar y BSc (Anrh) ar Lefel 4 ac yn parhau ar y cwrs hwnnw tan ddiwedd Lefel 5.

175. I symud ymlaen o Lefel 5 BSc (Anrh) i Lefel 6 o'r cyrsiau MComp mae'n ofynnol i chi gyflawni'r proffil isod:

    a. cwblhau 120 credyd yn llwyddiannus ar Lefel 4 y BSc (Anrh);

    b. cwblhau 120 credyd yn llwyddiannus ar Lefel 5 y BSc (Anrh) gyda phroffil cyffredinol o 50% o leiaf ar draws pob modiwl.

176. I symud ymlaen o Lefel 6 BSc (Anrh) i Lefel 7 y cyrsiau MComp mae gofyn i chi gyflawni'r proffil isod:

    a. cwblhau 120 credyd yn llwyddiannus ar Lefel 4 y BSc (Anrh);

    b. cwblhau 120 credyd yn llwyddiannus ar Lefel 5 y BSc (Anrh) gyda phroffil cyffredinol o 50% o leiaf ar draws pob modiwl;

c. cwblhau 120 credyd yn llwyddiannus ar Lefel 6 y BSc (Anrh) gyda phroffil cyffredinol o 50% o leiaf ar draws pob modiwl.

177. I symud ymlaen o Lefel 6 MComp i Lefel 7 y cyrsiau MComp mae gofyn i chi gyflawni'r proffil isod:

a. cwblhau 120 credyd yn llwyddiannus ar Lefel 4 y BSc (Anrh);

b. cwblhau 120 credyd yn llwyddiannus ar Lefel 5 y BSc (Anrh) gyda phroffil cyffredinol o 50% o leiaf ar draws pob modiwl;

c. cwblhau 120 credyd yn llwyddiannus ar Lefel 6 ar y MComp gyda phroffil cyffredinol o 50% o leiaf ar draws pob modiwl.

ch. Os nad ydych yn pasio ar Lefel 6 y proffil fel y gwelwyd uchod, yna byddwch yn trosglwyddo i'r cwrs BSc (Anrh) neu'n terfynu.

178. Ymdrinnir â Mynediad gyda Dysgu Blaenorol Achrededig ar sail unigol.

Meistr mewn Mathemateg (MMath)

Cynnydd ac Ailasesu

179. Os na fyddwch yn llwyddo i gwblhau 120 credyd ar Lefel 5 MMath Mathemateg gyda chyfartaledd o 60% o leiaf, rhaid i chi drosglwyddo i Lefel 6 BSc Mathemateg.

Graddau Meistr mewn Gwyddoniaeth (MSci) mewn Gwaith Fforensig

Cynnydd ac Ailasesu

180. Os ydych chi'n fyfyriwr ar yr MSci Gwyddoniaeth Fforensig, MSci Bioleg Fforensig, MSci Cemeg Fforensig, MSci Gwyddorau Fforensig gyda Throseddeg neu MSci Ymchwiliad Fforensig o fis Medi 2016:

i. Mae'n rhaid i chi gael gradd isafswm o 50% ar gyfer 120 credyd a astudiwyd ar Lefel 5 i symud ymlaen i Lefel 6. Os na fyddwch yn gwneud hynny, cewch eich trosglwyddo i'r dyfarniad BSc (Anrh) o'r un enw.

ii. Mae'n rhaid i chi gael gradd isafswm o 50% am 120 o gredydau a astudiwyd ar Lefel 6 er mwyn symud ymlaen i Lefel 7.

Graddau Meistr mewn Gwyddoniaeth (MSci) mewn Cemeg a Gwyddor Fferyllol

Cynnydd ac Ailasesu

181. Rhaid i chi sicrhau gradd isafswm o 50% ar gyfer 120 o gredydau a astudiwyd ar Lefel 5 er mwyn symud ymlaen i Lefel 6. Os methwch â gwneud hynny, cewch eich trosglwyddo i'r un dyfarniad BSc (Anrh) a enwir.

182. Rhaid i chi gael gradd isafswm o 50% ar gyfer 120 o gredydau a astudir ar Lefel 6 er mwyn symud ymlaen i Lefel 7.

Gradd Meistr yn y Gyfraith (MLaw)

Isafswm ac Uchafswm Cyfnodau Cofrestru

183. Rhaid i chi basio pob asesiad sy'n ymwneud ag elfennau proffesiynol y cwrs o fewn cyfnod o bum mlynedd.

Grddfeydd Marcio

184. Mae'r elfennau Sgiliau wedi'u graddio ar sail pasio/methu, gyda pasio yn gyfystyr â 'cymwys' a methu yn gyfystyr â 'ddim yn gymwys eto'.

185. Mae gan fodiwlau Lefel 4, 5 a 6 farc pasio o 50%.

186. Mae gan elfen broffesiynol yr asesiad ar gyfer y modiwlau canlynol farc pasio o 50%, ac ni ellir rhoi digolledia ar gyfer methu yn y modiwlau:

a. Cyfraith Eiddo ac Ymarfer (Cod modiwl-LC3S060-Lefel 6) (LC4U106-Lefel 7)

b. Corfforaethol, Cyfraith Busnes ac Ymarfer (Cod modiwl-LC3S038-Lefel 6) LC4U103-Lefel 7)

c. Cyfraith Busnes ac Ymarfer (LC3U101-Lefel 6) (LC4U101-Lefel 7)

ch. Cyfraith Teulu ac Ymarfer (LC3U130-Lefel 6) (LC4U102-Lefel 7)

d. Tystiolaeth Droseddol Ymgyfreitha (LC4U105-Lefel 7)

dd. Gweithdrefn Sifil ac Ymgyfreitha (LC4U104-Lefel 7)

Cynnydd ac Ailasesu

187. Ailasesir sgiliau yn y cwrs cyn eu cyfeirio'n ffurfiol gan fwrdd arholi, yna un atgyfeiriad pellach yn unig.

188. Os byddwch yn methu trydydd ymgais ar asesiad Cam 1, byddwch yn methu Cam 1 yn ei gyfanrwydd a bydd gofyn i chi ail-gofrestru gyda phresenoldeb.

189. Os byddwch yn methu trydydd ymgais ar asesiad Cam 2, byddwch yn methu'r asesiad Cam 2 hwnnw a bydd yn ofynnol i chi ail-gofrestru gyda phresenoldeb.

Gradd Meistr mewn Ceiropracteg (MChiro)

Isafswm ac Uchafswm Cyfnodau Cofrestru

190. Rhaid i chi gyrraedd marc isafswm o 40% ym mhob elfen o bob asesiad i basio unrhyw un o'r modiwlau canlynol:

a. CH1S20 Rheolaeth Glinigol I

b. CH2S14 Diagnosis Clinigol

c. CH2S15 Delweddu a Diagnosis Clinigol I

ch. CH2S16 Rheolaeth Glinigol II

d. CH3S10 Niwro-orthopaedig Glinigol

dd. CH3S20 Diagnosis Clinigol II

e. CH3S18 Delweddu a Diagnosis Clinigol II

f. CH3S19 Rheolaeth Glinigol III

ff. CH3S17 Paratoi Clinigol

g. CH4T02 Clinig Ceiropracteg

ng. CH4S20 Diagnosis a Rheolaeth Glinigol

Modiwlau Ymarfer Clinigol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwaith Cymdeithasol

Cynnydd ac Ailasesu

191. Yn ogystal â phasio'r asesiadau penodedig, rhaid i chi gwblhau'n foddhaol y nifer penodedig o wythnosau lleoliad clinigol i gwblhau'r modiwl.

Tystysgrif Broffesiynol (ProfCE) Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PcET)
Tystysgrif Broffesiynol Ôl-raddedig (TAR) Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PcET)
Tystysgrif Ôl-raddedig (TAR) Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PcET)

Cynnydd ac Ailasesu

192. Rhaid i chi gyflawni isafswm marc o 40% ym mhob elfen o'r asesiad i basio unrhyw fodiwl. Ni chaniateir digolledu.

A3: Rheoliadau Cwrs Ôl-raddedig a Addysgir

Cyflwyniad

1. Yn y rheoliadau hyn, fel y mae cyd-destun yn mynnu, mae "chi" ac "eich" yn golygu'r myfyriwr, prentis neu'r ymgeisydd; mae "ni", "ein" a "ni'n hunain" yn golygu Prifysgol De Cymru neu Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) fel sy'n briodol.

2. Y rhain yw'r rheoliadau cwrs ar gyfer pob gradd a dyfarniad ôl-raddedig a addysgir gan Brifysgol De Cymru:

   a. Tystysgrif a Diploma Ôl-raddedig

   b. Tystysgrif Addysg i Raddedigion

   c. Graddau Meistr *ac eithrio* graddau Meistr Integredig

3. Dylid eu darllen ar y cyd â'r Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Cyrsiau a Addysgir, sydd hefyd yn berthnasol i chi.

4. Mae'r Rheoliadau hyn yn dweud wrthych beth y byddwn yn ei wneud i ddarparu rhaglenni astudio, a'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud fel myfyriwr. Maent yn rhan bwysig o'r contract rhyngom, ac ni fyddant yn newid heb eich cynnwys chi (a all fod gan Undeb y Myfyrwyr sy'n gweithredu ar eich rhan). Rydym yn adolygu'r rheoliadau hyn ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd. Byddwn yn rhoi gwybod i chi adeg ailgofrestru os bydd unrhyw newidiadau.

Derbyniadau

5. Nodir ein meini prawf ar gyfer isafswm mynediad, a'n gofynion mynediad disgwyliedig ar gyfer cyrsiau unigol, ar ein tudalennau gwe a'n prosbectws.

Cyrsiau y mae angen eu Hatgyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)

6. Ar gyfer cyrsiau y mae angen cliriad gwiriad GDG arnynt, rhaid i chi gyflwyno'ch cais GDG o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad dechrau, neu'ch dyddiad trosglwyddo i'r cwrs. Mae angen cliriad digonol er mwyn i chi barhau yn gofrestredig ar eich cwrs. Os na ddechreuwch eich cais GDG o fewn y 14 diwrnod, neu os na fyddwch wedyn yn datgelu gwybodaeth newydd a allai effeithio ar y cliriad sy'n ofynnol i ymgymryd â'ch cwrs, rydym yn cadw'r hawl i gymryd unrhyw gamau priodol a allai gynnwys canslo eich Cofrestriad. Mae'n bosibl y byddwch yn parhau i fod yn atebol am ffioedd dysgu tan y dyddiad y cewch eich tynnu'n ôl, yn unol â Polisi Ffioedd a Dyledion y Brifysgol.

Cydnabod dysgu blaenorol (RPL)

7. Mae Cydnabod Dysgu Ardystiedig Blaenorol (RPCL) yn cyfeirio at gydnabyddiaeth ffurfiol o gredyd a enillwyd naill ai'n fewnol trwy astudiaeth flaenorol ym Mhrifysgol De Cymru neu gredyd a ddyfernir gan sefydliad neu gorff heblaw ni ein hunain. Dim ond ar gyfer dyfarniadau a restrir yn y tabl isod y gellir defnyddio RPCL a rhaid iddo fod ar y lefel briodol. Ni ddyrennir marciau am ddysgu ardystiedig blaenorol lle caiff y credyd ei drosglwyddo o sefydliad arall, ond gellir trosglwyddo marciau ar gyfer credyd mewnol.

8. Mae Cydnabod Dysgu drwy Brofiad (RPEL) yn cyfeirio at gredyd a ddyfarnwyd gan Brifysgol De Cymru mewn cydnabyddiaeth ffurfiol o ddysgu blaenorol, er enghraifft, yn y gweithle. Dim ond tuag at ddyfarniadau a restrir yn y tabl isod y gellir defnyddio RPEL a rhaid ystyried ei fod ar y lefel briodol. Ni ddyrennir marciau ar gyfer dysgu blaenorol drwy brofiad. Dylai cyflwyniadau portffolio ar gyfer RPEL gael eu safoni'n fewnol a'u samplu gan yr Arholwr Allanol yn yr un modd ag asesiadau arferol Prifysgol De Cymru.

9. Mae credyd a addysgir gan Brifysgol De Cymru yn gredyd a gyflawnwyd o fodiwlau Prifysgol De Cymru a addysgir, sy'n cynnwys modiwlau dysgu o bell a dysgu seiliedig ar waith.

10. Mae ceisiadau ar gyfer yr holl RPCL ac RPEL yn gofyn am fapio dysgu blaenorol yn glir i ddeilliannau dysgu modiwlau, wedi'i gymeradwyo gan yr Arweinydd Cwrs, cyn cofrestru.

11. Os dyfernir i chi drosglwyddo credyd am fodiwl a restrir fel rhagofyniad ar gyfer modiwl arall o fewn manyleb cwrs, fe'ch cydnabyddir fel un sydd wedi cyflawni'r rhagofyniad.

12. Mae graddio neu ddosbarthu dyfarniadau Prifysgol De Cymru yn seiliedig ar farciau a enillwyd o gredydau a addysgir gan Brifysgol De Cymru yn unig ac yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau ychwanegol yn y tabl isod. Ni fydd RPL yn cyfrif tuag at ddosbarthiadau dyfarniad.

13. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd gan Fyrddau Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol (PSRBs) ofynion ychwanegol y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn ennill cymhwyster achrededig.

Dyfarniad	**Lefel**	**Credyd wedi'i Drosglwyddo neu Gredyd drwy Brofiad (uchafswm)**	**Credyd a addysgir gan Brifysgol De Cymru (isafswm)**	**Cyfanswm y credydau sydd eu hangen ar gyfer dyfarnu**	
PGCert	7	20	40 ar L7	60	Gellir cymhwyso 20 credyd o Lefel 6
PgDip	7	60	60 ar L7	120	Gellir cymhwyso 30 credyd o Lefel 6
Meistr	7	120	60 ar L7	180	Gellir cymhwyso 30 credyd o Lefel 6
Dyfarniad doethuriaeth a addysgir	8	180	360	540	

Isafswm ac uchafswm cyfnodau cofrestru

14. Mae isafswm ac uchafswm cyfnodau cofrestru ar gyfer cyrsiau o dan y Rheoliadau hyn fel a ganlyn:

Cyfnod cofrestru	**Isafswm**		**Uchafswm**	
Dyfarniad	**Amser llawn**	**Rhan-amser**	**Amser llawn**	**Rhan-amser**
Ôl-raddedig				
Tystysgrif Ôl-raddedig	Blwyddyn	Blwyddyn	*	*
Diploma Ôl-raddedig	Blwyddyn	2fl	*	*
Gradd Meistr[3]	Blwyddyn	2fl	2fl	5ml

[3] *Ar gyfer cyrsiau Meistr a ddilysir i redeg amser llawn dros ddwy flynedd, oherwydd gofynion sylweddol lleoliad/clinigol/seiliedig ar waith, yr isafswm cyfnod cofrestru fyddai 2 flynedd llawn amser*

Doethuriaeth a addysgir	3bl	6bl	*	*
Cymwysterau addysg				
Tystysgrif Ôl-raddedig Addysg i Raddedigion	Blwyddyn	Blwyddyn	*	*

* Fel arfer yr un hyd â'r isafswm cyfnod

Cyfnod cofrestru ar gyfer Myfyrwyr Learna Ltd	**Isafswm**	**Uchafswm**
Dyfarniad		
Tystysgrif Ôl-raddedig	6 mis*	3 mlynedd
Diploma Ôl-raddedig	1 flwyddyn	3 mlynedd
Atodiad i Radd Meistr	1 flwyddyn	3 mlynedd
Gradd Meistr (2 flynedd)	2 flynedd	3 mlynedd

*Mae eich cyfnod cofrestru yn seiliedig ar y blynyddoedd ers eich cofrestriad cyntaf ar gwrs penodol **(gan gynnwys cyfnodau o waharddiad).** Os byddwch yn trosglwyddo cwrs, bydd eich cyfnod cofrestru ond yn ailgychwyn pan fo'r cwrs yn sylweddol wahanol (h.y. heb fodiwlau a rennir a/neu mewn maes pwnc gwahanol).*

Graddfeydd marcio

15. Defnyddir y raddfa ôl-raddedig, yn y tabl isod, ar gyfer pob cwrs a addysgir, lefel Meistr.

Cod	**Gradd (%)**	**Disgrifiad**	**Canlyniad**
	70-100	Pasio gyda Rhagoriaeth	Pasio
	60-69.9	Pasio gyda Theilyngdod	Pasio
	40-59.9	Pasio	Pasio
F1	30-39.9	Methu: methu ffiniol (gellir rhoi digolledíad)	Methu
F2	0-29.9	Methu: methu clir (ni ellir rhoi digolledíad)	Methu

Cynnydd ac Ailasesu

16. Gall pwyntiau cynnydd a dyfarnu amrywio yn dibynnu ar y dull cyflwyno a gallent fod ar gam PGCert, cam PgDip a cham Meistr.

a 3 blynedd rhan amser ac uchafswm y cyfnod cofrestru fyddai 3 blynedd llawn amser a 5 mlynedd rhan amser.

17. Cewch barhau ar yr un cam o'ch cwrs ar yr amod eich bod yn pasio o leiaf 50% o'r credydau a gymerwyd yn y sesiwn academaidd.

18. Os methwch â phasio'r holl gredydau ar y pwynt cynnydd perthnasol, byddwn yn penderfynu a allwch barhau â'ch astudiaethau a sut y gallwch wneud hynny, yn unol â'r pedwar dewis canlynol:

    a. gall y Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant ganiatáu i chi symud ymlaen i gam nesaf y cwrs ac ailadrodd y modiwlau aflwyddiannus ochr yn ochr â'r rhaglen arferol ar gyfer y cyfnod astudio.

    b. gall y Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant ganiatáu i chi aros ar yr un cam ac ailadrodd y modiwlau sydd wedi methu.

    c. gyda chytundeb y Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant, cewch amnewid modiwl arall yn lle un sydd wedi methu, ar yr amod bod gofynion eich cwrs yn cael eu cynnal. Bydd y Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant yn cadarnhau modiwlau amnewid priodol sy'n gorfod eich galluogi i gyflawni deilliannau dysgu eich cwrs o hyd.

    ch. Os yw'r Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant yn fodlon eich bod wedi methu mewn ffordd sy'n awgrymu nad oes unrhyw bosibilrwydd o gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddwch wedi methu'r cwrs a byddwn yn diweddu eich cofrestriad fel myfyriwr. Efallai na chewch eich ail-dderbyn i'r un cwrs neu gwrs tebyg. Dim ond mewn amgylchiadau gwirioneddol eithriadol y bydd aildderbyn i'r un cwrs neu'r un maes pwnc (e.e. materion iechyd meddwl nad oedd wedi'u deall yn flaenorol). Y tîm cwrs Derbyniadau ac Academaidd fydd yn dyfarnu p'un a yw cwrs yn 'debyg' neu beidio, gan ystyried y posibilrwydd o orgyffwrdd cynnwys a'r maes pwnc. Bydd y penderfyniad yn ystyried tystiolaeth ychwanegol nad oedd modd ei hystyried pan wnaeth y Bwrdd asesu y penderfyniad gwreiddiol i'ch terfynu o'ch cwrs.

19. Os oes gennych hawl i ail-ymuno â'r un cwrs, byddwch yn cael eich trin fel myfyriwr sy'n ailadrodd. Os byddwch yn dechrau cwrs newydd mewn maes pwnc newydd, byddwch yn cael eich trin fel myfyriwr newydd.

20. Os ydych yn ailadrodd astudiaeth, byddwch yn cael eich rheoli gan reoliadau cyfredol ac nid y rhai sydd mewn grym pan geisioch y modiwl neu'r flwyddyn astudio am y tro cyntaf.

21. Dim ond y nifer o gredydau sydd eu hangen i ennill y dyfarniad y cewch eu cymryd. Ni allwch gymryd credydau ychwanegol er mwyn gwella dosbarthiad.

Dosbarthiad Dyfarniadau Ôl-raddedig

22. Mae'r Brifysgol yn cynnig ystod o wahanol gyrsiau ôl-raddedig sy'n cwmpasu cyrsiau mynediad graddedig ar Lefel 6 (Anrhydedd) (cyrsiau trosi) a chyrsiau Meistr (ar lefel ôl-raddedig yn bennaf). I dderbyn dyfarniad Meistr, rhaid i'ch rhaglen astudio gynnwys 180 o gredydau y mae'n rhaid i o leiaf 150 ohonynt fod ar Lefel 7 (Meistr) a dim mwy na 30 ar Lefel 6 (Anrhydedd).

Graddau Meistr

23. Byddwn yn cyfrifo cyfartaledd yr holl gredydau sy'n cynnwys y dyfarniad.

24. Byddwn yn dyfarnu

a. Rhagoriaeth os yw eich cyfartaledd yn 69.5% neu'n fwy.

b. Teilyngdod os yw eich cyfartaledd yn 59.5% neu'n fwy ac yn llai na 69.5%.

c. Pasio os yw eich cyfartaledd yn 39.5% neu'n fwy ac yn llai na 59.5%.

Diplomâu Ôl-raddedig

25. Byddwn yn cyfrifo cyfartaledd yr holl gredydau sy'n cynnwys y dyfarniad.

26. Byddwn yn dyfarnu:

a. Rhagoriaeth os yw eich cyfartaledd yn 69.5% neu'n fwy.

b. Teilyngdod os yw eich cyfartaledd yn 59.5% neu'n fwy ac yn llai na 69.5%.

c. Pasio os yw eich cyfartaledd yn 39.5% neu'n fwy ac yn llai na 59.5%.

Tystysgrifau Ôl-raddedig a Thystysgrifau Ôl-raddedig mewn Addysg

27. Byddwn yn cyfrifo cyfartaledd yr holl gredydau sy'n cynnwys y dyfarniad.

28. Byddwn yn dyfarnu:

a. Rhagoriaeth os yw eich cyfartaledd yn 69.5% neu'n fwy.

b. Teilyngdod os yw eich cyfartaledd yn 59.5% neu'n fwy ac yn llai na 69.5%.

c. Pasio os yw eich cyfartaledd yn 39.5% neu'n fwy ac yn llai na 59.5%.

Doethuriaethau Proffesiynol

29. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r elfen o'r rhaglen a addysgir. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r elfen ymchwil a'r dyfarniad gweler y Rheoliadau ar gyfer Graddau Ymchwil

Eithriadau Cwrs

CA4D011 Modiwl Rhagnodi Annibynnol

Graddfeydd marcio

30. Er mwyn pasio'r modiwl, bydd angen i chi gyflawni o leiaf 80% yn yr arholiad MCQ, 100% yn yr arholiad llyfr agored a 100% yn yr asesiad yn y gwaith.

Cyrsiau achrededig gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (IET)

Dosbarthiad Dyfarniadau Ôl-raddedig

31. Ar gyfer cyrsiau MSc achrededig bydd gofyn i chi gyflawni marc cyfartalog o 50% neu fwy am set o fodiwlau a astudir i ennill dyfarniad Meistr achrededig. Y marc pasio ar gyfer pob modiwl Lefel 7 fydd 50%. Os bodlonir yr amod hwn:

a. Fel arfer, bydd hawl gennych i ailsefyll hyd at 50% o'r set o fodiwlau a addysgir ar gyfer casglu credydau.

b. Fel arfer, caniateir i chi ailsefyll y prosiect ar gyfer cronni credyd yn unig.

32. Os oes gennych un modiwl yn yr ystod 40%-50% ar ôl atgyfeirio, byddwch fel arfer yn gymwys i gael digolledu yn y modiwl hwnnw, ac eithrio prif fodiwl y prosiect Meistr.

33. Os byddwch yn methu â bodloni'r meini prawf ar gyfer dyfarniad achrededig, fe'ch asesir ar gyfer MSc anachrededig.

Doethur mewn Gweinyddu Busnes

Cynnydd ac Asesu

34. Er mwyn symud ymlaen i lefel 8 y cwrs, rhaid i chi gyflawni marc cyffredinol gofynnol o 60% ar gyfer y modiwl BU4T02, Adroddiad Ymchwil Annibynnol. Os byddwch yn cyflawni marc cyffredinol o 40%-59%, ni fyddwch wedi dangos digon o gyflawniad i symud ymlaen i lefel 8.

35. Os na fyddwch yn symud ymlaen i lefel 8 bydd yn rhaid i chi adael y cwrs ac yn ennill MSc Ymchwil Rheoli.

Rhaglenni Addysg

Cynnydd ac Ailasesu

36. Yn ogystal â phasio'r asesiadau penodedig, rhaid i chi gwblhau'n foddhaol y nifer penodedig o wythnosau lleoliad proffesiynol i gwblhau'r modiwl.

37. Ar gyfer modiwlau penodol, rhaid i chi basio pob elfen o'r asesiad yn unigol i basio'r modiwl.

Cwrs Ymarfer Cyfreithiol

Cydnabod Dysgu Blaenorol

38. Byddwn yn dyfarnu credyd am ddysgu ardystiedig ymlaen llaw yn unig gan ddarparwr ardystiedig Corff Proffesiynol arall.

39. Mae angen 170 o gredydau i gyd ar y PgDip Ymarfer Cyfreithiol. Felly, bydd y credyd mwyaf a drosglwyddir yn 100 o gredydau, yn amodol ar baragraff 28.

Isafswm ac uchafswm cyfnodau cofrestru

40. Bydd gennych bum mlynedd o'ch ymgais gyntaf i gwblhau'r cwrs.

Graddfeydd Marcio

41. Caiff modiwlau sgiliau eu hasesu ar sail pasio/methu, gyda graddau 'Cymwys' a 'Ddim yn gymwys eto'.

42. Y marc pasio ar gyfer modiwlau cam 1 a cham 2 yw 50%.

Cynnydd ac Ailasesu

43. Ar gyfer y modiwlau Sgiliau byddwch yn cael ail-asesiad mewn cwrs cyn atgyfeiriad ffurfiol gan fwrdd arholi ac wedyn un atgyfeiriad pellach yn unig, gydag uchafswm o dri ymgais;

44. Ar gyfer unrhyw fodiwl Cam 1 ac eithrio'r modiwl sgiliau, byddwch yn cael tair ymgais i basio'r modiwl hwnnw;

45. Os byddwch yn methu trydydd ymgais mewn asesiad Cam 1, byddwch yn methu Cam 1 yn ei gyfanrwydd a bydd gofyn i chi ail-gofrestru gyda phresenoldeb ar y modiwlau Cam 1;

46. Os byddwch yn methu trydydd ymgais mewn asesiad Cam 2, gallwch naill ai ail-gofrestru ar y modiwl neu ddewis modiwl Cam 2 arall i'w astudio;

47. Os na fyddwch yn pasio pob modiwl Cam 2 o fewn pum mlynedd o sefyll eich asesiad Cam 1 cyntaf, rhaid i chi gwblhau Cam 1 a 2 unwaith eto, gan gynnwys yr holl asesiadau;

48. Ni chaniateir unrhyw digolledu na chydoddefiad mewn achosion o fethu rhannol ar fodiwl Cam 1 neu Gam 2.

49. Bydd eich trawsgrifiad yn dangos yn glir nifer yr ymdrechion a wnaethoch chi i lwyddo ym mhob modiwl Cam 1 a Cham 2.

LLM mewn Ymarfer Cyfreithiol

Cydnabod Dysgu Blaenorol

50. Mae'r LLM mewn Ymarfer Cyfreithiol yn gofyn am gyfanswm o 230 credyd. Felly uchafswm y credyd a drosglwyddir fydd 170 credyd, yn ddarostyngedig i baragraff 28.

51. Y marc pasio ar gyfer modiwlau Cam 1 a Cham 2 yw 50%.

Ymarfer Proffesiynol LLM (51)

Strwythur Credyd

52. Mae'r LLM Ymarfer Proffesiynol angen 200 credyd cwrs ar gyfer dyfarniad.

MA Seicotherapi Celf

Graddfeydd Marcio

53. Rhaid i chi gyrraedd isafswm marc o 40% ym mhob elfen o bob asesiad i basio unrhyw fodiwl.

Cynnydd ac Ailasesu

54. Os byddwch yn methu 40 credyd o'r 60 o gredydau yr ydych wedi cofrestru arnynt, efallai y cewch hawl i ailsefyll.

MA mewn Therapi Cerdd

Graddfeydd Marcio

55. Rhaid i chi ennill isafswm marc o 40% ym mhob elfen o bob asesiad i lwyddo mewn unrhyw fodiwl.

Cynnydd ac Asesu

56. Os byddwch yn methu 40 credyd o'r 60 credyd yr ydych wedi cofrestru arnynt, efallai y cewch gyfle i ailsefyll.

MA Gweithio dros Blant a Phobl Ifanc (Cymhwyso Dechreuol Gwaith Ieuenctid)

Graddfeydd Marcio

57. Rhaid i chi fodloni'r deilliannau dysgu cyffredinol ar gyfer y modiwl heb unrhyw wendidau er mwyn ennill gradd pasio. Diffinnir gwendid fel llai na 40% ac fe neilltuir Gradd F2 i'r modiwl. Rhaid i unrhyw ganlyniad dysgu penodol y mae'n rhaid ei basio er mwyn i'r modiwl gael ei basio gael ei nodi ym manyleb y modiwl.

58. Defnyddir y raddfa ôl-raddedig, yn y tabl isod, ar gyfer y cwrs hwn.

Cod	Gradd (%)	Disgrifiad	Canlyniad
	70-100	Pasio gyda Rhagoriaeth	Pasio
	60-69.9	Pasio gyda Theilyngdod	Pasio
	40-59.9	Pasio	Pasio
F2	0-39.9	Methu: methu clir (ni ellir rhoi digolledia d)	Methu

MSc Ymarferydd Clinigol Uwch

Cynnydd ac Ailasesu

59. Os byddwch yn methu'r modiwl Rhagnodi Annibynnol 40 credyd ac felly wedi methu mwy na 50% o'r credydau a gymerwyd yn y flwyddyn academaidd, mae'r Bwrdd yn cadw'r hawl i gynnig cyfleoedd i ailsefyll, i'ch helpu i reoli eich rhaglen astudio yn well.

MSc Dadansoddi Ymddygiad a Therapi

Strwythur Credyd

60. Byddwch yn astudio 200 credyd i gwblhau'r cwrs, er mwyn ymdrin â chwricwlwm gofynnol y Bwrdd Ardystio Dadansoddi Ymddygiad.

Graddfeydd Marcio

61. Rhaid i chi gyflawni isafswm marc cyffredinol o 50% er mwyn pasio pob modiwl.

62. Os byddwch yn ailsefyll unrhyw asesiadau, byddwch yn derbyn uchafswm marc modiwl cyffredinol o 50%.

63. Os byddwch yn ailadrodd unrhyw fodiwlau, byddwch yn derbyn uchafswm marc cyffredinol y modiwl o 50%.

MSc/MEng mewn Peirianneg Sifil

Asesu

64. Rhaid darparu tystiolaeth bod holl ddeilliannau dysgu Rhaglenni Achredu Addysg Uwch (AHEP) yn cael eu bodloni gan bob amrywiad o bob rhaglen cyn y gellir caniatáu achrediad.

65. Ni chaniateir cymeradwyo modiwlau sy'n cyflwyno deilliannau dysgu AHEP.

66. Gellir digolledu uchafswm o 30 credyd mewn rhaglen Baglor neu radd Meistr integredig, ac uchafswm o 20 credyd mewn gradd Meistr heblaw'r radd Meistr integredig.

Graddfeydd Marcio

67. Nid yw isafswm marc y modiwl y caniateir ei ddigolledu yn fwy na 10% islaw marc pasio enwol y modiwl (neu gyfwerth os defnyddir cynllun marcio ar sail gradd).

MSc Astudiaethau Iechyd Cymunedol (Nyrsio Ymarferydd Arbenigol) V100

Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL)

68. Os ydych wedi ennill cymhwyster rhagnodi V150/V100 o sefydliad arall a bod gennych gofrestriad cyfredol gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fel Ymarferydd Nyrsio Cymunedol sy'n rhagnodi, efallai y cewch ganiatâd i ddefnyddio RPL i'ch eithrio o'r elfen V100 (asesiad ysgrifenedig llyfr agored) asesu o fewn CA3S069 Y Gyfraith, Moeseg a Rhagnodi gan Nyrsys. Rhoddir marc pasio o 40% i chi ar gais llwyddiannus RPL.

MSc Gwella Ymarfer Clinigol

Cynnydd ac Asesu

69. Mae'n rhaid i chi gyflawni isafswm marc o 40% ym mhob elfen o bob asesiad i basio modiwl AU4D013 Asesiad Clinigol a Diagnosteg.

70. Mae'n rhaid i chi gyflawni isafswm marc o 40% ym mhob elfen o bob asesiad i lwyddo yn y modiwl AU4D020 Gwella Ymarfer Clinigol.

Dyfarniadau Ymadael

71. I fod yn gymwys ar gyfer dyfarniad ymadael naill ai Tystysgrif Ôl-raddedig neu Ddiploma Ôl-raddedig mewn Ymarfer Clinigol Uwch, rhaid i chi fod wedi cwblhau'r modiwl a enwir AU4D020, Gwella Ymarfer Clinigol yn llwyddiannus. Bydd methu â phasio modiwl AU4D020 Gwella Ymarfer Clinigol yn golygu y byddwch yn gadael y cwrs gyda Thystysgrif Ôl-raddedig neu Ddiploma Ôl-raddedig mewn Astudiaethau Gofal Iechyd.

MSc Therapi Chwarae

Graddfeydd Marcio

72. Rhaid i chi gyflawni isafswm marc o 40% ym mhob elfen o bob asesiad i basio unrhyw fodiwl.

MSc Seicoleg (Trosi)

Graddfeydd Marcio

73. Mae'n rhaid i chi ennill isafswm marc o 50% er mwyn llwyddo ym mhob modiwl.
Bydd marciau rhwng 40% a 49.9% yn cael eu dosbarthu fel methu ffiniol (F1) a bydd marciau rhwng 0% a 39.9% yn cael eu dosbarthu fel methu diamau (F2).
Os byddwch yn ailsefyll unrhyw asesiadau, byddwch yn derbyn uchafswm marc cyffredinol o 50%.
Os byddwch yn ailadrodd unrhyw fodiwlau, byddwch yn derbyn uchafswm marc cyffredinol o 50%.

Dosbarthiad Graddau Meistr

74. Byddwn yn dyfarnu:

a. Rhagoriaeth os yw eich cyfartaledd yn 69.5% neu fwy

b. Teilyngdod os yw eich cyfartaledd yn 59.5% neu fwy ac yn llai na 69.5%

c. Llwyddo os yw eich cyfartaledd yn 49.5% neu fwy ac yn llai na 59.5%

PGCert Ymarfer Rhagnodi Annibynnol

Graddfeydd Marcio

75. O fewn y modiwl Rhagnodi 40 credyd, rhaid i chi gyflawni isafswm marc o 40% ym mhob elfen o'r asesiad i basio'r modiwl, ac eithrio'r arholiad cyfrifo meddyginiaethau y mae'n rhaid i chi ei basio gyda 100% a'r arholiad ffarmacoleg y mae'n rhaid i chi ei basio gyda marc isafswm o 80%.

Cynnydd ac Ailasesu

76. Ni chaniateir ichi ailadrodd modiwl, fodd bynnag, os methwch yn yr ail eisteddiad, efallai y caniateir trydydd ymgais eithriadol.

77. Os byddwch yn methu'r modiwl Rhagnodi Annibynnol 40 credyd ac felly wedi methu mwy na 50% o'r credydau a gymerwyd yn y flwyddyn academaidd, mae'r Bwrdd yn cadw'r hawl i gynnig cyfleoedd i ailsefyll, i'ch helpu i reoli eich rhaglen astudio yn well.

PGCert Gofal Lliniarol

Isafswm ac Uchafswm Cyfnodau Cofrestru

78. Bydd gan fyfyrwyr rhan-amser isafswm ac uchafswm cyfnod cofrestru o dair blynedd.

CA4D013 Rhagnodi Annibynnol/Atodol ar gyfer Cofrestryddion NMC

CA4D012 Rhagnodi Annibynnol/Atodol ar gyfer CFfC a HCPC

CA3S080 Y Gyfraith, Moeseg a Rhagnodi gan Nyrsys

CA4S086 Y Gyfraith, Moeseg a Rhagnodi gan Nyrsys

CA3S069 Y Gyfraith, Moeseg a Rhagnodi gan Nyrsys

CA4S084 Y Gyfraith, Moeseg a Rhagnodi gan Nyrsys

CA3S075 V100 Rhagnodi gan Nyrsys a Datblygiadau Cyfoes mewn Ymarfer Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol - Ymwelwyr Iechyd

Graddfeydd Marcio

79. Mae'n rhaid i chi ennill isafswm marc o 40% ym mhob elfen o asesiad i lwyddo yn y modiwl, ac eithrio'r arholiad cyfrifo meddyginiaethau y mae'n rhaid i chi ei basio gyda 100% a'r arholiad ffarmacoleg y mae'n rhaid i chi ei basio gydag isafswm marc o 80%.

Cynnydd ac Ailasesu

80. Ni chaniateir i chi ail-wneud modiwl, fodd bynnag os byddwch yn methu yn yr ail sefyll, mae'n bosibl y caniateir trydydd ymgais eithriadol i chi.

MA Addysg (Cymru) – pob llwybr

Graddfeydd Marcio

81. Rhaid i chi gyflawni isafswm marc o 50% ym mhob elfen o'r asesiad i basio unrhyw fodiwl ac ni chaniateir digolledu. Bydd marc cyffredinol y modiwl ar gyfer unrhyw ailsefyll yn cael ei gapio ar 50%.

Cynnydd ac Ailasesu

82. Os cawsoch eich cyfeirio at eich ail ymgais, ni chaniateir ichi ailadrodd modiwlau a fethwyd ond gallwch gynnal trydydd eisteddiad. Bydd hyn yn berthnasol i fodiwlau a addysgir yn unig ac ni fydd yn berthnasol i'ch dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd (traethawd estynedig). Os cawsoch eich cyfeirio at eich ail ymgais o'ch traethawd

estynedig, cewch eich ystyried ar gyfer dyfarnu Diploma Ôl-raddedig Addysg (Cymru) fel dyfarniad gadael.

83. Rhaid i chi basio pob modiwl ac ni fyddwch yn gymwys i gael digolledi ad mewn achosion o fethu ffiniol.

84. Os byddwch yn methu'ch traethawd estynedig yn yr eisteddiad cyntaf ac yn cael aileistedd gan y Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant, bydd gofyn i chi dalu ffi i ailsefyll. Nodir y swm yn eich Llawlyfr Cwrs.

Dosbarthiad

85. Byddwn yn cyfrifo'ch dosbarthiad ar sail cyfartaledd yr holl gredydau sy'n rhan o'r dyfarniad. Byddwn yn dyfarnu:

a. Rhagoriaeth os yw'ch cyfartaledd yn 70% neu fwy
b. Teilyngdod os yw'ch cyfartaledd rhwng 60% a 69.99%
c. Pasio os yw'ch cyfartaledd rhwng 50% a 59.99%

Cymwysterau Gadael

86. Os byddwch chi'n gadael y cwrs gyda chredyd digonol ar gyfer cymhwyster canolradd, dosberthir eich cymhwyster gadael fel a ganlyn:

Dyfarniad	Rhagoriaeth	Teilyngdod	Pasio
Tystysgrif Ôl-raddedig	70%+	60-69.99%	50-59.99%
Diploma Ôl-raddedig	70%+	60-69.99%	50-59.99%

Terfynau RPL

87. Uchafswm y credyd y caniateir ichi ei drosglwyddo i'r cwrs yw 60 credyd, a astudiwyd ar Lefel 7, mewn maes perthnasol, a gafwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf cyn eich derbyn.

TAR PcET

Graddfeydd marcio

88. Rhaid i chi gyrraedd isafswm marc o 40% ym mhob elfen o bob asesiad i basio unrhyw fodiwl.

Tystysgrif Ôl-raddedig Sgiliau Cwnsela, Tystysgrif Ôl-raddedig Sgiliau Cwnsela Integreiddiol, Diploma Ôl-raddedig Cwnsela Integreiddiol a Diploma Ôl-raddedig Seicotherapi Ymddygiad Gwybyddol, MA Cwnsela Integreiddiol, MSc Seicotherapi Ymddygiad Gwybyddol

Graddfeydd marcio

89. Rhaid i chi gyrraedd isafswm marc cyffredinol o 40% er mwyn pasio pob modiwl.

Tystysgrif Ôl-raddedig AAA/ADY (Awtistiaeth), Tystysgrif Ôl-raddedig Arweinyddiaeth a Rheolaeth (Addysg), Tystysgrif Ôl-raddedig AAA/ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol), Tystysgrif Ôl-raddedig CAMH

Cyfyngiadau Cydnabod Dysgu Blaenorol

90. Cewch wneud cais am gydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol am hyd at 30 o gredydau.

Diploma Ôl-raddedig Ymarfer dan Oruchwyliaeth ar gyfer Dadansoddi Ymddygiad

Graddfeydd Marcio

91. Mae'r Bwrdd Ardystio Dadansoddi Ymddygiad (BACB) yn mynnu bod myfyrwyr yn cwblhau'r holl “waith cwrs” gyda gradd gyfartalog o ‘C’ er mwyn cael achrediad.

92. Y marc pasio ar gyfer y cwrs hwn yn ei gyfanrwydd ac ar gyfer pob modiwl sydd ynddo yw 50%. Ni fydd myfyrwyr sy'n cael digolledu yn gymwys i dderbyn achrediad.

    Defnyddir y raddfa ôl-raddedig, yn y tabl isod, ar gyfer y cwrs hwn.

Cod	Graddfa (%)	Disgrifiad	Canlyniad
70-100	Pasio gyda Rhagoriaeth	Pasio	
60-69.9	Pasio gyda Teilyngdod	Pasio	
50-59.9	Pasio	Pasio	
F2	<50	Methu: methu clir (ni chynigir digolledi)	Methu

Diploma Ôl-raddedig Seicotherapi Gwybyddol ac Ymddygiadol

Graddfeydd marcio

93. Rhaid i chi gyrraedd isafswm marc o 40% ym mhob elfen o bob asesiad i basio unrhyw fodiwl.

Cynnydd ac Ailasesu

94. Os byddwch yn methu 40 credyd o'r 60 o gredydau yr ydych wedi cofrestru arnynt, efallai y cewch hawl i ailsefyll.

Diploma Ôl-raddedig mewn Nyrsio

Dilyniant ac Asesu

95. Nid oes rhaid i fyfyrwyr sydd â statws ailadrodd ail-wneud yr elfennau ymarfer clinigol ar gyfer y modiwl, fodd bynnag mae cyfyngiad amser o 12 mis ar gyfer ail-wneud yr elfennau eraill er mwyn i hyn barhau.

Doethuriaeth Broffesiynol mewn Seicoleg Cwnsela

Graddfeydd marcio

96. Rhaid i chi gyflawni marc o 50% ym mhob elfen o asesu er mwyn pasio pob modiwl.

97. Os byddwch yn ailsefyll unrhyw asesiadau, byddwch yn cael uchafswm marc modiwl cyffredinol o 50%.

98. Os ydych chi'n ailadrodd unrhyw fodiwlau, byddwch yn derbyn uchafswm marc modiwl cyffredinol o 50%.

Cyrsiau Ôl-raddedig yn yr Ysgol Peirianneg

Cynnydd ac Ailasesu

99. Caniateir yr un cyfle i fyfyrwyr sy'n cael eu cyd-addysgu i ailsefyll trwy ganiatáu i fyfyrwyr ailsefyll cyn cyrraedd y pwynt cynnydd.

    Mae hyn yn berthnasol i gyrsiau lefel Meistr yn yr Ysgol Beirianneg yn unig gyda charfannau mis Chwefror a mis Medi.

A4: Rheoliadau Cwrs – Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Cyflwyniad

1. Yn y rheoliadau hyn, fel y mae cyd-destun yn mynnu, mae "chi" ac "eich" yn golygu'r myfyriwr neu'r ymgeisydd; mae "ni", "ein" a "ni'n hunain" yn golygu Prifysgol De Cymru neu Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) fel sy'n briodol.

2. Dyma'r Rheoliadau Cwrs ar gyfer yr holl raglenni yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

3. Dylid eu darllen ar y cyd â'r Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Cyrsiau a Addysgir, sydd hefyd yn berthnasol i chi.

4. Mae'r Rheoliadau hyn yn dweud wrthych beth y byddwn yn ei wneud i ddarparu rhaglenni astudio, a'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud fel myfyriwr. Maent yn rhan bwysig o'r contract rhyngom, ac ni fyddant yn newid heb eich cyfraniad chi (a all fod gan Undeb y Myfyrwyr sy'n gweithredu ar eich rhan). Rydym yn adolygu'r Rheoliadau hyn ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd. Byddwn yn rhoi gwybod i chi adeg ailgofrestru os bydd unrhyw newidiadau.

Derbyniadau

5. Nodir isafswm ein meini prawf sylfaenol, a'n gofynion mynediad disgwyliedig ar gyfer cyrsiau unigol, ar ein tudalennau gwe ac yn ein prosbectws, a thrwy wefan UCAS a gallant gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).

Cydnabod dysgu blaenorol (RPL)

6. Mae Cydnabod Dysgu Ardystiedig Blaenorol (RPCL) yn cyfeirio at gydnabyddiaeth ffurfiol o gredyd a enillwyd naill ai'n fewnol trwy astudiaeth flaenorol ym Mhrifysgol De Cymru neu gredyd a ddyfernir gan sefydliad neu gorff heblaw ni ein hunain. Dim ond ar gyfer dyfarniadau a restrir yn y tabl isod y gellir defnyddio RPCL a rhaid iddo fod ar y lefel briodol. Ni ddyrennir marciau am ddysgu ardystiedig blaenorol lle caiff y credyd ei drosglwyddo o sefydliad arall, ond gellir trosglwyddo marciau ar gyfer credyd mewnol.

7. Mae Cydnabod Dysgu drwy Brofiad (RPEL) yn cyfeirio at gredyd a ddyfarnwyd gan Brifysgol De Cymru mewn cydnabyddiaeth ffurfiol o ddysgu blaenorol, er enghraifft, yn y gweithle. Dim ond tuag at ddyfarniadau a restrir yn y tabl isod y gellir defnyddio RPEL a rhaid ystyried ei fod ar y lefel briodol. Ni ddyrennir marciau ar gyfer dysgu blaenorol drwy brofiad. Dylai cyflwyniadau portffolio ar gyfer RPEL gael eu safoni'n fewnol a'u samplu gan yr Arholwr Allanol yn yr un modd ag asesiadau arferol Prifysgol De Cymru.

8. Mae credyd a addysgir gan Brifysgol De Cymru yn gredyd a gyflawnwyd o fodiwlau Prifysgol De Cymru a addysgir, sy'n cynnwys modiwlau dysgu o bell a dysgu seiliedig ar waith.

9. Mae ceisiadau ar gyfer yr holl RPCL ac RPEL yn gofyn am fapio dysgu blaenorol yn glir i ddeilliannau dysgu modiwlau, wedi'i gymeradwyo gan yr Arweinydd Cwrs, cyn cofrestru.

10. Os dyfernir i chi drosglwyddo credyd am fodiwl a restrir fel rhagofyniad ar gyfer modiwl arall o fewn manyleb cwrs, fe'ch cydnabyddir fel un sydd wedi cyflawni'r rhagofyniad.

11. Mae graddio neu ddosbarthu dyfarniadau Prifysgol De Cymru yn seiliedig ar farciau a enillwyd o gredydau a addysgir gan Brifysgol De Cymru yn unig ac yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau ychwanegol yn y tabl isod. Ni fydd RPL yn cyfrif tuag at ddosbarthiadau dyfarniad.

12. Mewn rhai achosion, efallai y bydd gan Gyrff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddio (PSRBs) ofynion ychwanegol y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn cyflawni cymhwyster achrededig.

Dyfarniad	**Lefel**	**Credyd Trosglwyddadwy neu gredyd drwy brofiad (uchafswm)**	**Credyd Prifysgol De Cymru a addysgir (isafswm)**	**Cyfanswm y credydau sydd eu hangen ar gyfer dyfarnu**	**Cyfyngiadau ychwanegol**
CertHE	4	60	60 ar L4	120	Heb eu graddio pan gânt eu defnyddio fel dyfarniad ymadael.
DipHE	5	120	120 gydag isafswm o 100 ar L5	240	Ni chaiff DipHE ei raddio pan y'i rhoddir fel dyfarniad ymadael.
Gradd Baglor	6	240	60 ar L6	300	Defnyddir fel dyfarniad ymadael ar gyfer gradd Baglor gydag anrhydedd yn unig, heb ei raddio.
Gradd Baglor gydag anrhydedd	6	240	120 gydag isafswm o 100 ar L6	360	Caiff myfyrwyr sydd ag o leiaf 60 credyd Prifysgol De Cymru ar Lefel 5 a 120 credyd ar Lefel 6, a gafwyd ar y radd anrhydedd, eu dosbarthu yn ôl y rheoliadau safonol. Fel arall, seilir y dosbarthiad ar y 120 o gredydau Prifysgol De Cymru.
BMus	6	240	120 ar L6	400	Defnyddir fel dyfarniad ymadael ar gyfer gradd BMus gydag anrhydedd yn unig, heb ei raddio.
BMus gydag anrhydedd	6	240	180 ar L6	480	Caiff myfyrwyr sydd ag o leiaf 90 credyd Prifysgol De Cymru ar L5 a 180 ar L6, a gafwyd ar y radd anrhydedd, eu dosbarthu yn ôl y Rheoliadau BMus safonol. Fel arall, seilir y dosbarthiad ar y 180 o gredydau Prifysgol De Cymru.

Dyfarniad	Lefel	Credyd Trosglwyddadwy neu gredyd drwy brofiad (uchafswm)	Credyd Prifysgol De Cymru a addysgir (isafswm)	Cyfanswm y credydau sydd eu hangen ar gyfer dyfarnu	Cyfyngiadau ychwanegol
Gradd Sylfaen	5	120	120 gydag isafswm o 100 ar L5	240	
PGCert	7	20	40 ar L7	60	
PgDip	7	60	60 ar L7	120	
Meistr	7	120	60 ar Lefel 7	180	

Isafswm ac uchafswm cyfnodau cofrestru

13. Mae isafswm ac uchafswm cyfnodau cofrestru ar gyfer cyrsiau o dan y Rheoliadau hyn fel a ganlyn:

Cyfnod cofrestru	**Isafswm**		**Uchafswm**	
Dyfarniad	**Amser llawn**	**Rhan-amser**	**Amser llawn**	**Rhan-amser**
Cyrsiau israddedig				
Gradd sylfaen	2fl	3bl	4 bl	10ml
Gradd anrhydedd (rhaglen 3 blynedd)	3 bl	4 bl	5 ml	10ml
Gradd anrhydedd (rhaglen 4 blynedd)	4 bl	4 bl	6 bl	10ml
Meistr				
Diploma ôl-raddedig	1bl	2fl	*	*
Gradd Meistr (ac eithrio MRes)	1bl	2fl	2fl	5ml

* Fel arfer yr un hyd â'r isafswm cyfnod

Graddfeydd marcio

14. Mae'r raddfa farcio israddedig yn alinio'r graddau gyda dosbarthiadau gradd cydnabyddedig fel yn y tabl isod.

Cod	**Gradd (%)**	**Disgrifiad**	**Cyfwerth â gradd Anrhydedd**
	70-100	Pasio	Cyntaf
	60-69	Pasio	Ail uchaf
	50-59	Pasio	Ail isaf
	40-49	Pasio	Trydydd
F1	30-39	Methu: methu ffiniol (gellir rhoi digolledia d)	Methu
F2	0-29	Methu: methu clir (ni ellir rhoi digolledia d heblaw am fyfyrwyr Lefel 4)	Methu

Cynnydd ac Ailasesu

15. Fel arfer, rhaid i chi gronni 120 o gredydau er mwyn symud ymlaen o un Lefel israddedig i'r nesaf.

16. Cewch barhau ar yr un Lefel o'ch cwrs, yn ddibynnol ar basio o leiaf 50% o'r credydau a gymerir yn y sesiwn academaidd.

17. Os methwch â phasio 120 o gredydau ar y Lefel astudio berthnasol, byddwn yn penderfynu a allwch barhau â'ch astudiaethau a sut y gallwch wneud hynny, yn unol â'r pedwar dewis canlynol:

a. Gall y Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant ganiatáu i chi symud ymlaen i Lefel nesaf y cwrs ac ailadrodd y modiwlau sydd wedi methu (hyd at uchafswm o 20 credyd) yn ogystal â'ch rhaglen astudio arferol.

b. Gall y Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant ganiatáu i chi aros ar yr un Lefel (blwyddyn ailadrodd) a naill ai:

i. ailadrodd y modiwlau sydd wedi methu a chymryd modiwlau ychwanegol. (Dim ond os bydd unrhyw fodiwlau angenrheidiol wedi'u cwblhau'n foddhaol y gellir cymryd unrhyw fodiwlau Lefel uwch); neu;

ii. ailadrodd y modiwlau a fethwyd yn unig.

c. Gyda chytundeb y Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant, cewch amnewid modiwl arall yn lle un sydd wedi methu, ar yr amod bod gofynion eu cyrsiau yn cael eu cynnal. Cyfyngir amnewid i 20 credyd fesul Lefel o gwrs israddedig.

i. Bydd y Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant yn cadarnhau modiwlau amnewid priodol.

ch. Os yw'r Bwrdd Asesu Dyfarnu a Dilyniant yn fodlon eich bod wedi methu mewn ffordd sy'n awgrymu nad oes unrhyw bosibilrwydd o gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddwch wedi methu'r cwrs a byddwn yn diweddu eich cofrestriad fel myfyriwr.

18. Os ydych chi'n ailadrodd astudiaeth byddwch chi'n cael eich llywodraethu gan reoliadau cyfredol ac nid y rhai sydd mewn grym pan wnaethoch chi roi cynnig ar y modiwl neu'r flwyddyn astudio gyntaf.

19. Dim ond nifer y credydau sy'n ofynnol i gyflawni'r dyfarniad y cewch chi eu cymryd. Ni chewch gymryd credydau ychwanegol er mwyn gwella dosbarthiad.

Cymhwystra ar gyfer dyfarniadau

Cyrsiau tair blynedd

20. I fod yn gymwys ar gyfer dyfarniad y graddau tair blynedd canlynol:

    a. BA Anrh mewn Actio

    b. BA Anrh mewn Cynllunio ar gyfer Perfformio

    c. BA Anrh mewn Rheoli Llwyfan a Theatr Dechnegol

    mae'n rhaid eich bod wedi ennill 360 o gredydau gan gynnwys 120 ar Lefel 4, 120 ar Lefel 5, a 120 ar Lefel 6.

21. I fod yn gymwys i gael dyfarniad ymadael Diploma Addysg Uwch mae'n rhaid eich bod wedi cyflawni isafswm o 240 credyd, y mae'n rhaid i o leiaf 120 ohonynt fod ar Lefel 5 neu'n uwch a 120 ar Lefel 4 neu'n uwch.

22. I fod yn gymwys i gael dyfarniad ymadael Tystysgrif Addysg Uwch mae'n rhaid i chi fod wedi cyflawni isafswm o 120 credyd ar Lefel 4 neu uwch.

Cyrsiau pedair blynedd

23. I fod yn gymwys i ennill y graddau pedair blynedd canlynol:

    a. BMus mewn Cerddoriaeth

    b. BMus mewn Jazz

    mae'n rhaid eich bod wedi ennill 480 o gredydau gan gynnwys 120 ar Lefel 4, 180 ar Lefel 5, a 180 ar Lefel 6.

24. I fod yn gymwys i gael dyfarniad ymadael Diploma Addysg Uwch mae'n rhaid eich bod wedi ennill o leiaf 240 o gredydau, y mae'n rhaid i o leiaf 120 ohonynt fod ar Lefel 5 neu'n uwch.

25. I fod yn gymwys i gael dyfarniad ymadael Tystysgrif Addysg Uwch mae'n rhaid i chi fod wedi cyflawni isafswm o 120 credyd ar Lefel 4 neu uwch.

Dyfarniadau ôl-raddedig

26. I fod yn gymwys i gael Tystysgrif Ôl-raddedig, a ddyfernir gan Brifysgol De Cymru, mae'n rhaid eich bod wedi dilyn y cynllun astudio cymeradwy, ac wedi cyrraedd isafswm o 60 o gredydau y bydd o leiaf 40 ohonynt ar Lefel 7 ac y mae'n rhaid iddynt gynnwys y modiwl Perfformiad (MUMP710) neu ei gyfatebol uniongyrchol yn y fframwaith dyfarnu Ôl-radd.

27. I fod yn gymwys i gael Diploma Ôl-raddedig, a ddyfernir gan Brifysgol De Cymru, mae'n rhaid eich bod wedi dilyn y cynllun astudio cymeradwy, ac wedi cyrraedd isafswm o 120 o gredydau y bydd o leiaf 100 ohonynt ar Lefel 7.

28. I fod yn gymwys i gael gradd Meistr, a ddyfernir gan Brifysgol De Cymru, mae'n rhaid eich bod wedi dilyn y cynllun astudio cymeradwy, ac wedi cyrraedd isafswm o 180 o gredydau y bydd o leiaf 160 ohonynt ar Lefel 7.

Graddfeydd marcio

29. Defnyddir y raddfa isod ar gyfer pob cwrs lefel Meistr a addysgir mewn Cerddoriaeth.

Cod	**Gradd (%)**	**Disgrifiad**	**Canlyniad**
	70-100	Pasio gyda Rhagoriaeth	Pasio
	60-69.9	Pasio gyda Theilyngdod	Pasio
	50-59.9	Pasio	Pasio
F1	30-59.9	Methu: methu ffiniol (gellir rhoi digolledíad)	Methu
F2	0-29.9	Methu: methu clir (ni ellir rhoi digolledíad)	Methu

30. Defnyddir y raddfa isod ar gyfer pob cwrs lefel Meistr a addysgir mewn Drama.

Cod	**Gradd (%)**	**Disgrifiad**	**Canlyniad**
	70-100	Pasio gyda Rhagoriaeth	Pasio
	60-69	Pasio gyda Theilyngdod	Pasio
	40-59	Pasio	Pasio
F1	30-39	Methu: methu ffiniol (gellir rhoi digolledíad)	Methu
F2	0-29	Methu: methu clir (ni ellir rhoi digolledíad)	Methu

Asesu ar Lefel Ôl-raddedig

31. Ar gyfer dyfarniadau ôl-raddedig, gosodir y marc Pasio ar 50%.

Cynnydd, Adfer Methiant a Aigolledu

Ailsefyll ar gyfer gradd Meistr

32. Bydd marc modiwl ailsefyll yn cael ei gapio ar 50% mewn Cerddoriaeth a 40% mewn Drama.

Dosbarthiad graddau anrhydedd

BA Rheoli Llwyfan a Theatr Dechnegol, BA Cynllunio ar gyfer Perfformio a BA Actio

33. Cyfrifir y dosbarthiad fel a ganlyn:

Dull 1: Cyfrifo cyfartaledd y marciau o'r 60 credyd gorau ar Lefel 5 a'r 120 credyd ar Lefel 6. Rhaid i'r credydau ar Lefel 5 gynnwys y marc am y credydau ar gyfer y modiwlau cynhyrchu.

Dull 2: Cyfrifo cyfartaledd y marciau o'r 120 credyd ar Lefel 6.

Mae'r Myfyriwr yn cael y gorau o'r ddau gyfartaledd uchod.

34. Yna byddwn yn dosbarthu eich gradd gan ddefnyddio'r ddau gyfartaleddau a gyfrifir gan y dulliau a ddisgrifir ym mharagraff 35 uchod ac yn dyfarnu dosbarthiad yn seiliedig ar y tabl canlynol:

Cymedr %	**Dosbarthiad**
O leiaf 69.5% hyd at 100%	Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf
O leiaf 59.5% a llai na 69.5%	Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth Uwch
O leiaf 49.5% a llai na 59.5%	Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth Is
O leiaf 40% a llai na 49.5%	Gradd Anrhydedd Trydydd Dosbarth

BMus Cerddoriaeth a BMus Jazz

35. I ddosbarthu'ch dyfarniad byddwn yn cyfrifo marc cyfartalog gan ddefnyddio'r ddau ddull canlynol:

a. Dull 1: Cyfrifo cyfartaledd y marciau o'r 270 credyd a gafwyd o'r 90 credyd gorau ar Lefel 5 a'r 180 credyd ar Lefel 6.

i. Ar gyfer BMus Cerddoriaeth, mae'n rhaid i'r 90 credyd ar Lefel 5 gynnwys y marc am y modiwl 40 credyd Repertoire ac Arddull (MUS301).

ii. ar gyfer BMus Jazz, mae'n rhaid i'r 90 credyd ar Lefel 5 gynnwys y marc am y modiwl 40 credyd Repertoire ac Arddull Jazz (MUJ301).

b. Dull 2: Cyfrifo cyfartaledd y marciau o'r 180 credyd ar Lefel 6.

36. Yna byddwn yn dosbarthu eich gradd gan ddefnyddio'r ddau gyfartaleddau a gyfrifir gan y dulliau a ddisgrifir ym mharagraff 35 uchod ac yn dyfarnu dosbarthiad yn seiliedig ar y tabl canlynol:

Cymedr %	**Dosbarthiad**
O leiaf 69.5% hyd at 100%	Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth Uwch Gradd Anrhydedd Ail ddosbarth Is Gradd Anrhydedd Trydydd Dosbarth
O leiaf 59.5% a llai na 69.5%	Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth Uwch
O leiaf 49.5% a llai na 59.5%	Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth Is
O leiaf 40% a llai na 49.5%	Gradd Anrhydedd Trydydd Dosbarth

Cymhwysedd ar gyfer y dyfarniad

37. I fod yn gymwys ar gyfer dyfarniad Baglor mewn Cerddoriaeth gydag Anrhydedd rhaid i fyfyriwr gwblhau 180 credyd ar Lefel 4, 180 credyd ar Lefel 5 a 120 credyd ar Lefel 6.

Mae'r dosbarthiad yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

Dull 1: Cyfrifo cyfartaledd y marciau am 60 credyd gorau modiwlau Lefel 5 blwyddyn 3 a 120 credyd ar Lefel 6.

Dull 2: Cyfrifo cyfartaledd y marciau ar gyfer y 120 credyd ar Lefel 6.

Mae'r myfyriwr yn cael y gorau o'r ddau gyfartaledd uchod.

BA Theatr Gerdd

38. Cyfrifir y dosbarthiad fel a ganlyn:

Y canlyniad gorau o naill ai dull 1 neu ddull 2:

Dull 1: Cyfrifo cyfartaledd y marciau o'r 60 credyd gorau ar Lefel 5 a'r 120 credyd ar Lefel 6. Mae'r 60 credyd gorau ar Lefel 5 wedi'u cymryd o'r modiwlau MTH201 Actio, MTH202 Canu a Dawns a Symud MTH203 ar Lefel 5.

Dull 2: Cyfrifo cyfartaledd y marciau o'r 120 credyd ar Lefel 6.

Diploma Graddedig mewn Perfformiad Lleisiol

Graddfeydd Marcio

39. Y marc pasio ar gyfer asesiad ar Lefel 6 fydd 40%.

Cymhwysedd ar gyfer y dyfarniad

40. Mae'r Diploma Graddedig mewn Perfformiad Lleisiol yn cael ei raddio fel 120 credyd ar Lefel 6.

I fod yn gymwys ar gyfer dyfarniad y Diploma Graddedig mewn Perfformiad Lleisiol rhaid i chi gwblhau 120 credyd ar Lefel 6.

I fod yn gymwys ar gyfer dyfarniad y Dystysgrif Raddedig mewn Perfformiad Lleisiol rhaid i chi gwblhau 60 credyd ar Lefel 6.

Dosbarthiad y dyfarniad

41. Byddwn yn cyfrifo cyfartaledd yr holl gredydau sy'n rhan o'r dyfarniad.

Byddwn yn dyfarnu

a. Rhagoriaeth os yw eich cyfartaledd yn 69.5% neu fwy.

b. Teilyngdod os yw eich cyfartaledd yn 59.5% neu fwy ac yn llai na 69.5%.

c. Pasio os yw eich cyfartaledd yn 39.5% neu fwy ac yn llai na 59.5%.

42. Dyfarniad ymadael yw'r Dystysgrif Raddedig ac nid yw wedi'i dosbarthu.

Dosbarthiad dyfarniadau Ôl-raddedig a addysgir

Graddau Meistr

43. Byddwn yn cyfrifo cyfartaledd yr holl gredydau sy'n rhan o'r dyfarniad.

44. Byddwn yn dyfarnu

a. Rhagoriaeth os:

i. Byddwch yn ennill marc o 70 neu fwy yn y Porffolio Ymarfer Proffesiynol ar gyfer yr MA Rheoli Llwyfan a Digwyddiadau; neu

ii. Byddwch yn ennill marc o 70 neu fwy yn y modiwl Portffolio Ymarfer Proffesiynol/Amgen ar gyfer yr MA Dylunio Theatr; neu

iii. Byddwch yn ennill marc o 70 neu fwy yn y modiwl Cynhyrchu Perfformiad Annibynnol ar gyfer yr MA Actio ar gyfer Sgrin Llwyfan a Radio, neu

iv. Byddwch yn ennill marc o 70 neu fwy yn y modiwl Portffolio Ymarfer Proffesiynol ar gyfer yr MA Celfyddydau Golygfaol ac Adeiladu ar gyfer Llwyfan a Sgrin; neu

v. Byddwch yn cael marc o 70 neu fwy yn y modiwl Perfformio Cyhoeddus ar gyfer yr MA mewn Theatr Gerdd; neu

vi. Byddwch yn cael marc o 70 neu fwy yn y Modiwl Perfformio mewn Cyd-destun neu'r hyn sy'n cyfateb yn uniongyrchol iddo o fewn y fframwaith dyfarnu ar gyfer yr MA Perfformio Opera Uwch; neu

vii. Byddwch yn ennill marc o 70 neu fwy yn y modiwl Perfformio Jazz 2 ar gyfer yr MA mewn Jazz

b. Teilyngdod os yw eich cyfartaledd yn 59.5% neu fwy ac yn llai na 69.5%.

c. Pasio os yw eich cyfartaledd yn 50% neu fwy ac yn llai na 59.5% (Cerddoriaeth) neu 40% neu fwy ac yn llai na 59.5% (Drama).

Diplomâu Ôl-raddedig

45. Byddwn yn cyfrifo cyfartaledd yr holl gredydau sy'n rhan o'r dyfarniad.

46. Byddwn yn dyfarnu:

a. Rhagoriaeth os yw eich cyfartaledd yn 69.5% neu fwy.

b. Teilyngdod os yw eich cyfartaledd yn 59.5% neu fwy ac yn llai na 69.5%.

c. Pasio os yw eich cyfartaledd yn 49.5% neu fwy ac yn llai na 59.5% (Cerddoriaeth) neu 40% neu fwy ac yn llai na 59.5% (Drama).

Tystysgrifau Ôl-raddedig

47. Dyfernir Tystysgrifau Ôl-raddedig fel ‘Pasio.’

A5: Rheoliadau Trefniadau Eithriadol

Adran 1

Cyflwyniad

1. Mae'r Brifysgol yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gweithgaredd addysgu ac asesu yn parhau a bod y marciau ar gyfer asesu myfyrwyr ar gael i fyrddau asesu. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae digwyddiadau megis trychineb naturiol, afiechyd, gweithredoedd terfysgol, tân, llifogydd neu weithredu diwydiannol yn tarfu ar fusnes academaidd y Brifysgol, mae angen cael Rheoliadau Trefniadau Eithriadol y gall yr Is-Ganghellor eu rhoi ar waith.

2. Mae'r Brifysgol yn dymuno sicrhau bod penderfyniadau am eich cynnydd neu'ch dyfarniadau terfynol mor amserol â phosibl. Bwriad y mesurau a amlinellir isod yw rhoi'r canlyniadau gorau posibl i chi o ystyried y cyfyngiadau y gellir eu gosod ar y Brifysgol.

3. Bydd y Rheoliadau hyn yn cwmpasu pob cwrs ond lle mae cyrsiau'n cael eu llywodraethu gan ofynion Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSRB), efallai y bydd angen i'r gofynion hyn gael blaenoriaeth dros y Rheoliadau Trefniadau Eithriadol.

Adran 2

Egwyddorion Allweddol

4. Ni fydd eich canlyniad academaidd dan anfantais oherwydd y digwyddiad eithriadol.

5. Ystyrir a oes digon o dystiolaeth i ddangos eich bod wedi cyflawni'r deilliannau dysgu ar gyfer eich cwrs ar y lefel briodol er mwyn i chi allu symud ymlaen â'ch astudiaethau neu eu cwblhau.

6. Bydd safonau academaidd a gofynion proffesiynol yn parhau i fod yn hollbwysig i ni.

7. Byddwch yn cael eich trin mewn modd teg a chyfartal.

Adran 3

Defnyddio Rheoliadau Trefniadau Eithriadol

8. Bydd y Cofrestrydd Academaidd yn gofyn i'r Is-Ganghellor alw'r Rheoliadau Trefniadau Eithriadol i rym.

9. Bydd y rheoliadau hyn yn cael blaenoriaeth dros reoliadau, polisïau a gweithdrefnau academaidd eraill sy'n ymwneud ag asesu, dosbarthiad a chynnydd myfyrwyr, gan gynnwys y *Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir* a'r *Rheoliadau a Gweithdrefnau Gwaith Achos Myfyrwyr*.

10. Bydd y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd yn cymeradwyo canllawiau i fyrddau asesu ar gyfer cymhwyso'r rheoliadau hyn yn briodol a fydd yn ystyried y sefyllfa o argyfwng penodol.

Adran 4

Force Majeure sy'n effeithio ar addysgu ac asesu

11. Efallai y bydd amgylchiadau lle na all gweithgaredd addysgu a dysgu ddigwydd fel y cynlluniwyd a/neu a drefnwyd. Bydd y Brifysgol yn ymdrechu i drefnu trefniadau amgen i chi er mwyn lleihau'r effaith ar eich dysgu, addysgu ac asesu arfaethedig.

12. Yn achos amgylchiadau mwy difrifol sydd wedi effeithio, neu sy'n debygol o effeithio, ar y Brifysgol am gyfnod hwy o amser, gall y Brifysgol adolygu'r Amserlen Arholiadau a'r Amserlen Asesu. Gall ddileu asesiadau os yw'n ymarferol gwneud hynny, neu eu gohirio tan gyfnod diweddarach, neu roi asesiadau amgen yn eu lle, lle bo hynny'n briodol.

Adran 5

Force Majeure sy'n arwain at golli marciau neu gymedroli

13. Gall fod amgylchiadau sy'n arwain at golli marciau, er enghraifft, os na fydd nifer sylweddol ohonoch yn gallu cymryd rhan mewn asesiadau oherwydd yr amgylchiadau brys ***neu'r amgylchiadau'n atal marciau rhag bod ar gael***.

14. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd byrddau asesu fel arfer yn ystyried a oes digon o wybodaeth ar gael i bennu canlyniadau terfynol. Gweler yr adrannau canlynol.

15. Efallai y bydd angen addasu gweithdrefnau marcio a safoni safonol yn unol â'r Rheoliadau Trefniadau Eithriadol hyn.

Adran 6

Gwneud penderfyniadau mewn cyfarfodydd Bwrdd

16. Lle y bo'n bosibl, bydd byrddau'n ymgynnull ar yr amseroedd a drefnwyd, waeth beth fo unrhyw gyfyngiadau posibl o ran argaeledd gwybodaeth a allai effeithio ar allu'r bwrdd i gadarnhau canlyniadau. Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau lle bydd angen aildrefnu byrddau, ac os felly, bydd y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) yn cymeradwyo.

17. Bydd y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) yn gyfrifol am gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau i gyfansoddiad byrddau asesu yn ôl yr angen.

18. Bydd y canlynol yn berthnasol, ac eithrio pan fo cyrsiau'n cael eu llywodraethu gan ofynion proffesiynol, statudol a rheoleiddiol (PSRB), ac os felly efallai y bydd angen i'r gofynion hynny gael blaenoriaeth.

Bwrdd Asesu Pwnc

19. Fel arfer, dim ond ar ôl cwblhau modiwl llawn y dyfernir credyd. Fodd bynnag, o dan y Rheoliadau Trefniadau Eithriadol hyn, lle mae marciau ar goll am elfennau o asesu sy'n ymwneud â'r amgylchiadau brys, gellir defnyddio barn academaidd yn ôl disgresiwn y Bwrdd Asesu Pwnc i bennu marc neu ganlyniad modiwl. Bydd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar y graddau y bu'n bosibl dangos tystiolaeth eich bod wedi cyflawni'r deilliannau dysgu ar gyfer y modiwl ar y lefel briodol. Bydd hyn yn cynnwys eich perfformiad mewn elfennau eraill ar draws y modiwl a'ch cyfranogiad yn y modiwl yn gyffredinol.

20. Rhoddir ystyriaeth hefyd i ba raddau yr effeithiodd yr amgylchiadau brys ar eich perfformiad yn yr asesiad a gwblhawyd ac a gyflwynwyd ar ôl i'r digwyddiad ddechrau.

Bwrdd Dilyniant a Dyfarnu

<u>Symud Myfyrwyr Ymlaen</u>

21. Os ydych yn symud ymlaen, ond heb gwblhau eich cymhwyster, a'i bod yn bosibl dangos tystiolaeth eich bod wedi cyflawni'r deilliannau dysgu ar y lefel briodol, bydd y Bwrdd Dilyniant a Dyfarnu yn caniatáu ichi symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf.

22. Lle nad yw'n bosibl dangos tystiolaeth eich bod wedi cyflawni'r deilliannau dysgu ar y lefel briodol, byddwch yn cael gwybodaeth am opsiynau ailsefyll.

23. Lle bydd y credyd modiwl a ddyfernir gan y Bwrdd Asesu Pwnc yn y pen draw yn rhan o ddosbarthiad y cymhwyster, efallai y caniateir i chi, fel eithriad, i ailsefyll unrhyw asesiad oedd â dyddiad cau ar gyfer ei gyflwyno ar ôl i'r sefyllfa o argyfwng gychwyn, fel modd o wella eich gradd. Os byddwch yn dewis gwneud hynny, byddwch yn derbyn yr uchaf o'r ddau farc am bob asesiad ac felly ni fyddwch yn cael eich cosbi os bydd y cyflwyniad ailsefyll yn cael marc is na'r cyflwyniad gwreiddiol. Fel eithriad, ni fydd marc cyffredinol y modiwl yn cael ei gapio.

24. Mae'r rheolau digolledu arferol yn caniatáu i gredydau gael eu digolledu. Efallai y caniateir i'r byrddau asesu ystyried disgresiwn ychwanegol wrth gymhwyso'r rheolau hyn, tra'n sicrhau y dangosir bod deilliannau dysgu wedi'u cyflawni.

<u>Dyfarnu Cymhwyster i Fyfyrwyr sy'n Cwblhau</u>

25. Mae dyfarnu cymhwyster terfynol fel arfer yn dibynnu ar eich bod wedi cronni'r holl gredydau angenrheidiol ar gyfer y dyfarniad hwnnw. Fodd bynnag, am gyfnod y Trefniadau Eithriadol hyn, gall Byrddau Asesu Dyfarnu ganiatáu i fyfyrwyr yr effeithir arnynt ar lefel derfynol gradd (neu gymhwyster arall) gael eu hystyried ar gyfer dyfarniad terfynol. Bydd hyn yn seiliedig ar y farn academaidd ynghylch i ba raddau y mae'n bosibl dangos eich bod wedi cyflawni'r deilliannau dysgu ar y lefel briodol.

26. Fel rhan o'i ystyriaethau, gall bwrdd hefyd eich ystyried ar gyfer dyfarniad aegrotat neu annosbarthedig, lle bo'n briodol.

27. Pan fydd digon o wybodaeth ar gael am asesu a’ch bod wedi methu, bydd y Bwrdd Dyfarnu yn gwneud penderfyniad gan ddefnyddio rheoliadau safonol y Brifysgol.

28. Lle bo credyd y modiwl a ddyfernir gan y Bwrdd Asesu Pwnc yn rhan o ddosbarthiad y cymhwyster, mae'n bosibl y caniateir i chi, fel eithriad, i ailsefyll asesiad sy'n ymwneud â'r sefyllfa o argyfwng, fel ffordd o wella'ch gradd. Os byddwch yn dewis gwneud hynny, byddwch yn derbyn yr uchaf o'r ddau farc am bob asesiad ac felly ni fyddwch yn cael eich cosbi os bydd y cyflwyniad ailsefyll yn cael marc is na'r cyflwyniad gwreiddiol. Fel eithriad, ni fydd marc cyffredinol y modiwl yn cael ei gapio.

Adran 7

Diwygiadau i'r weithdrefn amgylchiadau esgusodol yn achos force majeure

29. Yn achos digwyddiad/mater mawr sy’n effeithio ar nifer fawr o fyfyrwyr, e.e. sefyllfa feirws pandemig, bydd y Cofrestrydd Academaidd yn ystyried yr effaith a gall wneud cyhoeddiad drwy UniLife a Blackboard gyda gweithrediad prifysgol gyfan y cytunwyd arno neu, weithredu priodol sy'n benodol i'r campws. Bydd manylion y dystiolaeth sydd ei hangen yn ystod digwyddiadau arwyddocaol yn cael eu cadarnhau gan y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) yn ystod yr argyfwng.

30. Bydd cyfansoddiad y Panel Amgylchiadau Esgusodol yn cael ei ddiwygio fel y bo'n briodol gan y Cofrestrydd Academaidd.

31. Bydd y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) yn gyfrifol am gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau ychwanegol yn ôl yr angen.

Adran 8

Diwygiadau i'r weithdrefn camymddwyn academaidd yn achos *force majeure*

32. Yn achos *force majeure*, caiff cyfansoddiad y paneli Camymddwyn Academaidd a phaneli Cais am Adolygiad ei ddiwygio fel y bernir yn briodol.

33. Efallai y bydd angen ymestyn amserlenni arferol y Brifysgol; fodd bynnag, byddwn yn ceisio tarfu cyn lleied â phosibl.

34. Os ydych yn astudio mewn sefydliadau partner, dylech fod yn ymwybodol y gallai fod yn ofynnol i sefydliadau partner roi gweithdrefnau gwahanol ar waith mewn ymateb i'r sefyllfa bresennol. Bydd y Brifysgol yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod unrhyw amhariad o'r fath mor fach ag y gellir yn rhesymol ei ddisgwyl.

35. Bydd y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) yn gyfrifol am gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau ychwanegol yn ôl yr angen.

Adran 9

Diwygiadau i weithdrefnau disgyblu anacademaidd

Cod Ymddygiad Myfyrwyr

36. Os na fyddwch yn cydymffurfio â gofynion sy'n ymwneud â'r amgylchiadau brys, mae'n bosibl y byddwch yn destun gweithredu o dan y Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr.

Gweithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr / Gweithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer

37. Bydd y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) yn gyfrifol am gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau i gyfansoddiad pwyllgorau/paneli yn ôl yr angen.

A6: Rheoliadau Cwrs – Dyfarniadau Eraill

Cyflwyniad

1. Yn y rheoliadau hyn, fel y mae cyd-destun yn mynnu, mae "chi" ac "eich" yn golygu'r myfyriwr, prentis neu'r ymgeisydd; mae "ni", "ein" a "ni'n hunain" yn golygu Prifysgol De Cymru neu Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) fel sy'n briodol.

2. Y rhain yw'r Rheoliadau cwrs ar gyfer tystysgrifau a dyfarniadau eraill Prifysgol De Cymru:

   a. Tystysgrif Credyd y Brifysgol

   b. Tystysgrif Sylfaen y Brifysgol

   c. Tystysgrif Prifysgol

   ch. Tystysgrif Uwch Prifysgol (60 credyd)

   d. Tystysgrif Uwch Prifysgol (120 credyd)

   dd. Tystysgrif Cyflawniad y Brifysgol mewn Dysgu ac Addysgu

   e. Mynediad i AU (pob llwybr)

   f. Cwrs Sylfaen (pob llwybr)

   ff. Cwrs Sylfaen Rhyngwladol Blwyddyn

3. Dylid eu darllen ar y cyd â'r Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Cyrsiau a Addysgir, sydd hefyd yn berthnasol i chi.

4. Mae'r Rheoliadau hyn yn dweud wrthych beth y byddwn yn ei wneud i ddarparu rhaglenni astudio, a'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud fel myfyriwr. Maent yn rhan bwysig o'r contract rhyngom, ac ni fyddant yn newid heb eich cynnwys chi (a all fod gan Undeb y Myfyrwyr yn gweithredu ar eich rhan). Rydym yn adolygu'r Rheoliadau hyn ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd. Byddwn yn rhoi gwybod i chi adeg ailgofrestru os bydd unrhyw newidiadau.

Derbyniadau

5. Nodir ein meini prawf ar gyfer isafswm mynediad, a'n gofynion mynediad disgwyliedig ar gyfer cyrsiau unigol, ar ein tudalennau gwe a/neu prosbectws.

Cyrsiau sy'n gofyn am gliriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)

6. Ar gyfer cyrsiau y mae angen cliriad gwiriad GDG arnynt, mae'n rhaid i chi gyflwyno eich cais GDG o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad dechrau, neu eich dyddiad trosglwyddo i'r cwrs. Mae angen cliriad digonol er mwyn i chi barhau i gofrestru ar eich cwrs. Os na ddechreuwch eich cais GDG o fewn y 14 diwrnod, neu os na fyddwch wedyn yn datgelu gwybodaeth newydd a allai effeithio ar y cliriad sy'n ofynnol i ymgymryd â'ch cwrs, rydym ni'n cadw'r hawl i gymryd unrhyw gamau priodol a allai gynnwys canslo eich cofrestriad. Mae'n dal yn bosibl y byddwch yn atebol am ffioedd dysgu tan y dyddiad y cewch eich tynnu'n ôl, yn unol â Polisi Ffioedd a Dyledion y Brifysgol.

Cydnabod dysgu blaenorol

7. Nid ydym yn cydnabod dysgu blaenorol ar gyfer y dyfarniadau hyn.

Isafswm ac uchafswm cyfnodau cofrestru

8. Mae isafswm ac uchafswm cyfnodau cofrestru ar gyfer cyrsiau o dan y Rheoliadau hyn fel a ganlyn:

Cyfnod cofrestru	**Isafswm**		**Uchafswm**	
Dyfarniad	**Amser llawn**	**Rhan-amser**	**Amser llawn**	**Rhan-amser**
Dyfarniadau Byr[5]				
Tystysgrif Credyd y Brifysgol[6]	Blwyddyn	Blwyddyn	*	*
Tystysgrif Sylfaen y Brifysgol	Blwyddyn	Blwyddyn	*	*
Tystysgrif Prifysgol	Blwyddyn	Blwyddyn	*	*
Tystysgrif Uwch Prifysgol (60 credyd)	Blwyddyn	Blwyddyn	*	*
Tystysgrif Uwch Prifysgol (120 credyd)	Blwyddyn	Blwyddyn	*	*
Tystysgrif Cyflawniad mewn Dysgu ac Addysgu y Brifysgol	Blwyddyn	Blwyddyn	*	*
Cyrsiau Mynediad a Sylfaen				
Mynediad i AU (pob llwybr)	Blwyddyn	-	3bl	-
Cwrs Sylfaen (pob llwybr)	Blwyddyn	-	3bl	-
Cwrs Sylfaen Rhyngwladol Blwyddyn	Blwyddyn	-	1.5bl	-

* * Fel arfer yr un hyd â'r isafswm cyfnod

[5] Yn bennaf ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a dibenion Bitesize.

[6] Nid yw'n gyfystyr â dyfarniad ffurfiol o'r Brifysgol ac fe'i cyhoeddir fel Trawsgrifiad o Berfformiad.

Graddfeydd marcio

9. Defnyddir y raddfa yn y tabl isod:

Cod	Graddfa (%)	Disgrifiad	Canlyniad
	70-100	Pasio gyda Rhagoriaeth	Pasio
	60-69.9	Pasio gyda Theilyngdod	Pasio
	40-59.9	Pasio	Pasio
F1	30-39.9	Methu: methu ffiniol (gellir rhoi digolledi ad)	Methu
F2	0-29.9	Fail: a clear failure (cannot be compensated)	Fail

Cymhwystra ar gyfer dyfarniadau

10. Mae'n rhaid i chi fod wedi cwblhau holl elfennau'r cwrs yn llwyddiannus er mwyn bod yn gymwys i gael dyfarniad.

Dosbarthiad Dyfarniadau

11. Lle caiff dyfarniad ei ddosbarthu, byddwn yn cyfrifo cyfartaledd yr holl gredydau sy'n cynnwys y dyfarniad.

12. Byddwn yn dyfarnu:

a. rhagoriaeth os yw eich cyfartaledd yn 69.5% neu'n fwy.

b. teilyngdod os yw eich cyfartaledd yn 59.5% neu'n fwy ac yn llai na 69.5%.

c. pasio os yw eich cyfartaledd yn 39.5% neu'n fwy ac yn llai na 59.5%.

A7: Prifysgol De Cymru – Fframwaith Dyfarniadau

Rhesymeg

1. Cynlluniwyd fframwaith y Brifysgol ar gyfer cyrsiau academaidd i gefnogi:

    a. ystod lawn o gyrsiau addysg uwch sy'n gydnaws â Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru a'r Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch;

    b. y diffiniad clir a chyson o gyrsiau ar y safon sy'n briodol i'w teitl dynodedig a'r lefel addysg uwch;

    c. dewis a hyblygrwydd i fyfyrwyr, gan gynnwys trosglwyddo rhwng cyrsiau, cyfleoedd rhan-amser a darpariaeth aml-ddull;

    ch. y gallu i ddarparu cyrsiau arbennig i ddiwallu anghenion amrywiaeth eang o randdeiliaid;

    d. cysylltiadau a phontydd clir rhwng cyrsiau i sicrhau y gall pob myfyriwr ddod o hyd i'r cyrsiau sy'n gweddu orau i'w hanghenion a'u dyheadau.

Y cyrsiau a gynigir gan y Brifysgol

2. Mae'r holl gyrsiau a addysgir ac a ddarperir gan y brifysgol, naill ai ar gyfer ei hun neu mewn cydweithrediad â'i sefydliadau partner, wedi'u strwythuro o fewn fframwaith modiwlaidd cyffredin sy'n seiliedig ar gredyd. Felly, mae pob cwrs yn cynnwys nifer diffiniedig o unedau o faint safonol, hyd a gwerth (modiwlau). Yn eu tro, mae'r modiwlau hyn yn cario nifer penodol o gredydau ar y lefel sy'n briodol i'w lle o fewn cwrs. I ennill dyfarniad, rhaid i fyfyrwyr gronni'r nifer gofynnol o gredydau ar y lefelau ac yn y pynciau a ddiffinnir gan bob manyleb cwrs benodol.

Y cyrsiau a achredir gan y Brifysgol

3. Yn ogystal â'i darpariaeth ei hun, gall y Brifysgol hefyd achredu cyrsiau a ddatblygir gan ei phartneriaid cydweithredol. Mae'r cyrsiau hyn hefyd yn gyrsiau'r brifysgol ac fe'u gelwir yn ddarpariaeth 'achrededig'. Rhaid iddynt gael eu gosod yn amlwg ar y lefel addysg uwch ddynodedig a bod yn gydnaws â system yn seiliedig ar gredyd y brifysgol, ond nid oes angen iddynt ddilyn strwythur modiwlaidd y brifysgol.

Cydnawsedd credyd

4. Mae diffiniadau credyd y Brifysgol yn gydnaws â'r rhai a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o brifysgolion y DU, gan y Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru a'r System Trosglwyddo Credydau Ewropeaidd (ECTS). Gall credydau cronedig felly gael eu trosglwyddo naill ai rhwng cyrsiau o fewn y brifysgol neu i brifysgolion a sefydliadau eraill, yn amodol ar fodloni gofynion y cwrs a'r sefydliad derbyn.

Cyrsiau a Dyfarniadau'r Brifysgol

5. Mae'r Brifysgol yn cydnabod yr ystod ganlynol o ddyfarniadau ffurfiol:

Enw llawn	**Byrfodd**	**Lefel**	**Credydau sydd eu hangen**	**Isafswm credydau sydd eu hangen ar y lefel uchaf**						**Math o ŵn graddio**
				3	**4**	**5**	**6**	**7**	**8**	
Dyfarniadau israddedig										
Tystysgrif Sylfaen mewn Addysg Uwch	FCertHE	3	120	120						1
Tystysgrif Credyd y Brifysgol	-	3	5	5						amherthnasol
Tystysgrif Sylfaen y Brifysgol	-	3	30	30						amherthnasol
Tystysgrif Genedlaethol Uwch	HNC	4	120		120					1
Tystysgrif Addysg Uwch	CertHE	4	120	20	100					1
Diploma Addysg Uwch	DipHE	5	120		20	100				1

Enw llawn	Byrfodd	Lefel	Credydau sydd eu hangen	Isafswm credydau sydd eu hangen ar y lefel uchaf						Math o ŵn graddio
				3	4	5	6	7	8	
Dyfarniadau Israddedig										
Tystysgrif Prifysgol	-	4	60	20	40					amherthnasol
Diploma Addysg Uwch	DipHE	5	240	20	120	100				1
Diploma Cenedlaethol Uwch[8]	HND	5	240		120	120				1
Gradd Sylfaen yn y Celfyddydau[9]	FdA	5	240	20	120	100				2
Gradd Sylfaen mewn[10] Gwyddoniaeth	FdSc	5	240	20	120	100				2
Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg	ProfCE	5	120		20	100				1
Tystysgrif Uwch Prifysgol	-	5	60	20		40				amherthnasol
Tystysgrif Addysg Uwch	ACertHE	6	120		20	80	20			
Baglor yn y Celfyddydau (diddosbarth)	BA	6	300	20	120	120	40			2
Baglor yn y Celfyddydau (gydag anrhydedd)	BA (Anrh)	6	360	20	120	120	100			2
Baglor yn y Celfyddydau (gydag anrhydedd) gyda statws athro cymwysedig (SAC)	BA (Anrh) gyda SAC	6	360	20	120	120	100			

1. Dyfarniad ymadael o 120 o gredydau heb eu grwpio nad ydynt yn gymwys ar gyfer HNC fydd CertHE
2. Rhaid i 60 credyd ddod o ddysgu seiliedig ar waith L5
3. Rhaid i 60 credyd ddod o ddysgu seiliedig ar waith L5

Enw llawn	Byrfodd	Lefel	Credydau sydd eu hangen	Isafswm credydau sydd eu hangen ar y lefel uchaf						Math o ŵn graddio
				3	4	5	6	7	8	
Dyfarniadau Israddedig										
Baglor mewn Gweinyddu Busnes	BBA (Anrh)	6	360	20	120	120	100			2
Baglor mewn Peirianneg (diddosbarth)	BEng	6	300	20	120	120	40			2
Baglor mewn Peirianneg (gydag anrhydedd)	BEng (Anrh)	6	360	20	120	120	100			2
Baglor yn y Gyfraith (diddosbarth)	LLB	6	300	20	120	120	40			2
Baglor yn y Gyfraith (gydag anrhydedd)	LLB (Anrh)	6	360	20	120	120	100			2
Baglor mewn Bydwreigiaeth (gydag anrhydedd)	BM (Anrh)	6	360	20	120	120	100			2
Baglor mewn Cerddoriaeth (diddosbarth)	BMus	6	300	20	120	120	40			2
Bachelor mewn Cerddoriaeth (gydag anrhydedd)	BMus (Anrh)	6	360	20	120	120	100			2
Baglor mewn Nyrsio (gydag anrhydedd)	BN (Anrh)	6	360	20	120	120	100			2
Baglor mewn Gwyddoniaeth (diddosbarth)	BSc	6	300	20	120	120	40			2
Baglor mewn Gwyddoniaeth (gydag anrhydedd)	BSc (Anrh)	6	360	20	120	120	100			2
Baglor mewn Gwyddoniaeth (gydag anrhydedd) gyda statws athro cymwysedig (SAC)	BSc (Anrh) SAC	6	360	20	120	120	100			2

Diploma Graddedig	-	6	120			20	100			1

Enw llawn	Byrfodd	Lefel	Credydau sydd eu hangen	Isafswm credydau sydd eu hangen ar y lefel uchaf						Math o ŵn graddio
				3	4	5	6	7	8	
Dyfarniadau Israddedig										
Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion	CertEd (TAR)	6	120			20	100			1
Tystysgrif Prifysgol Uwch	-	6	60	20			40			amherthnasol
Tystysrif Ôl-raddedig - a Addysgir										
Meistr mewn Ymchwil	MRes	7	180				30	150		4
Meistr mewn Gwyddoniaeth	MSci	7	480	20	100	120	120	120		3
Meistr mewn Bioleg	MBiol	7	480	20	100	120	120	120		3
Meistr mewn Ceiropracteg	MChiro	7	480	20	100	120	120	120		3
Meistr mewn Cyfrifiadura	MComp	7	480	20	100	120	120	120		3
Meistr mewn Peirianneg	MEng	7	480	20	100	120	120	120		3
Meistr mewn Daearyddiaeth	MGeog	7	480	20	100	120	120	120		3
Master of Law	MLaw	7	480	20	100	120	120	120		3
Master of Mathematics	MMath	7	480	20	100	120	120	120		3

Enw llawn	Byrfodd	Lefel	Credydau sydd eu hangen	Isafswm credydau sydd eu hangen ar y lefel uchaf						Math o ŵn graddio
				3	4	5	6	7	8	
Dyfarniadau Ôl-raddedig - a Addysgir										
Meistr Gweithredol mewn Gweinyddu Busnes	EMBA	7	180				30	150		4
Tystysgrif Ôl-raddedig	PgCert	7	60				20	40		3
Diploma Ôl-raddedig	PgDip	7	120				30	90		3
Tystysgrif Addysg i Raddedigion	TAR	7	120				80	40		3
Meistr yn y Celfyddydau	MA	7	180				30	150		4
Meistr mewn Gweinyddu Busnes	MBA	7	180				30	150		4
Meistr yn y Gyfraith	LLM	7	180				30	150		4
Meistr mewn Cerddoriaeth	MMus	7	180				30	150		4
Meistr mewn Materion Cyhoeddus	MPA	7	180				30	150		4
Meistr mewn Gwyddoniaeth	MSc	7	180				30	150		4
Tystysgrif Cyflawniad Prifysgol mewn Dysgu ac Addysgu	-	7						20		amherthnasol

Enw llawn	Byrfodd	Lefel	Credydau sydd eu hangen	Isafswm credydau sydd eu hangen ar y lefel uchaf						Math o ŵn graddio
				3	4	5	6	7	8	
Gwobrau Ôl-raddedig - Ymchwil										
Meistr trwy Ymchwil	MA / MSc	7	amherthnasol	amherthnasol	amherthnasol	amherthnasol	amherthnasol	amherthnasol		4
Doethur mewn Gweinyddu Busnes	DBA	8	540					180	360	5
Doethur mewn Athroniaeth	PhD	8								5
Doethur mewn Seicoleg	DPsych	8	540					100	440	5
Diploma Ymchwil	RDip	7								3

*Sylwer bod yr elfen a addysgir yn y doethuriaethau proffesiynol yn gyfuniad o gredydau Lefelau 7 ac 8. Gweler y Rheoliadau ar gyfer Graddau Ymchwil